# Unedau

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys yr unedau ar gyfer Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes (510 o oriau dysgu dan arweiniad).

Mae’r cymhwyster yma wedi’i gyfieithu i’r Gymraeg i gefnogi addysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Beth sydd ar gael i bob uned yn Gymraeg?**

Yn achos pob uned, fe gewch yr wybodaeth angenrheidiol i addysgu’r cymhwyster BTEC hwn trwy gyfrwng y Gymraeg:

- cyflwyniad
- nodau dysgu
- meini prawf asesu
- arweiniad i athrawon.

Yn yr adrannau Cysylltiadau ag Unedau Eraill ar ddiwedd pob uned, rhestrir rhai unedau yn Saesneg. Arwyddocâd hynny yw bod yr unedau hynny ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

**Ble galla i gael hyd i weddill y fanyleb?**

I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y cymhwyster cyfan, gan gynnwys:

- strwythur a rhesymeg y cymhwyster a’r unedau
- cyflwyno’r rhaglen a recriwtio iddi
- asesu mewnol ac allanol
- sicrhau ansawdd
- graddio ac ardystio.

bydd angen i chi gyfeirio at y fanyleb Saesneg, sydd ar gael ar y wefan ochr yn ochr â’r ddogfen hon (https://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-nationals/business-2016.html).

Gweler hefyd www.btec.co.uk/keydocuments am y rheolau asesu diweddaraf.

**Pa gefnogaeth sydd ar gael?**

Os bydd angen rhagor o gefnogaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â’n timau gwasanaethau addysgu. Cewch hyd i’r holl fanylion cyswllt angenrheidiol yn qualifications.pearson.com/contactus.

Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn diweddaru'r cynnwys a gyflwynir. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r unedau yn y fanyleb yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth, polisïau, rheoliadau a sefydliadau na fyddant o reidrwydd yn berthnasol i'r wlad lle rydych yn cyflwyno'r cymhwyster (os ydych yn addysgu y tu allan i Loegr), neu a all fod wedi dyddio yn ystod oes y fanyleb. Yn yr achosion hyn, mae modd cyfnewid cyfeiriadau o'r fath am rai sy'n gyfredol ac yn berthnasol yn y wlad lle rydych yn cyflwyno, yn amodol ar gadarnhad gan eich Dilysydd Safonau.

# Uned 1: Archwilio Byd Busnes

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **90**

## Crynodeb o'r uned

Yn yr uned ragarweiniol hon, bydd y dysgwyr yn astudio pwrpas gwahanol fusnesau, eu strwythur, effaith yr amgylchedd allanol, a sut mae angen iddynt fod yn ddynamig ac yn arloesol er mwyn goroesi.

## Cyflwyniad i'r uned

Unrhyw weithgaredd sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau yw busnes, p'un ai gwneud elw yw'r nod neu beidio. Llinyn cyffredin ym myd busnes yw bod perchenogion a chyflogeion fel ei gilydd, yn ymdrechu i fodloni cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid bellach yn fwy gwybodus ac mae ganddynt fwy o opsiynau o ran beth maent yn ei brynu a chan bwy, felly mae busnes llwyddiannus yn un sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng boddhad ei gwsmeriaid a gwerthu cynnyrch neu ddarparu gwasanaethau.

Yn yr uned hon, cewch drosolwg o brif gynhwysion llwyddiant busnes, sut caiff busnesau eu trefnu, sut maent yn cyfathrebu, nodweddion yr amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo, a sut mae hyn yn eu siapio nhw a'u gweithgareddau. Byddwch hefyd yn edrych ar bwysigrwydd arloesi a menter i lwyddiant busnes a'i allu i oroesi, yn ogystal â'r risgiau a'r manteision cysylltiedig.

Trwy ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth berthnasol o fyd busnes, bydd yr uned hon yn eich helpu i symud ymlaen i gyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau uwch, neu addysg uwch.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

**A** Archwilio nodweddion busnesau gwahanol a dadansoddi beth sy'n eu gwneud nhw'n llwyddiannus

**B** Ymchwilio i sut caiff busnesau eu trefnu

**C** Archwilio'r amgylchedd y mae busnesau'n gweithredu ynddo

**D** Archwilio marchnadoedd busnes

**E** Ymchwilio i rôl a chyfraniad arloesi a menter i lwyddiant busnes.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio nodweddion busnesau gwahanol a dadansoddi beth sy'n eu gwneud nhw'n llwyddiannus | **A1** Nodweddion busnesau<br>**A2** Rhanddeiliaid a'u dylanwad<br>**A3** Cyfathrebu busnes effeithiol | Adroddiad sy'n archwilio nodweddion dau fusnes gwrthgyferbyniol, sy'n edrych ar sut caiff y naill a'r llall eu trefnu, a sut mae eu strwythur yn eu galluogi i gyflawni eu nodau a'u hamcanion a'r berthynas â rhanddeiliaid a dulliau cyfathrebu â nhw. |
| **B** Ymchwilio i sut caiff busnesau eu trefnu | **B1** Strwythur a threfniadaeth<br>**B2** Nodau ac amcanion | |
| **C** Archwilio'r amgylchedd y mae busnesau'n gweithredu ynddo | **C1** Amgylchedd allanol<br>**C2** Amgylchedd mewnol<br>**C3** Amgylchedd cystadleuol<br>**C4** Dadansoddiad sefyllfaol | Adroddiad sy'n archwilio effeithiau'r amgylchedd mewnol ac allanol ar fusnes mawr a sut mae'r busnes wedi ymateb, ac yn mynd i ymateb, i newidiadau. |
| **D** Archwilio marchnadoedd busnes | **D1** Strwythurau marchnad gwahanol<br>**D2** Y berthynas rhwng galw, cyflenwad a phris<br>**D3** Penderfyniadau prisio ac allbwn | |
| **E** Ymchwilio i rôl a chyfraniad arloesi a menter i lwyddiant busnes | **E1** Rôl arloesi a menter<br>**E2** Manteision a risgiau sy'n gysylltiedig ag arloesi a menter | Cyflwyniad sy'n archwilio'r defnydd o arloesi a menter mewn busnes sy'n bodoli eisoes. |

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio nodweddion busnesau gwahanol a dadansoddi beth sy'n eu gwneud nhw'n llwyddiannus

#### A1 Nodweddion busnesau

- Perchnogaeth ac atebolrwydd:
  - preifat, e.e. unig fasnachwr, partneriaeth, cwmni cyfyngedig preifat, cwmni cyfyngedig cyhoeddus, cwmni cydweithredol, atebolrwydd cyfyngedig ac anghyfyngedig
  - cyhoeddus, e.e. adran y llywodraeth
  - nid-er-elw, e.e. ymddiriedolaeth elusennol, gwirfoddol.
- Pwrpasau, e.e. cyflenwi cynnyrch neu wasanaethau, y gwahaniaeth rhwng busnesau er-elw ac nid-er-elw.
- Sectorau: cynradd, eilaidd, trydyddol, chwarteraidd.
- Cwmpas gweithgareddau busnes: lleol, cenedlaethol, rhyngwladol.
- Maint: micro – hyd at naw aelod o staff; Mentrau Bach a Chanolig (SMEs): bach – rhwng 10 a 49 o staff, canolig – rhwng 50 a 249 o staff; mawr – mwy na 250 o staff.
- Rhesymau dros lwyddiant: sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl y math o fusnes (er-elw neu nid-er-elw), ei nodau a'i amcanion, e.e. gweledigaeth glir, cynnyrch neu brosesau arloesol.

#### A2 Rhanddeiliaid a'u dylanwad

- Rhanddeiliaid:
  - mewnol, e.e. rheolwyr, cyflogeion, perchenogion
  - allanol, e.e. cyflenwyr, benthycwyr, cystadleuwyr, dyledwyr, credydwyr, cwsmeriaid, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth (lleol, cenedlaethol, rhyngwladol), cymunedau (lleol, cenedlaethol, rhyngwladol), carfanau pwyso, grwpiau buddiant.
- Dylanwad rhanddeiliaid ar lwyddiant busnes, e.e. gwerth cyfranddalwyr, cwsmeriaid fel asedau hirdymor (mae gwasanaeth cwsmeriaid cryf yn galluogi cadw cwsmeriaid a theyrngarwch cwsmeriaid); cyfranogiad cyflogeion, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (grwpiau cymunedol a grwpiau buddiant).

#### A3 Cyfathrebu busnes effeithiol

Cyflwyno a darparu gwybodaeth yn briodol i gynulleidfa benodol:

- cyflwyniadau ysgrifenedig, e.e. ariannol, anariannol, adroddiadau ffurfiol ac anffurfiol
- cyflwyniadau llafar, e.e. taflunio cyfrifiadurol/PowerPoint ynghyd â nodiadau'r siaradwr
- pwysigrwydd cyfathrebu i gynorthwyo llwyddiant busnes, e.e. cyfryngau cymdeithasol, cymunedau rhithwir.

### Nod dysgu B: Ymchwilio i sut caiff busnesau eu trefnu

#### B1 Strwythur a threfniadaeth

- Strwythur trefniadol, e.e. hierarchaidd, gwastad, matrics, holacratig.
- Meysydd swyddogaethol/gweithrediadol, e.e. adnoddau dynol, ymchwil a datblygu, gwerthiannau, marchnata, pwrcasu, cynhyrchu ac ansawdd, cyllid, gwasanaeth cwsmeriaid, TG, gweinyddu.

#### B2 Nodau ac amcanion

- Nodau busnesau mewn sectorau gwahanol – cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd:
  - preifat, e.e. gwneud elw, mwyafu elw, adennill costau, goroesi, twf, arwain y farchnad
  - cyhoeddus, e.e. darparu gwasanaeth, cadw rheolaeth ar gostau, gwerth am arian, ansawdd gwasanaeth, bodloni safonau'r llywodraeth
  - nid-er-elw, e.e. addysg, tai, lliniaru tlodi, gofal iechyd.
- Amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) – *SMART* yn Saesneg.

## Nod dysgu C: Archwilio'r amgylchedd y mae busnesau'n gweithredu ynddo

### C1 Amgylchedd allanol

- Gwleidyddol, e.e. cefnogaeth llywodraeth, aelodaeth o gymunedau masnachol megis yr Undeb Ewropeaidd.
- Polisïau economaidd, cyllidol, ariannol a pholisïau eraill y llywodraeth, e.e. polisi ochr gyflenwi, twf economaidd, cyfraddau cyfnewid.
- Agweddau'r gymdeithas at gynilo, gwario a dyled; gofynion cyfrifoldeb cymdeithasol; newid, e.e. mewn tueddiadau demograffig, chwaeth/dewisiadau defnyddwyr.
- Newid technolegol, e.e. awtomeiddio, gwell cyfathrebu.
- Ffactorau amgylcheddol a thueddiadau moesegol, e.e. allyriadau carbon, gwastraff, ailgylchu, llygredd.
- Amgylchedd cyfreithiol, e.e. deddfwriaeth partneriaethau, deddfau cwmnïau, deddfwriaeth elusennau, deddfwriaeth cystadleuaeth, Côd Llywodraethiant Corfforaethol y Deyrnas Unedig, rheoleiddio gwasanaethau ariannol, rheoleiddwyr diwydiant, adrannau'r llywodraeth.

  (Dylid defnyddio statudau a rheoliadau cyfredol adeg addysgu.
  Disgwylir dealltwriaeth fras yn unig.)

### C2 Amgylchedd mewnol

- Diwylliant corfforaethol.
- Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CSR), moeseg.

### C3 Amgylchedd cystadleuol

- Cystadleuaeth (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol).
- Ffactorau sy'n dylanwadu ar fantais gystadleuol, e.e. gwahaniaethu, polisïau prisio, arwain y farchnad, enw da, cyfran o'r farchnad, cadw rheolaeth ar gostau, cysylltiadau technolegol â chwsmeriaid, cyflenwyr a chyflogeion.
- Manteision a phwysigrwydd sefydlu a chynnal mantais gystadleuol.

### C4 Dadansoddiad sefyllfaol

- Asesiad o'r amgylchedd busnes gan ddefnyddio technegau amrywiol, e.e. dadansoddiad PESTLE (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol, Amgylcheddol), dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau), dadansoddiad y 5 elfen (y '5C') (Cwmni, Cystadleuwyr, Cwsmeriaid, Cydweithredwyr, Cyd-destun), Pum Grym Porter.

## Nod dysgu D: Archwilio marchnadoedd busnes

### D1 Strwythurau marchnad gwahanol

- Strwythurau marchnad: cystadleuaeth berffaith, cystadleuaeth amherffaith.
- Nodweddion gwahanol fathau o strwythurau marchnad: nifer y cwmnïau, rhyddid mynediad, natur y cynnyrch.

### D2 Y berthynas rhwng galw, cyflenwad a phris

- Dylanwadau ar y galw, e.e. fforddiadwyedd, cystadleuaeth, argaeledd amnewidynnau, lefel Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP), anghenion a dyheadau defnyddwyr.
- Dylanwadau ar gyflenwad, e.e. argaeledd deunyddiau crai a llafur, logisteg, gallu i gynhyrchu'n broffidiol, cystadleuaeth am ddeunyddiau crai, cefnogaeth gan y llywodraeth.
- Hyblygrwydd: hyblygrwydd pris y galw

### D3 Penderfyniadau prisio ac allbwn

- Effaith ar benderfyniadau prisio ac allbwn mewn gwahanol strwythurau marchnad.
- Ymatebion busnesau i benderfyniadau prisio ac allbwn a wneir gan gystadleuwyr mewn gwahanol strwythurau marchnad.

## Nod dysgu E: Ymchwilio i rôl a chyfraniad arloesi a menter i lwyddiant busnes

### E1 Rôl arloesi a menter

- Arloesi, e.e. proses greadigol, datblygu cynnyrch neu wasanaeth, ffyrdd newydd o gynyddu effeithlonrwydd busnes neu wella proffidioldeb, manteisio'n llwyddiannus ar syniad newydd, ychwanegu gwerth at gynnyrch, gwasanaethau neu farchnadoedd er mwyn i'r busnes sefyll allan o blith y cystadleuwyr.
- Menter: canfod cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau busnes drwy wneud y canlynol, e.e. meddwl creadigol, meddwl ochrol (dod at bynciau o safbwyntiau amgen) a meddwl 'awyr las' (dod at bynciau heb gyfyngu ar safbwyntiau); hap a serendipedd, greddf.

### E2 Manteision a risgiau sy'n gysylltiedig ag arloesi a menter

- Manteision: gwelliannau i gynnyrch, prosesau, gwasanaethau a phrofiad cwsmeriaid, twf busnes, datblygu marchnadoedd newydd ac arbenigol, cynnig rhinweddau gwerthu unigryw, gwell adnabyddiaeth ac enw da, gweithio'n fwy craff.
- Risgiau: methu cwrdd â gofynion gweithrediadol a masnachol, methu sicrhau dychweliad ar fuddsoddiad, problemau diwylliannol (gwrthsefyll newid, systemau a phrosesau anghefnogol, cefnogaeth annigonol gan arweinwyr a rheolwyr).

## Meini prawf asesu

<table>
<tr><th>Llwyddo</th><th>Teilyngdod</th><th>Rhagoriaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu A: Archwilio nodweddion busnesau gwahanol a dadansoddi beth sy’n eu gwneud nhw’n llwyddiannus</td><td rowspan="4">AB.Rh1 Gwerthuso’r rhesymau dros lwyddiant dau fusnes gwrthgyferbyniol, gan fyfyrio ar y dystiolaeth a gasglwyd.</td></tr>
<tr><td>A.Ll1 Esbonio nodweddion dau fusnes gwrthgyferbyniol.<br>A.Ll2 Esbonio sut mae rhanddeiliaid yn dylanwadu ar ddau fusnes gwrthgyferbyniol.</td><td>A.T1 Asesu perthynas a dulliau cyfathrebu dau fusnes gwrthgyferbyniol â’u rhanddeiliaid gan ddefnyddio ymchwil annibynnol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu B: Ymchwilio i sut caiff busnesau eu trefnu</td></tr>
<tr><td>B.Ll3 Archwilio strwythurau trefniadol, nodau ac amcanion dau fusnes gwrthgyferbyniol.</td><td>B.T2 Dadansoddi sut mae strwythurau dau fusnes gwrthgyferbyniol yn caniatáu i’r naill a’r llall gyflawni ei nodau a’i amcanion.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu C: Archwilio’r amgylchedd y mae busnesau’n gweithredu ynddo</td><td rowspan="4">C.Rh2 Gwerthuso i ba raddau mae’r amgylchedd busnes yn effeithio ar fusnes penodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddi sefyllfaol.<br>D.Rh3 Gwerthuso sut mae newidiadau yn y farchnad wedi effeithio ar fusnes penodol a sut gall y busnes dan sylw ymateb i newidiadau yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>C.Ll4 Trafod effaith yr amgylchedd mewnol, allanol a chystadleuol ar fusnes penodol.<br>C.Ll5 Dethol amrywiaeth o dechnegau i gynnal dadansoddiad sefyllfaol o fusnes penodol.</td><td>C.T3 Asesu effeithiau’r amgylchedd busnes ar fusnes penodol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu D: Archwilio marchnadoedd busnes</td></tr>
<tr><td>D.Ll6 Archwilio sut mae strwythur y farchnad a dylanwadau ar alw a chyflenwad yn effeithio ar benderfyniadau prisio ac allbwn ar gyfer busnes penodol.</td><td>D.T4 Asesu sut mae busnes penodol wedi ymateb i newidiadau yn y farchnad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu E: Ymchwilio i rôl a chyfraniad arloesi a menter i lwyddiant busnes</td><td rowspan="2">E.Rh4 Cyfiawnhau’r defnydd o arloesi a menter ar gyfer busnes mewn perthynas â’i farchnad ac amgylchedd newidiol.</td></tr>
<tr><td>E.Ll7 Archwilio sut mae arloesi a menter yn cyfrannu at lwyddiant busnes.</td><td>E.T5 Dadansoddi pa mor llwyddiannus fu’r defnydd o arloesi a menter yn achos busnes penodol.</td></tr>
</table>

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o’r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma’r berthynas rhwng y nodau dysgu a’r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, A.T1, B.T2, AB.Rh1)

Nodau dysgu: C a D (C.Ll4, C.Ll5, D.Ll6, C.T3, D.T4, C.Rh2, D.Rh3)

Nod dysgu: E (E.Ll7, E.T5, E.Rh4)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion adnoddau

Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran adnoddau ar gyfer yr uned hon ond rhaid i ganolfannau sicrhau bod y dysgwyr yn gallu cyrchu gwybodaeth am ystod o fusnesau, gan gynnwys rhai lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

Disgwylir y bydd y dysgwyr mewn carfan yn dewis eu busnesau ac yn ymchwilio iddynt yn annibynnol.

Drwy gydol yr uned, bydd y dysgwyr yn dangos meddwl annibynnol a'r gallu i gasglu a choladu tystiolaeth a llunio barn arni'n annibynnol.

Yn achos Nodau dysgu A a B dylai'r busnesau a ddewisir gan y dysgwr fod yn rhai gwrthgyferbyniol eu nodweddion, e.e. perchnogaeth ac atebolrwydd, pwrpas, sector, cwmpas a/neu faint.

Argymhellir na ddylid defnyddio canolfan y dysgwyr ar gyfer yr uned hon.

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cynhyrchu tystiolaeth berthnasol o sut mae gwahanol nodweddion a'r berthynas gymhleth a'r dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn sicrhau llwyddiant busnesau er mwyn cefnogi'r gwerthusiad a roddwyd.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cyflwyno ystyriaeth ofalus o berthynas y busnesau a'u rhanddeiliaid a'r dulliau cyfathrebu â nhw, a byddant yn dod i gasgliadau ynghylch pa mor dda y mae pob dull cyfathrebu'n effeithio ar berthynas y busnes â'i randdeiliaid. Bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r strwythur trefniadol gan gynnwys y meysydd swyddogaethol gwahanol o fewn y strwythur, swyddogaeth pob un ohonynt a sut mae'r meysydd yn cydblethu neu'n cydweithio er mwyn cyfrannu at nodau ac amcanion y naill fusnes a'r llall.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni gwaith ymchwil fydd yn fodd iddynt ddangos cysylltiad clir rhwng nodweddion cyfarwydd ac amlwg y busnesau a dylanwad y rhanddeiliaid a ffactorau llwyddiant.

### Nodau dysgu C a D

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyflawni ymchwil fanwl i fesur i ba raddau mae'r amgylchedd busnes yn effeithio ar fusnes penodol, a sut gallai effeithio ar y busnes dan sylw yn y dyfodol. Gall y dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddi sefyllfaol i gefnogi eu gwerthusiad.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dethol a chymhwyso gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r amgylchedd busnes ar fusnes penodol a sut mae wedi ymateb i newidiadau yn y farchnad.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni ymchwil fydd yn eu galluogi i drafod effaith yr amgylchedd mewnol, allanol a chystadleuol ar fusnes penodol. Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o dechnegau dadansoddi sefyllfaol y gellir eu defnyddio i ddadansoddi'r amgylchedd busnes.

### Nod dysgu E

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn paratoi a chyflwyno asesiad a dadansoddiad unigol o'r defnydd o arloesi a menter mewn busnes sy'n bodoli eisoes. Bydd y dysgwyr yn pwyso a mesur risgiau yn erbyn manteision ac yn dod i gasgliad a gyfiawnheir, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol sy'n egluro pwysigrwydd arloesi a menter.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cyflawni ymchwil ddigonol fydd yn caniatáu iddynt arddangos sut mae'r defnydd o arloesi a menter wedi effeithio ar fusnes, a dadansoddi sut mae'r defnydd o arloesi a menter wedi effeithio ar lwyddiant y busnes dan sylw.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni ymchwil ar y defnydd o arloesi a menter mewn busnes sy'n bodoli eisoes, ac yn dangos dealltwriaeth, er bod manteision i arloesi a menter, bod hefyd risgiau ac anfanteision.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Uned ragarweiniol yw hon. Mae'n sylfaenol ac yn cefnogi'r holl unedau eraill yn y rhaglen.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- llunio/cynnig syniadau i gyfrannu at aseiniadau uned/astudiaethau achos/deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth gan staff busnesau lleol fel mentoriaid.

# Uned 2: Datblygu Ymgyrch Farchnata

Lefel: **3**

Math o uned: **Allanol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **90**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn ennill dealltwriaeth a sgiliau sy'n ymwneud â sut caiff ymgyrch farchnata ei datblygu.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae marchnata'n faes dynamig sydd wrth wraidd llwyddiant unrhyw fusnes. Byddwch yn ennill dealltwriaeth o sut caiff ymgyrch farchnata ei datblygu. Byddwch yn archwilio gwahanol gamau'r broses y mae busnes yn mynd trwyddi wrth ddatblygu ei ymgyrch a byddwch yn datblygu'ch ymgyrch eich hun ar gyfer cynnyrch/gwasanaeth penodol.

Byddwch yn archwilio'r nodau a'r amcanion marchnata ar gyfer cynnyrch/gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a byddwch yn deall pwysigrwydd ymchwil berthnasol, dilys a phriodol mewn perthynas ag anghenion a dyheadau cwsmeriaid. Byddwch yn defnyddio data ymchwil marchnad penodol a gwybodaeth arall i argymell pa fath o ymgyrch farchnata y dylai busnes ei chynnal. Er mwyn cwblhau'r dasg asesu yn yr uned hon, bydd angen i chi dynnu ar yr hyn a ddysgwyd gennych ar draws eich rhaglen.

Bydd yr uned hon yn rhoi golwg i chi ar bwysigrwydd marchnata i fyd busnes. Bydd yn eich galluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch arbenigo ym maes marchnata mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg uwch.

## Crynodeb o'r asesu

Asesir yr uned hon dan amodau goruchwyliaeth. Caiff Rhan A ei rhyddhau bythefnos cyn i'r dysgwyr gyflawni ymchwil yn Rhan B. Bydd Rhan B ar ffurf asesiad dan oruchwyliaeth a gynhelir mewn sesiwn tair awr a amserlennir gan Pearson. Caiff yr asesiad ei osod a'i farcio gan Pearson.

Nifer y marciau ar gyfer yr uned yw 70.

Bydd asesiad ar gael ddwywaith y flwyddyn ym mis Rhagfyr/Ionawr a Mai/Mehefin. Y cyfle cyntaf i gael asesiad fydd Mai/Mehefin 2021.

Bydd deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael i helpu canolfannau i baratoi'r dysgwyr ar gyfer yr asesiad.

## Deilliannau asesu (DA)

**DA1** Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion, cysyniadau a phrosesau marchnata, yn ogystal â thermau allweddol, ffynonellau data a diffiniadau

**DA2** Dadansoddi gwybodaeth a data marchnata, gan ddangos gallu i ddehongli'r effaith a'r dylanwad posib ar ymgyrchoedd marchnata

**DA3** Gwerthuso gwybodaeth er mwyn llunio barn wybodus am sut y dylid cynllunio, datblygu ac addasu ymgyrch farchnata yn sgîl amgylchiadau newidiol

**DA4** Medru datblygu ymgyrch farchnata a'i chyfiawnhau'n briodol, gan gyfuno syniadau a thystiolaeth o amryw o ffynonellau er mwyn ategu dadleuon

 © Pearson Education Limited 2022

# Cynnwys hanfodol

Cyflwynir y cynnwys hanfodol yn ôl meysydd cynnwys. Rhaid i'r dysgwyr roi sylw i'r holl gynnwys penodedig cyn yr asesiad.

## A Cyflwyniad i egwyddorion a phwrpasau marchnata sy'n sail i greu rhesymeg ar gyfer ymgyrch farchnata

### A1 Rôl marchnata

- Egwyddorion a phwrpasau marchnata:
  - rhagweld galw
  - adnabod galw
  - ysgogi galw
  - bodloni galw.
- Nodau ac amcanion marchnata:
  - deall anghenion a dyheadau cwsmeriaid
  - datblygu cynnyrch newydd
  - gwella proffidioldeb
  - cynyddu cyfran o'r farchnad
  - arallgyfeirio
  - cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand a theyngarwch.
- Mathau o farchnad – torfol/arbenigol.
- Segmentu'r farchnad
- Brandio, personoliaeth y brand, delwedd y brand, rhinwedd gwerthu unigryw (USP), goblygiadau maint y busnes o ran gweithgareddau marchnata, cyfyngiadau cyllidebol, argaeledd staff arbenigol.

### A2 Dylanwadau ar weithgareddau marchnata

- Dylanwadau mewnol:
  - cost yr ymgyrch
  - argaeledd cyllid
  - arbenigedd staff
  - maint a diwylliant y busnes.
- Dylanwadau allanol:
  - cymdeithasol
  - technolegol
  - economaidd
  - amgylcheddol
  - gwleidyddol
  - cyfreithiol
  - moesegol.

## B Defnyddio gwybodaeth i ddatblygu'r rhesymeg ar gyfer ymgyrch farchnata

### B1 Pwrpas ymchwilio i wybodaeth i ganfod anghenion a dyheadau cwsmeriaid

- Canfod marchnadoedd targed.
- Canfod maint, strwythur a thueddiadau yn y farchnad.
- Canfod cystadleuwyr.

### B2 Dulliau ymchwil marchnad a'r defnydd ohonynt

- Ymchwil gynradd, i gynnwys arolwg, cyfweliad, arsylwi, treialon, grwpiau ffocws.
- Ymchwil eilaidd:
  - mewnol – data busnes ar gwsmeriaid a chofnodion ariannol i gynnwys cardiau teyrngarwch a chofnodion gwerthiannau
  - allanol – adroddiadau a gyhoeddir yn fasnachol, ystadegau'r llywodraeth, cyfnodolion masnach, ffynonellau o'r cyfryngau.
- Pwysigrwydd dilysrwydd, dibynadwyedd, priodoldeb, cylchrediad, cost.
- Data meintiol ac ansoddol, ble a sut caiff ei ddefnyddio.
- Digonolrwydd a ffocws yr ymchwil.
- Dethol ac echdynnu.

### B3 Datblygu'r rhesymeg

- Dehongli, dadansoddi a defnyddio data a gwybodaeth arall i wneud penderfyniadau marchnata dilys.
- Canfod unrhyw ffynonellau gwybodaeth ychwanegol y gallai fod angen amdanynt.
- Gwerthuso dibynadwyedd a dilysrwydd yr wybodaeth a gesglir.
- Cylchred bywyd y cynnyrch.

## C Cynllunio a datblygu ymgyrch farchnata

### C1 Gweithgareddau ymgyrch farchnata

- Dewis nodau ac amcanion marchnata priodol i gydweddu â nodau'r busnes.
- Dadansoddiad sefyllfaol: SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) a PESTLE (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol, Amgylcheddol).
- Defnyddio data ymchwil i bennu marchnad darged.
- Defnyddio data ymchwil i ddadansoddi cystadleuwyr.

### C2 Cymysgedd farchnata

- Datblygu cynnyrch: ffurf a swyddogaeth, pecynnu, brandio.
- Strategaethau prisio: treiddio, sgimio, ar sail cystadleuwyr, cost-plws.
- Hysbysebu hyrwyddo, cysylltiadau cyhoeddus (PR). Nawdd, defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill, marchnata anghonfensiynol, gwerthu personol, lleoli cynnyrch, marchnata digidol, delwedd gorfforaethol.
- Lle, llwybrau dosbarthu: yn uniongyrchol i'r defnyddwyr terfynol (post/ar-lein/arwerthiant), adwerthwyr, cyfanwerthwyr.
- Cymysgedd farchnata estynedig: pobl, amgylchedd ffisegol, proses.

### C3 Yr ymgyrch farchnata

- Cynnwys y neges farchnata.
- Dewis cymysgedd farchnata briodol.
- Dewis cyfryngau priodol.
- Dyrannu cyllideb i'r ymgyrch.
- Llinellau amser ar gyfer yr ymgyrch, gan gynnwys monitro.
- Dulliau gwerthuso'r ymgyrch.

### C4 Priodoldeb yr ymgyrch farchnata

- I ba raddau mae'r gweithgaredd marchnata'n atgyfnerthu gwerth y brand a'i gefnogi.
- Cynaliadwyedd gweithgareddau marchnata.
- Hyblygrwydd yr ymgyrch i fedru ymateb i newidiadau mewnol ac allanol.
- Perthnasedd nodau'r sefydliad.
- Priodoldeb i'r farchnad darged.
- Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol.

## Disgrifwyr graddau

I gyflawni gradd mae disgwyl i'r dysgwyr arddangos y priodoleddau hyn ar draws cynnwys hanfodol yr uned. Bydd egwyddor cydweddiad gorau yn weithredol wrth ddyfarnu graddau.

**Llwyddo ar Lefel 3**

Bydd y dysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ddatblygiad ymgyrch farchnata lwyddiannus a sut gall yr amgylchedd allanol ddylanwadu ar lwyddiant. Byddant yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd ymchwil marchnad effeithiol wrth hysbysu'r penderfyniadau a wneir a chyfrannu at lwyddiant busnes. Gallant ddadansoddi gwybodaeth a data anghyfarwydd, ac ystyried unrhyw oblygiadau yng nghyd-destun yr wybodaeth fusnes a roddwyd, gan wneud argymhellion priodol wedi eu cyfiawnhau, sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch arfaethedig. Bydd y dysgwyr yn arddangos eu gallu i weithio o fewn cyllideb a chymhwyso offer gwneud penderfyniadau marchnata wrth greu eu hymgyrch farchnata.

**Rhagoriaeth ar Lefel 3**

Bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso'n feirniadol wybodaeth a data sy'n ymwneud â datblygu ymgyrch farchnata lwyddiannus mewn cyd-destun. Gallant roi amrediad o gysyniadau marchnata ac offer gwneud penderfyniadau perthnasol ar waith er mwyn medru cyfiawnhau'r argymhellion a roddir ar gyfer ymgyrch, a hynny o fewn cyllideb. Byddant yn dangos eu bod yn amgyffred pwysigrwydd ymchwil marchnad effeithiol wrth hysbysu'r penderfyniadau a wneir a chyfrannu at lwyddiant busnes mewn cyd-destun. Bydd gan y dysgwyr ddealltwriaeth drylwyr o oblygiadau'r ymgyrch arfaethedig a'r camau gweithredu angenrheidiol yn y dyfodol yng nghyd-destun yr amgylchedd allanol, a cheir tystiolaeth o hyn trwy gysylltiadau cyson ag ymchwil ehangach.

## Termau allweddol a ddefnyddir yn nodweddiadol wrth asesu

Yn y tabl sy'n dilyn gwelir y termau allweddol a ddefnyddir yn gyson gan Pearson wrth asesu er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu gwobrwyo am arddangos y sgiliau angenrheidiol.

Sylwer: ni ddefnyddir y rhestr isod o reidrwydd ym mhob papur/sesiwn, a chanllaw yn unig ydyw.

| Gorchymyn neu derm | Diffiniad |
|---|---|
| Ymchwil gynradd | Ymchwil a gesglir yn uniongyrchol o'r ffynhonnell wreiddiol, a all fod heb ei chasglu o'r blaen. Mae disgwyl i'r dysgwyr ddeall manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau ymchwil gynradd. |
| Ymchwil ansoddol | Data disgrifiadol megis data a dynnir o gwestiynau penagored mewn holiaduron, cyfweliadau neu grwpiau ffocws. |
| Ymchwil feintiol | Data ar ffurf rhifau y gellir ei gategoreiddio a'i ddefnyddio i lunio graffiau neu dablau o ddata crai. |
| Ffynonellau/ymchwil eilaidd | Adroddiadau a data ymchwil a gyhoeddwyd, sy'n debygol o fod wedi'u seilio ar ymchwil gynradd. |

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Wrth asesu'r uned hon dylid tynnu ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd o'r unedau canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Uned 3: Cyllid Personol a Busnes
- Uned 4: Rheoli Digwyddiad
- Unit 5: International Business
- Unit 6: Principles of Management.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd a chyfleoedd i gael cyfweliad
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- ymweliadau â busnesau priodol.

# Uned 3: Cyllid Personol a Busnes

Lefel: **3**

Math o uned: **Allanol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **120**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio pwrpas a phwysigrwydd cyllid personol a busnes. Byddant yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddeall, dadansoddi a pharatoi gwybodaeth ariannol.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn cynnwys agweddau ar gyllid personol a busnes. Mae cyllid personol yn ymwneud â deall pam mae arian yn bwysig a sut mae rheoli'ch arian yn gallu helpu i atal anawsterau ariannol yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig eich bod yn deall y penderfyniadau ariannol y bydd angen i chi eu gwneud yn ystod eich bywyd a sut gall risg effeithio arnoch chi a'ch dewisiadau. Yn ogystal, bydd yr uned hon yn rhoi cipolwg i chi ar ble gallwch chi gael cyngor a chymorth ariannol.

Yn agweddau cyllid busnes yr uned cewch gyflwyniad i derminoleg cyfrifydda, pwrpas a phwysigrwydd cyfrifon busnes a'r gwahanol ffynonellau cyllid sydd ar gael i fusnesau. Byddwch yn paratoi offer cynllunio, megis rhagolygon llif arian ac adennill costau, ac yn eu dadansoddi. Er mwyn mesur perfformiad ariannol busnes bydd gofyn i chi baratoi a dadansoddi datganiadau o incwm cynhwysfawr a datganiadau o'r sefyllfa ariannol.

Bydd yr uned hon yn sail i nifer o unedau cyllid a busnes eraill a bydd yn eich helpu i ddadansoddi proffidioldeb, hylifedd ac effeithlonrwydd busnes. Bydd yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i chi fedru rheoli'ch cyllid personol a chewch wybodaeth gefndir am gyllid busnes a chyfrifydda wrth i chi symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach.

## Crynodeb o'r asesu

Asesir yr uned hon trwy arholiad ysgrifenedig a gaiff ei osod gan Pearson.

Bydd yr arholiad yn 2 awr o hyd.

Nifer y marciau ar gyfer yr arholiad yw 80. (Mae Adran A, sy'n werth tua thraean o'r marciau, yn cynnwys cwestiynau am gynnwys cyllid personol yr uned, ac mae Adran B, sy'n werth tua dau draean o'r marciau, yn cynnwys cwestiynau am gynnwys cyllid busnes yr uned).

Bydd asesiad ar gael ddwywaith y flwyddyn ym mis Ionawr a Mai/Mehefin. Y cyfle cyntaf i gael asesiad fydd Mai/Mehefin 2021.

Bydd deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael i helpu canolfannau i baratoi'r dysgwyr ar gyfer yr asesiad.

## Deilliannau asesu (DA)

**DA1** Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion, cysyniadau, termau allweddol, swyddogaethau a damcaniaethau cyllid personol a busnes.

Geiriau gorchymyn: disgrifiwch, esboniwch, rhowch, nodwch, amlinellwch

Marciau: yn amrywio o 1 i 4 marc

**DA2** Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion ariannol a phrosesau cyfrifydda i sefyllfaoedd personol a busnes go iawn

Geiriau gorchymyn: dadansoddwch, aseswch, cyfrifwch, disgrifiwch, trafodwch, gwerthuswch, esboniwch

Marciau: yn amrywio o 2 i 12 marc

**DA3** Dadansoddi gwybodaeth a data cyllid personol a busnes, gan ddangos gallu i ddehongli effaith a deilliannau posib ar sail y cyd-destun

Geiriau gorchymyn: dadansoddwch, aseswch, trafodwch, gwerthuswch

Marciau: yn amrywio o 6 i 12 marc

**DA4** Gwerthuso sut gellir defnyddio gwybodaeth a data ariannol, a’r berthynas rhyngddynt, er mwyn cyfiawnhau casgliadau sy’n ymwneud â chyllid personol a busnes

Geiriau gorchymyn: dadansoddwch, aseswch, trafodwch, gwerthuswch

Marciau: yn amrywio o 6 i 12 marc


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

# Cynnwys hanfodol

Gosodir y cynnwys hanfodol dan feysydd cynnwys. Rhaid i'r dysgwyr astudio'r holl gynnwys penodedig cyn yr asesiad.

## A Deall pwysigrwydd rheoli cyllid personol

### A1 Swyddogaethau a rôl arian

Mae'r gallu i drin arian a dderbynnir, a chadw rheolaeth ar arian a delir, yn ofyniad sylfaenol i sicrhau llwyddiant personol a busnes. Mae'r llwyddiant hwn yn dibynnu ar ddeall beth yw 'arian'.

- Swyddogaethau arian:
  - uned cyfrif
  - dull cyfnewid
  - storfa gwerth
  - cynnig cyfreithiol i dalu *(legal tender)*.
- Mae nifer o ffactorau'n cael effaith a dylanwad ar rôl arian:
  - agweddau personol at risg a gwobr, cael benthyg, gwario a chynilo
  - cyfnodau bywyd (plentyndod, glaslencyndod, oedolyn ifanc, canol oed, henoed) prif nodweddion pob cyfnod, anghenion a goblygiadau ariannol pob cyfnod
  - diwylliant, gan gynnwys credoau crefyddol a moesegol
  - gall digwyddiadau bywyd amrywio cylchred bywyd unigolyn o un person i'r nesaf
  - dylanwadau/tueddiadau allanol a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â materion ariannol
  - cyfraddau llog, cost cael benthyg yn erbyn gwobrwyon cynilo.
- Cynllunio gwariant, egwyddorion cyffredin i'w hystyried wrth gynllunio cyllid personol:
  - osgoi mynd i ddyled
  - cadw rheolaeth ar gostau
  - osgoi achos cyfreithiol a/neu adfeddiannu
  - aros yn ddiddyled
  - cynnal statws credyd da
  - osgoi methdaliad
  - rheoli arian i gyllido pryniadau
  - creu incwm a chynilion
  - gosod targedau a nodau ariannol
  - darparu yswiriant yn erbyn colledion neu afiechyd
  - gwrthweithio effeithiau chwyddiant.

### A2 Ffyrdd gwahanol i dalu

Defnyddio arian fel dull talu, manteision ac anfanteision:

- arian
- cerdyn debyd
- cerdyn credyd
- siec
- trosglwyddiad electronig
- debyd uniongyrchol
- archeb sefydlog
- cardiau rhagdaledig
- cardiau digyffwrdd
- cardiau tâl
- cardiau siop
- bancio symudol
- System Clirio Awtomataidd y Bancwyr (BACS)
- Gwasanaeth Taliadau Cyflymach (FPS)
- System Dalu Awtomataidd y Tŷ Clirio (CHAPS).

### A3 Cyfrifon cyfredol

Mathau gwahanol, nodweddion, manteision ac anfanteision, gwasanaethau gwahanol a gynigir:

- safonol
- pecyn, premiwm
- sylfaenol
- myfyrwyr.

### A4 Rheoli cyllid personol

- Addasrwydd cynnyrch a gwasanaethau cyllid gwahanol yn erbyn anghenion unigolion.
- Mathau gwahanol o gael benthyg arian, nodweddion, manteision ac anfanteision:
  - gorddrafft
  - benthyciadau personol
  - hurbwrcas
  - morgeisi
  - cardiau credyd
  - benthyciadau diwrnod cyflog
- Mathau gwahanol o nodweddion cynilo a buddsoddi, manteision ac anfanteision:
  - cyfrifon cynilo unigol (ISAs)
  - cyfrifon cynilo a chadw
  - bondiau premiwm
  - bondiau a giltiau
  - cyfranddaliadau
  - pensiynau.
- Risgiau a gwobrwyon cynilo yn erbyn buddsoddi.
- Cynnyrch yswiriant gwahanol:
  - cynnyrch (car, cartref a chynnwys, sicrwydd ac yswiriant bywyd, teithio, anifail anwes, iechyd)
  - gwahanol fathau o bolisi yswiriant ar gyfer pob math o gynnyrch
  - nodweddion mathau gwahanol o yswiriant
  - manteision ac anfanteision mathau a nodweddion gwahanol.

## B Archwilio'r sector cyllid personol

### B1 Nodweddion sefydliadau ariannol

Mathau o sefydliadau a'u manteision a'u hanfanteision:

- Banc Lloegr
- banciau
- cymdeithasau adeiladu
- undebau credyd
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- cwmnïau yswiriant
- cwmnïau pensiwn
- gwystlwyr
- benthyciadau diwrnod cyflog.

### B2 Cyfathrebu â chwsmeriaid

Dulliau rhyngweithio â chwsmeriaid, manteision ac anfanteision:

- cangen
- bancio ar-lein
- bancio dros y ffôn
- bancio symudol
- bancio drwy'r post

### B3 Diogelu defnyddwyr mewn perthynas â chyllid personol

Swyddogaeth, rôl a chyfrifoldebau:

- Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)
- Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (FOS)
- Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS)
- deddfwriaeth – credyd defnyddwyr.

### B4 Gwybodaeth, cyfarwyddyd a chyngor

Swyddogaeth, rôl a chyfrifoldebau, manteision ac anfanteision:

- Cyngor ar Bopeth
- cynghorydd ariannol annibynnol (IFA)
- gwefannau cymharu prisiau
- cynghorwyr dyledion
- Trefniadau Gwirfoddol Annibynnol (IVAs)
- methdaliad.

## C Deall pwrpas cyfrifydda

### C1 Pwrpas cyfrifydda

- Cofnodi trafodion.
- Rheoli busnes (cynllunio, monitro a rheolaeth).
- Cydymffurfio (atal twyll, cydymffurfio â'r gyfraith a rheoliadau).
- Mesur perfformiad.
- Cadw rheolaeth – helpu i atal twyll, symiau masnach derbynadwy a thaladwy.

### C2 Mathau o incwm

- Incwm cyfalaf:
    - benthyciad
    - morgeisi
    - cyfranddaliadau
    - cyfalaf y perchennog
    - dyledebau.
- Incwm refeniw:
    - gwerthiannau arian
    - gwerthiannau credyd
    - rhent a dderbynnir
    - comisiwn a dderbynnir
    - llog a dderbynnir
    - gostyngiad a dderbynnir.

### C3 Mathau o wariant

- Gwariant cyfalaf:
  - asedau anghyfredol – cyffyrddadwy (tir, adeiladau ac eiddo, peiriannau a chyfarpar, cerbydau, celfi a ffitiadau)
  - anghyffyrddadwy (ewyllys da, patentau, nodau masnach, enwau brand).
- Gwariant refeniw:
  - stocrestr *(inventory)*
  - rhent
  - ardrethi
  - gwres a golau
  - dŵr
  - yswiriant
  - costau gweinyddol
  - ffôn
  - costau postio
  - offer swyddfa
  - cyflogau
  - taliadau
  - marchnata
  - ffïoedd banc
  - llog a dalwyd
  - dibrisiant llinell-syth
  - dibrisiant gweddill gostyngol
  - gostyngiad a ganiateir.

## D Dewis a gwerthuso gwahanol ffynonellau cyllid busnes

### D1 Ffynonellau cyllid

Manteision, anfanteision, tymor byr a thymor hir:

- mewnol:
  - elw a gedwir
  - asedau cyfredol net
  - gwerthu asedau
- allanol:
  - cyfalaf y perchennog
  - benthyciadau
  - cyllido torfol
  - morgeisi
  - cyfalaf menter
  - ffactoreiddio dyledion
  - hurbwrcas
  - prydlesu
  - credyd masnach
  - grantiau
  - rhoddion
  - benthyca rhwng cymheiriaid
  - disgowntio anfonebau.

## E Rhagolygon adennill costau a llif arian

Ni roddir fformiwlâu a ddefnyddir yn y pwnc hwn yn yr asesiad allanol.

### E1 Rhagolygon llif arian

- Mewnlifoedd/derbyniadau:
  - gwerthiannau arian
  - gwerthiannau credyd
  - benthyciadau
  - cyfalaf a gyflwynwyd
  - gwerthu asedau
  - llog a dderbyniwyd o'r banc.
- All-lifoedd/taliadau:
  - pryniadau arian
  - pryniadau credyd
  - rhent
  - ardrethi
  - cyflogau
  - taliadau
  - cyfleustodau
  - prynu asedau
  - Treth ar Werth (VAT)
  - llog a dalwyd i'r banc.
- Paratoi, cwblhau, dadansoddi, diwygio a gwerthuso llif arian.
- Defnyddio rhagolygon llif arian ar gyfer cynllunio, monitro, cadw rheolaeth, gosod targedau.
- Manteision a chyfyngiadau rhagolygon llif arian.

### E2 Dadansoddiad adennill costau

- Costau:
  - newidiol
  - lled-newidiol
  - sefydlog
  - cyfanswm.
- Gwerthiannau:
  - cyfanswm refeniw
  - cyfanswm gwerthiannau
  - pris gwerthu fesul uned
  - gwerthiannau yn ôl gwerth a/neu mewn unedau.
- Cyfrifo gan ddefnyddio/drin fformiwla adennill costau (unedau a/neu werth gwerthiannau), cwblhau siart adennill costau, pwynt adennill costau.
- Nodi maes elw, maes colled.
- Nodi a chyfrifo lled diogelwch (unedau a gwerth).
- Cyfrifo cyfanswm y cyfraniad, manteision a chyfyngiadau cyfraniad fesul uned.
- Defnyddio adennill costau er mwyn cynllunio, monitro, cadw rheolaeth, gosod targedau.
- Paratoi, cwblhau, dadansoddi, diwygio a gwerthuso adennill costau.

## F Cwblhau datganiadau o incwm cynhwysfawr a datganiadau o'r sefyllfa ariannol a gwerthuso perfformiad busnes

Mae hyn yn ymwneud ag unig fasnachwyr yn unig. Ni roddir fformiwlâu a ddefnyddir yn y pwnc hwn yn yr asesiad allanol.

### F1 Datganiad o incwm cynhwysfawr

- Pwrpas a defnydd.
- Cwblhau, cyfrifo a diwygio i gynnwys elw gros (refeniw, stocrestrau agoriadol, pryniadau, stocrestrau cloi, cost nwyddau a werthwyd), cyfrifo elw/colled am y flwyddyn (treuliau, incwm arall).
- Addasiadau ar gyfer dibrisiant (llinell-syth a gweddill gostyngol).
- Addasiadau ar gyfer rhagdaliadau, croniadau.
- Dehongli, dadansoddi a gwerthuso datganiadau.

### F2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol

- Pwrpas a defnydd.
- Cwblhau, cyfrifo a diwygio'r datganiad gan ddefnyddio cyflwyniad fertigol i gynnwys:
  - asedau anghyfredol (cyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy, cost, dibrisiant ac amorteiddiad, llyfrwerth net)
  - asedau cyfredol (stocrestrau, symiau masnach derbynadwy, rhagdaliadau, banc, arian)
  - rhwymedigaethau cyfredol (gorddrafft banc, croniadau, symiau masnach taladwy)
  - asedau/rhwymedigaethau cyfredol net
  - rhwymedigaethau anghyfredol (benthyciad banc a morgais)
  - asedau net
  - cyfalaf (cyfalaf agoriadol, trosglwyddo elw neu golled, arian a dynnir allan, cyfalaf cloi).
- Addasiadau ar gyfer dibrisiant llinell-syth (cost $x$%) gweddill gostyngol (cost – dibrisiant hyd yma $x$%).
- Addasiadau ar gyfer rhagdaliadau, croniadau.
- Dehongli, dadansoddi a gwerthuso datganiadau.

### F3 Mesur proffidioldeb

Cyfrifo, dehongli, dadansoddi a gwerthuso:

- maint yr elw gros: (elw gros/refeniw) × 100
- ychwanegiad: (elw gros/cost gwerthiannau) × 100
- maint yr elw: (elw/refeniw) × 100
- dychweliad ar gyfalaf a ddefnyddiwyd (ROCE): (elw/cyfalaf a ddefnyddiwyd) × 100

### F4 Mesur hylifedd

Cyfrifo, dehongli, dadansoddi a gwerthuso:

- cymhareb gyfredol: asedau cyfredol/rhwymedigaethau cyfredol
- cymhareb cyfalaf hylifol: (asedau cyfredol – stoc)/rhwymedigaethau cyfredol

### F5 Mesur effeithlonrwydd

Cyfrifo, dehongli, dadansoddi a gwerthuso:

- dyddiau casglu dyledwyr: (symiau masnach derbynadwy/gwerthiannau credyd) × 365
- dyddiau talu credydwyr: (symiau masnach taladwy/pryniadau credyd) × 365
- trosiant stoc: (stoc cyfartalog/cost gwerthiannau) × 365

### F6 Cyfyngiadau cymarebau

- Cyfyngiadau cymarebau wrth asesu perfformiad busnes.

## Disgrifwyr graddau

I gyflawni gradd mae disgwyl i'r dysgwyr arddangos y priodoleddau hyn ar draws cynnwys hanfodol yr uned. Bydd egwyddor cydweddiad gorau yn weithredol wrth ddyfarnu graddau.

**Llwyddo ar Lefel 3**

Bydd y dysgwyr yn gallu arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion cyllid personol a busnes, a phennu camau gweithredu priodol. Byddant yn gallu rhesymoli'r data sydd ar gael mewn gwahanol sefyllfaoedd personol a busnes. Gall y dysgwyr werthfawrogi'r heriau a wynebir gan unigolion a busnesau a sut mae'r sefyllfa ariannol wedi effeithio arnynt. Byddant yn gallu cymhwyso prosesau cyfrifydda, a dangos dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad ariannol busnes. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r angen i baratoi a dadansoddi datganiadau o incwm cynhwysfawr a datganiadau o'r sefyllfa ariannol. Gall y dysgwyr gynnig argymhellion o ran cyllid personol a gwella busnesau a'u cyfiawnhau ar sail dadansoddiad o wybodaeth ariannol.

**Rhagoriaeth ar Lefel 3**

Bydd y dysgwyr yn gallu cymhwyso egwyddorion cyllid personol a busnes er mwyn medru gwerthuso'n feirniadol sefyllfaoedd go iawn a phennu camau gweithredu priodol. Gallant gymhwyso egwyddorion, modelau a damcaniaethau er mwyn cyflwyno gwerthusiadau rhesymegol mewn sefyllfaoedd personol a busnes realistig. Mae'r dysgwyr yn llunio barn briodol ac yn cyflwyno argymhellion wedi eu cyfiawnhau'n llwyr ar gyfer camau gweithredu'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r data ariannol. Byddant yn deall pwysigrwydd datganiadau o incwm cynhwysfawr a datganiadau o'r sefyllfa ariannol a gallant ddadansoddi'r datganiadau hyn yn drefnus ac yn feirniadol. Gall y dysgwyr gyfiawnhau'n llwyr argymhellion o ran cyllid personol a gwella busnesau ar sail dadansoddiad trylwyr o wybodaeth ariannol.

## Termau allweddol a ddefnyddir yn nodweddiadol wrth asesu

Yn y tabl sy'n dilyn gwelir y termau allweddol a ddefnyddir yn gyson gan Pearson wrth asesu er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu gwobrwyo am arddangos y sgiliau angenrheidiol.

Sylwer: ni ddefnyddir y rhestr isod o reidrwydd ym mhob papur/sesiwn a chanllaw yn unig ydyw.

| Gorchymyn neu derm | Diffiniad |
|---|---|
| Dadansoddi (Dadansoddwch) | Mae'r dysgwyr yn cyflwyno canlyniad archwiliad trefnus a manwl naill ai drwy ddadelfennu:<br>• thema, pwnc neu sefyllfa er mwyn dehongli ac astudio'r berthynas rhwng y rhannau a/neu<br>• wybodaeth neu ddata i ddehongli ac astudio tueddiadau allweddol a chydberthnasoedd. |
| Asesu (Aseswch) | Mae'r dysgwyr yn cyflwyno ystyriaeth ofalus o amryw o ffactorau neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i sefyllfa benodol neu'n nodi'r rhai mwyaf pwysig neu berthnasol a dod i gasgliad. |
| Cyfrifo (Cyfrifwch) | Mae'r dysgwyr yn gweithio ateb allan, fel arfer trwy adio, lluosi, tynnu neu rannu. Gall hyn ofyn am ddefnyddio fformiwla. |
| Disgrifio (Disgrifiwch) | Mae'r dysgwyr yn rhoi cyfrif am rywbeth, camau mewn proses neu nodweddion rhywbeth. Mae angen i'r datganiadau a wneir yn yr ymateb gael eu datblygu, gan eu bod yn aml yn gysylltiedig/mewn trefn resymegol, ond nid oes rhaid cynnwys cyfiawnhad neu reswm. |

| Gorchymyn neu derm | Diffiniad |
|---|---|
| Trafod (Trafodwch) | Mae'r dysgwyr yn ystyried agweddau gwahanol ar:<br>• thema neu bwnc;<br>• y berthynas rhyngddynt; a<br>• pha mor bwysig ydynt.<br>Nid oes angen dod i gasgliad. |
| Gwerthuso (Gwerthuswch) | Mae gwaith y dysgwyr yn tynnu ar amrywiaeth o wybodaeth, themâu neu gysyniadau er mwyn ystyried agweddau megis:<br>• cryfderau neu wendidau<br>• manteision neu anfanteision<br>• camau gweithredu amgen<br>• perthnasedd neu arwyddocâd.<br>Dylai ymholiadau'r dysgwyr arwain at lunio barn a gefnogir sy'n dangos perthynas â'i chyd-destun. Mae hyn yn aml ar ffurf casgliad.<br>Bydd y dystiolaeth yn ysgrifenedig. |
| Esbonio (Esboniwch) | Mae gwaith y dysgwyr yn dangos manylion eglur ac yn rhoi rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi barn, safbwynt neu ddadl. Gallai ddangos sut y deuir at gasgliadau. Gall y dysgwyr ddangos eu bod yn deall tarddiad, swyddogaethau ac amcanion pwnc, a'i addasrwydd i'r diben. |
| Rhoi (Rhowch) | Gall y dysgwyr ddarparu:<br>• enghreifftiau<br>• cyfiawnhad. |
| Nodi (Nodwch) | Mae'r dysgwyr yn nodi prif nodweddion neu bwrpas rhywbeth drwy ei adnabod a/neu fedru dirnad a deall ffeithiau neu briodweddau. |
| Enghreifftio (Enghreifftiwch) | Mae'r dysgwyr yn cynnwys enghreifftiau, delweddau neu ddiagramau i ddangos yr hyn a olygir mewn cyd-destun penodol. |
| Amlinellu (Amlinellwch) | Mae gwaith, perfformiad neu ymarfer y dysgwyr yn rhoi crynodeb, trosolwg neu ddisgrifiad cryno o rywbeth. |

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Wrth asesu'r uned hon dylid tynnu ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd o'r unedau canlynol:

- Unit 7: Business Decision Making
- Uned 10: Cofnodi Trafodion Ariannol
- Unit 11: Final Accounts for Public Limited Companies
- Unit 12: Financial Statements for Specific Businesses
- Uned 13: Cyfrifydda Cost a Rheoli.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth gan staff busnesau lleol fel mentoriaid.

 © Pearson Education Limited 2020

# Uned 4: Rheoli Digwyddiad

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **90**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn gweithio fel rhan o grŵp bach i gynllunio, cydlynu a rheoli digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol a gwerthuso'r sgiliau a enillwyd.

## Cyflwyniad i'r uned

Rheoli digwyddiadau yw un o sectorau mwyaf cyffrous a deinamig byd busnes. Mae'r uned hon yn dod â'ch creadigrwydd a'ch sgiliau trefnu ynghyd i greu digwyddiadau llwyddiannus, cofiadwy, boed er elw neu fenter gymdeithasol.

Byddwch yn ymchwilio i nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus, ar raddfa fawr a bach, ac yn defnyddio'r ymchwil hon i asesu dichonoldeb digwyddiadau i'w cynllunio a'u rhedeg eich hun. Gallai enghreifftiau amrywio o drefnu cyfarfodydd, lansiadau cynnyrch, arddangosfeydd, digwyddiadau hyrwyddo, digwyddiadau elusennol, digwyddiadau adeiladu tîm a datblygu staff i gynhadledd ar raddfa lawn. Bydd rhaid i chi gynllunio'ch digwyddiad dewisedig yn ofalus, gan ddangos eich gallu i ddefnyddio offer cynllunio. Byddwch wedyn yn cynnal y digwyddiad, gan brofi effeithiolrwydd eich cynllunio. Bydd hyn yn gofyn i chi 'feddwl ar eich traed', delio â materion ariannol a diogeledd, cydgysylltu â chyflenwyr a staff y lleoliad, a rhoi'ch sgiliau datrys problemau ar waith. Wedi'r digwyddiad, byddwch chi'n gwerthuso ei lwyddiant. Er mwyn cwblhau'r dasg asesu yn yr uned hon, bydd angen i chi dynnu ar eich dysgu ar draws eich rhaglen.

Bydd yr uned hon yn datblygu'ch sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu, rheoli amser, trafod telerau a datrys problemau. Bydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy hanfodol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Bydd yr uned yn rhoi cyfle defnyddiol i chi ystyried a ydych am ddilyn gyrfa ym maes rheoli digwyddiadau neu symud ymlaen i astudio'r maes hwn ymhellach.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon, byddwch chi'n:

**A** Archwilio rôl trefnydd digwyddiadau

**B** Ymchwilio i ddichonoldeb digwyddiad arfaethedig

**C** Datblygu cynllun manwl ar gyfer digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol

**D** Cynnal a rheoli digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol

**E** Myfyrio ar sut cafodd y digwyddiad ei redeg a gwerthuso'r sgiliau a ddatblygwyd gennych.

## Crynodeb o'r uned

<table>
<thead>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
</thead>
<tbody>
<tr><td>A Archwilio rôl trefnydd digwyddiadau</td><td>A1 Tasgau gwahanol y mae angen i drefnydd digwyddiadau eu cwblhau<br>A2 Sgiliau angenrheidiol gwahanol ar gyfer trefnydd digwyddiadau effeithiol<br>A3 Fformatau cyffredin ar gyfer casglu awdit sgiliau</td><td>Adroddiad unigol yn nodi'r tasgau y byddai angen i drefnydd digwyddiadau eu cyflawni.<br>Crynodeb o sgiliau angenrheidiol trefnydd digwyddiadau a nodi eu sgiliau personol eu hunain gan dynnu sylw at feysydd i'w datblygu.</td></tr>
<tr><td>B Ymchwilio i ddichonoldeb digwyddiad arfaethedig</td><td>B1 Mathau gwahanol o ddigwyddiad, a'r ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant<br>B2 Mesurau dichonoldeb a ffactorau llwyddiant critigol</td><td rowspan="2">Adroddiad cryno unigol a chyflwyniad grŵp, yn dilyn ymchwiliad manwl i amrediad o ddigwyddiadau llwyddiannus mawr a bach, i gynnwys cyfiawnhad o'r cynnig dewisedig.<br>Cynllun manwl o'r digwyddiad, yn nodi ffactorau llwyddiant critigol.</td></tr>
<tr><td>C Datblygu cynllun manwl ar gyfer digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol</td><td>C1 Cynllunio digwyddiad a'r defnydd o offer cynllunio<br>C2 Ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys cyllidebau, adnoddau a chynlluniau wrth gefn</td></tr>
<tr><td>D Cynnal a rheoli digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol</td><td>D1 Rheoli'r digwyddiad<br>D2 Datrys problemau</td><td rowspan="2">Rhaid i'r dysgwyr chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynnal a rheoli'r digwyddiad. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o hyn, er enghraifft ffotograffau, datganiadau tystion, cofnodion aseswyr.<br>Adroddiad ysgrifenedig yn nodi ac yn gwerthuso llwyddiant y digwyddiad yn nhermau:<br>• cyflawni amcanion digwyddiad<br>• cyrraedd targedau<br>• arolwg boddhad neu adborth gan gyfranogwyr<br>• dadansoddi a gwerthuso eu sgiliau rheoli digwyddiadau eu hunain.</td></tr>
<tr><td>E Myfyrio ar sut cafodd y digwyddiad ei redeg a gwerthuso'r sgiliau a ddatblygwyd gennych.</td><td>E1 Gwerthuso'r digwyddiad<br>E2 Adolygu'r sgiliau personol a ddatblygwyd wrth redeg y digwyddiad</td></tr>
</tbody>
</table>

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio rôl trefnydd digwyddiadau

#### A1 Tasgau gwahanol y mae angen i drefnydd digwyddiadau eu cwblhau

- Trefnu: lleoliad, lle, arlwyo, cynllunio a neilltuo cyfleusterau, e.e. toiledau os yw'r digwyddiad yn yr awyr agored, sefydlu'r rhaglen, paratoi a dosbarthu dogfennau, contractau.
- Ymchwilio i ofynion cyfreithiol cyfredol, gan gynnwys diogelu defnyddwyr.
- Sefydlu gweithdrefnau sefydliadol, e.e. asesu risg a diogeledd.

#### A2 Sgiliau angenrheidiol gwahanol ar gyfer trefnydd digwyddiadau effeithiol

- Trefnu.
- Datrys problemau.
- Rheoli amser.
- Trafod telerau.
- Cyfathrebu.
- Rhyngbersonol.

#### A3 Fformatau cyffredin ar gyfer casglu awdit sgiliau

- Graddfa Likert.
- Graddfa wahaniaethol semantig.
- Arsylwi.
- Holiadur.
- Arfarniad.

### Nod dysgu B: Ymchwilio i ddichonoldeb digwyddiad arfaethedig

#### B1 Mathau gwahanol o ddigwyddiad, a'r ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant

- Digwyddiadau busnes: cynadleddau, arddangosfeydd, lansiadau cynnyrch, sioeau masnach, cyfarfodydd cyfranddalwyr, cynadleddau i'r wasg, nosweithiau gwobrwyo, adeiladu tîm, seminarau.
- Digwyddiadau chwaraeon a hamdden: y Gêmau Olympaidd, y Gêmau Paralympaidd, Gêmau'r Gymanwlad, twrnameintiau chwaraeon, gêmau chwaraeon, digwyddiadau chwaraeon modur, rasio, digwyddiadau marchogol, ffeiriau gwledig, gwyliau bwyd, rasys hwyl, ffeiriau pentref, regatas hwylio, sioeau cŵn, ffeiriau casglwyr.
- Adloniant: gwyliau cerddorol, cyngherddau, dramâu.
- Dathliadau: priodasau, nosweithiau prom, penblwyddi, penblwyddi priodas.
- Digwyddiadau menter gymdeithasol: digwyddiadau chwaraeon elusennol, digwyddiadau codi arian elusennol, e.e. ciniawau, galâu, arwerthiannau.

#### B2 Mesurau dichonoldeb a ffactorau llwyddiant critigol

- Map meddwl o syniadau am ddigwyddiadau.
- Pwrpas y digwyddiad.
- Nodau ac amcanion.
- Cyfyngiadau: cyllideb, lleoliad, adnoddau; dynol a ffisegol.
- Ffactorau llwyddiant: gosod nodau a thargedau.

### Nod dysgu C: Datblygu cynllun manwl ar gyfer digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol

#### C1 Cynllunio digwyddiad a'r defnydd o offer cynllunio

- Siartiau Gantt.
- Dadansoddiad llwybr critigol.
- Offer cynllunio ar-lein.

### C2 Ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys cyllidebau, adnoddau a chynlluniau wrth gefn

- Nodau ac amcanion.
- Cyllideb: cyllid sydd ar gael, ffigurau gwerthiant disgwyliedig, bancio, cost adnoddau, treuliau megis y lleoliad, arlwyo, staff, teithio.
- Adnoddau: fflipsiartiau, Di-Wifr, ffôn, byrddau arddangos, y gallu i dderbyn arian, cadeiriau, byrddau, cyfrifiadur, Bwrdd Clyfar.
- Lleoliad: maint yr ystafell, cyfleusterau sydd ar gael, lle parcio, trefniadau mynediad.
- Arlwyo: ystyriaeth arbennig i anghenion deietegol.
- Cyfyngiadau cyfreithiol: contractau, iechyd a diogelwch (asesu risg), atebolrwydd am esgeulustra.
- Gwaith tîm: dyrannu tasgau, cynllunio cyfarfodydd.
- Yswiriant, gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus.
- Dulliau cyfathrebu: hyrwyddo, llythyron, gwahoddiadau.
- Cynllunio wrth gefn: sefyllfaoedd 'beth os', e.e. 'Beth os na fydd yr arlwywyr yn troi lan?'.

## Nod dysgu D: Cynnal a rheoli digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol

### D1 Rheoli'r digwyddiad

- Contractau ar gyfer y lleoliad: cyflenwyr, personél.
- Marchnata'r digwyddiad: cyhoeddusrwydd, hysbysebu, nawdd, rhestr gwesteion, gwahoddiadau.
- Gwasanaeth cwsmeriaid.
- Gweithdrefnau monitro i sicrhau bod y tasgau a ddyrannwyd wedi'u cwblhau.
- Diogeledd a iechyd a diogelwch.
- Dulliau cyfathrebu: mewnol ac allanol.
- Gwerthusiad mynychwyr: paratoi, dosbarthu a chasglu holiaduron.

### D2 Datrys problemau

- Rhoi cynllun wrth gefn ar waith, e.e. adnoddau heb gyrraedd.
- Anawsterau gwasanaeth cwsmeriaid.
- Anawsterau iechyd a diogelwch.

## Nod dysgu E: Myfyrio ar sut cafodd y digwyddiad ei redeg a gwerthuso'r sgiliau a ddatblygwyd gennych

### E1 Gwerthuso'r digwyddiad

- Adolygu llwyddiant: cyflawni nodau ac amcanion, amseru, cadw at y gyllideb a bennwyd, effeithiolrwydd y cynllun wrth gefn.
- Dadansoddi ffurflenni gwerthuso.
- Awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

### E2 Adolygu'r sgiliau personol a ddatblygwyd wrth redeg y digwyddiad

- Rheoli digwyddiadau.
- Cyflogadwyedd.
- Cyfathrebu.
- Trafod telerau.
- Rheoli amser.
- Datrys problemau.
- Gweithio mewn tîm.
- Dadansoddi eich sgiliau eich hun.

## Meini prawf asesu

<table>
<tr><th>Llwyddo</th><th>Teilyngdod</th><th>Rhagoriaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu A: Archwilio rôl trefnydd digwyddiadau</td><td rowspan="2">A.Rh1 Cyfiawnhau’n llwyr sut mae eich sgiliau eich hun yn cyfateb i rai trefnydd digwyddiadau.</td></tr>
<tr><td>A.Ll1 Esbonio’r rôl a’r sgiliau angenrheidiol i fod yn drefnydd digwyddiadau effeithiol.<br>A.Ll2 Ymchwilio i’ch sgiliau eich hun ar ffurf awdit sgiliau.</td><td>A.T1 Dadansoddi eich sgiliau eich hun yn erbyn y rhai angenrheidiol i drefnydd digwyddiadau, gan dynnu sylw at feysydd i’w datblygu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu B: Ymchwilio i ddichonoldeb digwyddiad arfaethedig</td><td rowspan="4">BC.Rh2 Gwerthuso a chyfiawnhau dichonoldeb y cynllun, offer, cyllideb a risg gan wneud unrhyw addasiadau wrth gefn gofynnol.</td></tr>
<tr><td>B.Ll3 Ymchwilio i’r gwaith o gynnal sawl digwyddiad i bennu ffactorau llwyddiant cyffredin.<br>B.Ll4 Esbonio’r syniad am ddigwyddiad dewisedig, gan gynnwys rhesymau am eich dewis.</td><td>B.T2 Asesu dichonoldeb y digwyddiad arfaethedig.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu C: Datblygu cynllun manwl ar gyfer digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol</td></tr>
<tr><td>C.Ll5 Esbonio’r ffactorau y bydd angen eu hystyried wrth lunio cynllun manwl ar gyfer y digwyddiad arfaethedig.<br>C.Ll6 Llunio cynllun manwl ar gyfer eich digwyddiad dewisedig gan ddefnyddio offer cynllunio, cyllideb fanwl ac ystyriaeth i asesu risg a chynllunio wrth gefn.</td><td>C.T3 Dadansoddi’r ffactorau allweddol y mae angen eu hystyried wrth lunio cynllun ar gyfer digwyddiad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu D: Cynnal a rheoli digwyddiad busnes neu fenter gymdeithasol</td><td rowspan="4">DE.Rh3 Cyfiawnhau sut mae eich rôl chi wedi cyfrannu at lwyddiant y digwyddiad trwy arddangos sgiliau rheoli rhagorol drwy gydol y broses o drefnu a chynnal digwyddiad.</td></tr>
<tr><td>D.Ll7 Cynnal digwyddiad gan ddangos rhai sgiliau rheoli perthnasol.</td><td>D.T4 Arddangos sgiliau rheoli effeithiol a diogel wrth drefnu a chynnal digwyddiad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu E: Myfyrio ar sut cafodd y digwyddiad ei redeg a gwerthuso’r sgiliau a ddatblygwyd gennych</td></tr>
<tr><td>E.Ll8 Adolygu llwyddiant y digwyddiad o ran cyflawni nodau ac amcanion, cyrraedd targedau a derbyn adborth da gan randdeiliaid.</td><td>E.T5 Dadansoddi sut cafodd y digwyddiad ei gynllunio a’i redeg, sut cafodd risgiau a chynlluniau wrth gefn eu rheoli, gan wneud argymhellion ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.</td></tr>
</table>

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.Rh1)

Nodau dysgu: B ac C (B.Ll3, B.Ll4, C.Ll5, C.Ll6, B.T2, C.T3, BC.Rh2)

Nodau dysgu: D ac E (D.Ll7, E.Ll8, D.T4, E.T5, DE.Rh3)

 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

Dylai'r digwyddiad a ddewisir ganiatáu i'r dysgwyr gyflawni sgiliau a gweithgareddau gofynnol y meini prawf asesu tra'n sicrhau bod y dysgwyr a'r cyfranogwyr yn ddiogel.

Dylai'r dysgwyr gynhyrchu eu tystiolaeth annibynnol eu hunain os ydynt yn gweithio mewn grŵp.

### Nod dysgu A

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyfiawnhau sut mae eu sgiliau personol yn cyfateb i'r rheiny sy'n ofynnol i fod yn drefnydd digwyddiadau.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cymharu eu sgiliau personol eu hunain â'r rheiny sy'n ofynnol i fod yn drefnydd digwyddiadau. Byddant yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau ac yn gwneud awgrymiadau ynghylch sut gallai hynny ddigwydd.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn llunio adroddiad/trawsgrifiad cyfweliad, yn nodi'r rôl a'r sgiliau sy'n ofynnol i fod yn drefnydd digwyddiadau effeithiol. Cynhwysir awdit sgiliau personol.

### Nodau dysgu B ac C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn rhoi cyfiawnhad clir, yn seiliedig ar eu hymchwil, ar gyfer eu digwyddiad dewisedig a pham bydd yn llwyddiannus.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn asesu dichonoldeb y digwyddiad arfaethedig. Ceir dadansoddiad i ddangos eu bod yn deall yn eglur bwysigrwydd llunio cynllun wrth gefn wrth drefnu digwyddiad a byddant yn cyflwyno rhesymeg ar gyfer y cynlluniau wrth gefn arfaethedig.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn dangos tystiolaeth o waith ymchwil ar nifer o wahanol ddigwyddiadau llwyddiannus a byddant yn nodi'r ffactorau llwyddiant cyffredin. Bydd hyn yn eu galluogi i lunio cynllun digwyddiad effeithiol, gan roi sylw i'r holl ffactorau cynllunio allweddol a chan ddefnyddio offer cynllunio. Darperir cyllideb ar gyfer y digwyddiad hefyd.

### Nodau dysgu D ac E

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyfiawnhau'n fanwl pa mor dda cafodd y digwyddiad ei reoli ac i ba raddau bu'r cynllun cychwynnol yn cyfrannu at lwyddiant y digwyddiad (neu beidio). Bydd y dysgwyr yn cyfiawnhau sut bu eu cyfraniad eu hunain yn allweddol i lwyddiant y digwyddiad a'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y broses. I gyrraedd safon rhagoriaeth bydd angen i'r dysgwyr ddangos eu bod wedi chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o gynllunio, cynnal a gwerthuso'r digwyddiad a hynny drwy gydol yr amser. Bydd angen datganiad tyst i gefnogi hyn.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi sut cafodd y digwyddiad ei gynllunio a'i gynnal, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut cafodd risgiau posibl a chynlluniau wrth gefn eu rheoli. Byddant hefyd yn cynnwys argymhellion manwl ar gyfer gwelliant.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn rhoi tystiolaeth ar ffurf dyddiadur sy'n cwmpasu pob cam o'r digwyddiad ynghyd â datganiadau tystion, tystiolaeth ffotograffig a chofnodion arsylwi. Bydd y dysgwyr hefyd yn cyflwyno adolygiad ysgrifenedig o lwyddiant y digwyddiad ar sail adborth gan randdeiliaid.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Wrth asesu'r uned hon, dylid defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd o'r unedau canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Uned 2: Datblygu Ymgyrch Farchnata
- Uned 3: Cyllid Personol a Busnes
- Unit 5: International Business
- Unit 6: Principles of Management.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd o fusnesau rheoli digwyddiadau
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth fentora gan staff busnesau lleol.


 © Pearson Education Limited 2022

# Uned 8: Proses Recriwtio a Dewis

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae'r broses recriwtio'n cael ei gweithredu mewn busnes. Bydd yr uned yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan mewn cyfweliadau dewis ac adolygu eu perfformiad.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae recriwtio'r bobl iawn yn hanfodol i lwyddiant busnes. Mae'n bwysig bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth recriwtio a dewis yn diwallu anghenion busnes ac yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol. Byddwch yn dysgu bod recriwtio llwyddiannus yn allweddol i gynnal llwyddiant busnes, gan mai pobl yn aml sy'n cael eu hystyried yn adnodd mwyaf gwerthfawr busnes. Byddwch yn archwilio'r offer dewis amrywiol a'r defnydd helaeth o dechnoleg yn y maes hwn. Bydd busnesau sydd â phroses recriwtio effeithiol ar waith yn fwy tebygol o wneud penodiadau llwyddiannus. Mewn marchnad lafur gystadleuol mae hon yn fantais fawr a bydd yn cynnal llwyddiant busnes.

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i chi, drwy chwarae rôl, gymryd rhan mewn cyfweliadau dewis. Bydd angen bod yn drefnus a pharatoi ar eu cyfer fel bod modd dangos eich sgiliau cyfathrebu yn y cymhwysedd hwn sy'n gysylltiedig â gwaith.

Bydd yr uned hon yn rhoi sylfaen i chi symud ymlaen i gyflogaeth, er enghraifft mewn rôl adnoddau dynol, neu i addysg uwch. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio bydd yr uned yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol mewn sefyllfa gyfweliad. Cewch gyfle i adolygu eich perfformiad eich hun a dadansoddi'ch sgiliau i'w datblygu.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

**A** Archwilio sut mae recriwtio a dewis effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes

**B** Ymgymryd â gweithgaredd recriwtio i ddangos y prosesau sy'n arwain at gynnig swydd llwyddiannus

**C** Myfyrio ar y broses recriwtio a dewis a'ch perfformiad eich hun.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio sut mae recriwtio a dewis effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes | **A1** Recriwtio staff<br>**A2** Proses recriwtio a dewis<br>**A3** Ystyriaethau moesegol a chyfreithiol yn y broses recriwtio | Adroddiad sy'n archwilio'r broses recriwtio mewn busnes mawr. |
| **B** Ymgymryd â gweithgaredd recriwtio i ddangos y prosesau sy'n arwain at gynnig swydd llwyddiannus | **B1** Ceisiadau am swydd<br>**B2** Cyfweliadau a sgiliau | Rhaid i'r dysgwyr gyfranogi mewn gweithgaredd recriwtio a dewis. Bydd angen iddynt gyfweld a chael eu cyfweld a chwblhau'r ddogfennaeth briodol.<br>Bydd angen i'r dysgwyr ddangos tystiolaeth o'r holl ddogfennau a grewyd.<br>Gallu i feirniadu eu perfformiad eu hunain, gan gynnwys beth allai fod wedi mynd yn well a pha sgiliau y dylid eu datblygu fel y gall y dysgwyr wella eu cyflogadwyedd.<br>Dadansoddiad SWOT o'u perfformiad yn y gweithgaredd cyfweld mewn cysylltiad â'u cynlluniau i'r dyfodol. |
| **C** Myfyrio ar y broses recriwtio a dewis a'ch perfformiad eich hun | **C1** Adolygu a gwerthuso<br>**C2** Dadansoddiad SWOT a chynllun gweithredu | |

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio sut mae recriwtio a dewis effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes

#### A1 Recriwtio staff

- Cynllunio'r gweithlu: mewn busnes mawr gyda 250+ o staff, e.e. adwerthu, cwmni cynhyrchu neu fusnes ariannol, edrych ar y rhesymau dros recriwtio staff newydd, megis:
  - twf y busnes: lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
  - rolau swydd newidiol
  - newid systemau
  - llenwi swyddi newydd a grewyd yn sgîl cael mwy o le neu ddatblygu cynnyrch
  - swyddi gwag a achoswyd gan staff yn gadael/trosiant staff
  - dyrchafiadau mewnol
  - swyddfa neu gangen newydd a'r angen am staff ychwanegol
  - anwadaliadau *(fluctuations)* tymhorol sy'n gofyn am staff dros dro.
- Defnydd o ganolfannau gwaith ac asiantaethau, hysbysebion mewnol yn erbyn hysbysebion allanol, dulliau recriwtio traddodiadol ac ar-lein.
- Sut mae'r broses recriwtio'n cysylltu â llwyddiant busnes.
- Sut mae proses recriwtio broffesiynol yn arwain at integreiddio staff yn effeithlon.

#### A2 Proses recriwtio a dewis

- Proses recriwtio – pwrpas y dogfennau ar gyfer recriwtio mewnol ac allanol:
  - hysbyseb swydd – lleoli'r hysbyseb, mewnol/allanol, cyfnodolyn/gwefan
  - dadansoddiad swydd
  - disgrifiad swydd – cynnwys y tasgau a chyfrifoldebau'r swydd
  - manyleb person a sgiliau gofynnol ar gyfer y swydd – ydyn nhw'n hanfodol neu'n ddymunol?
  - CV yn erbyn ffurflenni cais
  - llythyr cais
  - recriwtio ar-lein a sut gallai'r broses ymgeisio fod yn fwy cost-effeithiol wrth ddefnyddio technoleg.
- Dewis, gan gynnwys canolfannau asesu a phrofion seicometrig, cyfweliadau gweithgaredd grŵp/tîm (dros y ffôn, wyneb yn wyneb, grŵp a phanel), cyflwyniadau mewn cyfweliadau, profion byr mewn cyfweliadau:
  - protocol cyfweliad, mathau o ddulliau dewis a sut mae hynny'n cyfrannu at y broses – manteision ac anfanteision
  - prosesau dewis cychwynnol a chyfweliadau sgrinio dros y ffôn neu brofion byr, ar-lein, gwerthfawrogi bod gwahanol brosesau'n briodol ar gyfer y rolau amrywiol mewn busnes
  - defnyddio technoleg yn y broses, ceisiadau ar-lein, CV wedi'i lanlwytho neu drwy'r post
  - cyfathrebu â darpar gyflogeion: ydy'r llwybrau'n rhai hylaw, oes modd monitro'r broses?
  - ansawdd y broses a'r dogfennau
  - cysylltu'r broses ag effeithlonrwydd a llwyddiant busnes.

#### A3 Ystyriaethau moesegol a chyfreithiol yn y broses recriwtio

- Pam mae rhaid i brosesau recriwtio fod yn foesegol a chydymffurfio â deddfwriaeth cyfle cyfartal; beth yw'r cyfrifoldebau moesegol a'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â beth yw cyfle cyfartal.
- Ystyriaethau moesegol, gan gynnwys:
  - gonestrwydd mewn hysbyseb
  - cynnal cyfrinachedd
  - sicrhau bod yr un cwestiynau'n cael eu gofyn i bob ymgeisydd sy'n cael cyfweliad

  - defnyddio'r un meini prawf ar gyfer pob ymgeisydd
  - datgelu os yw perthnasau neu ffrindiau'n gweithio i'r un busnes.
- Mae deddfwriaeth cyfle cyfartal gyfredol o ran rhywedd, oedran, hil, anabledd, isafswm cyflog i gyd yn effeithio ar y broses recriwtio; gall anawsterau godi os na chydymffurfir â'r holl gyfraith gyfredol yn y maes hwn.
- Deddfwriaeth hawl i weithio gyfredol, gwirio dogfennau.

## Nod dysgu B: Ymgymryd â gweithgaredd recriwtio i ddangos y prosesau sy'n arwain at gynnig swydd llwyddiannus

### B1 Ceisiadau am swydd

Dewis rôl swydd ar gyfer y busnes yn unol â'r uchod ac yna paratoi'r holl ddogfennau perthnasol:

- hysbyseb swydd gan roi enghreifftiau addas o ble gellid ei gosod
- dadansoddiad swydd
- disgrifiad swydd
- manyleb person
- ffurflen gais
- CV personol
- llythyr cais.

### B2 Cyfweliadau a sgiliau

- Sgiliau cyfathrebu sy'n ofynnol ar gyfer sefyllfaoedd cyfweliad: iaith y corff a sgiliau gwrando, ymagweddau proffesiynol, iaith ffurfiol, sgiliau ac agweddau'r cyfwelydd a'r cyfwelai, chwarae rôl, iaith y corff, gwisg, cwestiynau cyfweliad.
- Llunio cwestiynau cyfweliad.
- Ffurflen adborth ar y cyfweliad.
- Ffurflen arsylwi.
- Adolygu ceisiadau gan y grŵp cymheiriaid.
- Cyflwyno ceisiadau i'r grŵp cymheiriaid.
- Arddangos cymhwysedd cysylltiedig â gwaith (cyfweld a chael cyfweliad), dadansoddi sut aeth y gweithgaredd, a ofynnwyd y cwestiynau cywir i sicrhau'r canlyniad a ddymunid, a wnaeth yr hysbyseb, y disgrifiad swydd a'r fanyleb person arwain at gael y lefel briodol o wybodaeth ar y ffurflen gais a'r llythyr esboniadol; a gydymffurfiwyd â deddfwriaeth cyfle cyfartal.
- Gwerthuso'r ddogfennaeth a gynhyrchwyd ar gyfer y broses: a gafodd ei pharatoi i ddewis yr ymgeisydd iawn? A lwyddodd ffurflenni/cwestiynau'r broses gyfweld i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn arddangos eu sgiliau'n effeithiol? A allasai fod yn well?

## Nod dysgu C: Myfyrio ar y broses recriwtio a dewis a'ch perfformiad eich hun

### C1 Adolygu a gwerthuso

- Gweithgaredd chwarae rôl.
- Arfarniad yr unigolyn o'i rolau ei hun wrth gyfweld, cael cyfweliad ac arsylwi.
- Adolygu sgiliau cyfathrebu.
- Adolygu gallu i drefnu
- Asesu sut mae'r sgiliau a enillwyd yn cefnogi datblygu sgiliau cyflogadwyedd.

### C2 Dadansoddiad SWOT a chynllun gweithredu

- Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) o berfformiad unigolion yn y gweithgareddau chwarae rôl.
- Hunan-arfarnu'r digwyddiadau a'r ddogfennaeth a baratowyd, a sut roedd hynny'n cefnogi'r gweithgaredd.
- Adolygu a oedd y broses yn effeithiol a sut mae dysgwyr yn teimlo y gallai fod angen datblygu eu sgiliau ymhellach i fedru cynnal cyfweliadau a chyfranogi ynddynt yn fwy effeithiol.
- Cynllun gweithredu i amlygu sut i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau yn y set sgiliau.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio sut mae recriwtio a dewis effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes** | | |
| **A.Ll1** Esbonio sut mae busnes mawr yn recriwtio ac yn dewis gan roi rhesymau dros eu prosesau.<br>**A.Ll2** Esbonio sut a pham mae busnes yn cadw at brosesau recriwtio sy'n foesegol ac yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth gyfredol. | **A.T1** Dadansoddi'r dulliau recriwtio gwahanol a ddefnyddir mewn busnes dewisedig. | **A.Rh1** Gwerthuso'r prosesau recriwtio a ddefnyddir a sut maent yn cyfrannu at lwyddiant busnes dewisedig. |
| **Nod dysgu B: Ymgymryd â gweithgaredd recriwtio i ddangos y prosesau sy'n arwain at gynnig swydd llwyddiannus** | | |
| **B.Ll3** Paratoi dogfennaeth briodol i'w defnyddio mewn gweithgareddau dewis a recriwtio.<br>**B.Ll4** Cyfranogi yn y cyfweliadau dewis, fel cyfwelydd a chyfwelai. | **B.T2** Mewn cyfweliadau recriwtio, arddangos ymatebion a chwestiynu dadansoddol fel bod modd asesu gwybodaeth a sgiliau. | **B.Rh2** Gwerthuso pa mor dda fu'r dogfennau a baratowyd a chyfranogi yn y gweithgareddau cyfweliad yn cefnogi'r broses o gael cynnig swydd. |
| **Nod dysgu C: Myfyrio ar y broses recriwtio a dewis a'ch perfformiad eich hun** | | |
| **C.Ll5** Cwblhau dadansoddiad SWOT ar eich perfformiad yn y gweithgareddau cyfweld.<br>**C.Ll6** Paratoi cynllun datblygu sgiliau personol ar gyfer sefyllfaoedd cyfweliad yn y dyfodol. | **C.T3** Dadansoddi canlyniadau'r broses a sut bydd y sgiliau a ddatblygir gennych yn cyfrannu at eich llwyddiant yn y dyfodol. | **C.Rh3** Gwerthuso pa mor dda oedd y broses recriwtio a dewis yn cydymffurfio ag arfer gorau, gan ddod i gasgliadau rhesymedig ynghylch sut bydd yn cefnogi'ch gyrfa yn y dyfodol. |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o’r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma’r berthynas rhwng y nodau dysgu a’r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.Rh1)

Nodau dysgu: B ac C (B.Ll3, B.Ll4, C.Ll5, C.Ll6, B.T2, C.T3, B.Rh2, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth am sut mae busnes yn recriwtio staff. Defnyddir busnes mawr sydd â 250+ o weithwyr gan fod rhai busnesau bach heb system recriwtio dryloyw y gellir ei chyrchu'n hwylus. Gallai'r dysgwyr ymchwilio i nifer fach o fusnesau cyn penderfynu ar un i'w astudio er mwyn sicrhau bod y deunydd y mae arnynt ei angen ar gael.

Rhaid nodi ystyriaethau moesegol a chyfreithiol perthnasol a chyfredol yn yr adroddiad. Rhaid i'r adroddiad unigol gael ei ysgrifennu mewn iaith fusnes briodol.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwerthuso'r prosesau recriwtio, yn dod i gasgliad rhesymedig ac yn cyfeirio'n ddeallus at sut mae hyn yn gysylltiedig â llwyddiant busnes dewisedig. Bydd yr adroddiad yn ystyried y problemau a all effeithio ar fusnes os bydd prinder staff neu os caiff cyflogeion anaddas eu dewis oherwydd systemau recriwtio aneffeithiol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r gwahanol ddulliau recriwtio gan roi sylw i gryfderau a gwendidau'r systemau sydd ar waith.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn archwilio'r ffactorau o blaid cynllunio'r gweithlu a'r rhesymau pam byddai busnesau'n gorfod recriwtio rhagor o weithwyr. Rhaid i'r adroddiad ddangos dealltwriaeth o'r dulliau recriwtio a pham caiff y prosesau gwahanol eu defnyddio. Bydd y dysgwyr yn nodi a yw cyrff a/neu asiantaethau allanol yn cyfrannu at y broses o asesu neu gyfweld, gan dynnu sylw at eu cyfraniad penodol i'r ymarfer. Bydd yr adroddiad yn dangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd dilyniannu yn y broses recriwtio a'r defnydd o dechnoleg/dechnolegau newydd yn y maes hwn.

### Nodau dysgu B ac C

Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn panel cyfweld a byddant hefyd yn cael eu cyfweld fel bod modd datblygu sgiliau ar gyfer y ddwy rôl. Bydd angen i athrawon gwblhau datganiadau tyst er mwyn cofnodi cyfranogiad a chynnwys adborth y gall y dysgwyr ei ddefnyddio i ddatblygu eu dadansoddiad SWOT.

Bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau cyfathrebu effeithiol. Byddant yn llunio cwestiynau cyfweliad sy'n amlwg berthnasol i rôl y swydd ac yn caniatáu i sgiliau a chymwyseddau gael eu hasesu. Bydd y dysgwyr yn datblygu system deg i fonitro atebion yn y cyfweliadau, ac yn dewis yr ymgeisydd mwyaf addas. Dylid cynnwys dogfennau ym mhortffolios y dysgwyr.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwneud eu gwerthusiad manwl eu hun o'r dogfennau a ddefnyddiwyd. Bydd yr adroddiad yn dod i gasgliad rhesymedig ynghylch effeithiolrwydd y dogfennau a ddefnyddiwyd yn y cyfweliad ac i ba raddau y buont o gymorth yn ystod y gweithgaredd. Bydd hefyd yn cynnwys gwerthusiad cytbwys, gan amlygu pa mor llwyddiannus oedd y berthynas rhwng y prosesau hyn ac arfer gorau'r proffesiwn. Bydd y dysgwyr yn dod i gasgliad manwl ynghylch sut bydd hyn o gymorth o ran symud ymlaen yn eu gyrfa.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cynnig eu dadansoddiad eu hun o effeithiolrwydd y cwestiynau cyfweliad o ran asesu sgiliau a gwybodaeth. Bydd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad clir o'r gweithgaredd cyfweld. Bydd y dysgwyr yn dangos cysylltiadau clir rhwng datblygu sgiliau a gwella eu rhagolygon gyrfa.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn defnyddio'r busnes a astudiwyd yn nod dysgu A i greu dogfennau dewis a recriwtio perthnasol ar gyfer rôl swydd benodol. Er mwyn cyfrannu at ddatblygiad sgiliau cyflogadwyedd, bydd y rôl a ddewisir yn realistig o ran sgiliau cyfredol y dysgwyr. Gellid rhannu'r dogfennau hyn ymhlith y dysgwyr er mwyn iddynt fedru ymgeisio am swydd a grewyd gan rywun arall a chael cyfweliad am y rôl. Bydd y dogfennau'n addas i'r diben, yn broffesiynol ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith fusnes briodol. Rhaid cwblhau ffurflenni cais am swydd yn llawn. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad SWOT manwl o berfformiad unigolyn yn y dasg gyfweld sy'n arwain at gynllun datblygu sy'n dangos sut mae'r dysgwyr yn bwriadu gwella gwendidau a magu hyder yn y broses gyfweld. Gellir cyfeirio yma at unrhyw brofiadau personol a chyfweliadau cyflogaeth eraill a'u defnyddio i gefnogi'r cynllun datblygu.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Unit 6: Principles of Management
- Unit 9: Team Building in Business
- Uned 21: Hyfforddiant a Datblygiad.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- llunio/cynnig syniadau ar gyfer aseiniadau uned/astudiaethau achos/deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth gan staff busnesau lleol fel mentoriaid.

# Uned 10: Cofnodi Trafodion Ariannol

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio sut a pham caiff trafodion ariannol eu cofnodi, yn ogystal â gwirio cofnodion banc a delio â gwallau.

## Cyflwyniad i'r uned

Y system gyfrifydda neu gadw cyfrifon yw'r broses sy'n darparu'r holl wybodaeth ar gyfer cyfrifon terfynol busnes. Mae'n hollbwysig bod cofnodion cyfrifo'n eglur, yn gryno ac yn fanwl gywir.

Yn yr uned hon, byddwch chi'n cwblhau set o gyfrifon ar gyfer busnes nodweddiadol. Byddwch chi'n dysgu sut caiff dogfennau gwreiddiol eu cofnodi yn y cyfrifon, sut i gofnodi'r wybodaeth hon mewn cyfrifon cyfriflyfr cofnodi dwbl a thynnu mantolen brawf. Byddwch yn ystyried pwysigrwydd cadw cofnodion ariannol manwl gywir, gan gynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol a phroffesiynol perthynas busnes â rhanddeiliaid a risg twyll. Byddwch hefyd yn dysgu sut caiff mecanweithiau rheoli, megis cysoniad banc, a sut caiff cyfrifon rheoli eu paratoi a'u defnyddio i sicrhau bod cofnodion ariannol yn fanwl gywir. Byddwch yn archwilio sut a pham gall gwallau godi yng nghofnodion ariannol busnes ac yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol. Byddwch yn ystyried sut mae'r gwallau hyn yn effeithio ar ddatganiadau ariannol busnes ynghyd â deall goblygiadau ehangach gwallau a chofnodion ariannol anghywir i lwyddiant busnes.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle defnyddiol i ennill sgiliau ymarferol a phroffesiynol i weithio mewn amgylchedd cyfrifydda, a fydd yn eich galluogi i benderfynu a hoffech symud ymlaen i astudiaeth bellach neu hyfforddiant yn y maes hwn.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Cofnodi trafodion ariannol yn fanwl gywir gan ddefnyddio system gyfrifydda cofnodi dwbl

**B** Cyflawni cysoniad banc fel rhan o reolaeth ariannol fanwl gywir

**C** Creu cyfrifon rheoli i ddyledwyr a chredydwyr at ddibenion rheolaeth ariannol fanwl gywir

**D** Archwilio cywiro gwallau mewn cofnodion cyfrifo at ddibenion rheolaeth ariannol.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Cofnodi trafodion ariannol yn fanwl gywir gan ddefnyddio system gyfrifydda cofnodi dwbl | **A1** Pwysigrwydd cofnodion manwl gywir<br>**A2** Dogfennau ariannol<br>**A3** Mathau o drafodion<br>**A4** System cofnodi dwbl<br>**A5** Llyfrau cofnodi gwreiddiol<br>**A6** Cyfrifon cyfriflyfr cofnodi dwbl a llyfrau arian<br>**A7** Y fantolen brawf | Asesiad manwl o bwysigrwydd cadw cofnodion ariannol manwl gywir.<br>Llunio llyfrau cofnodi gwreiddiol a gwneud cofnodion o set benodol o drafodion ar gyfer busnes, gan gynnwys pryniadau, gwerthiannau, pryniadau a gwerthiannau a ddychwelwyd, a thrafodion arian a banc.<br>Llunio cyfrifon cofnodi dwbl o set benodol o drafodion ar gyfer busnes a thynnu'r fantolen brawf.<br>Llunio datganiad cysoniad banc o set benodol o ddata ariannol ar gyfer busnes nodweddiadol a gwneud cofnodion ynddo.<br>Ysgrifennu adroddiad i ddadansoddi pwysigrwydd datganiadau cysoniad banc. |
| **B** Cyflawni cysoniad banc fel rhan o reolaeth ariannol fanwl gywir | **B1** Yr angen am gysoniad banc<br>**B2** Cwblhau cysoniad banc<br>**B3** Pwysigrwydd cysoniad banc | |
| **C** Creu cyfrifon rheoli i ddyledwyr a chredydwyr at ddibenion rheolaeth ariannol fanwl gywir | **C1** Diffiniad a diben cyfrifon rheoli<br>**C2** Paratoi a chyfrifo cyfrifon rheoli<br>**C3** Cywiro gwallau yn y cyfrifon rheoli a'r rhestr o ddyledwyr a chredydwyr | Paratoi a gwneud cofnodion yn y cyfrifon 'cyfanswm dyledwyr' a 'chyfanswm credydwyr' o set benodol o drafodion ariannol.<br>Nodi a chywiro gwallau mewn cyfrifon rheoli a'r rhestr o ddyledwyr a chredydwyr o set benodol o wallau.<br>Ysgrifennu adroddiad i werthuso buddion cyfrifon rheoli.<br>Ysgrifennu adroddiad i archwilio ac esbonio gwallau sy'n effeithio ar system gyfrifo nodweddiadol.<br>Llunio dyddlyfr a chyfrif dros dro, gwneud cofnodion i gywiro gwallau o set benodol o wallau.<br>Cyfrifiadau ar ffurf tabl neu restr i ddangos sut mae gwallau wedi newid y cyfrifon terfynol.<br>Ysgrifennu adroddiad i asesu sut a pham mae gwallau wedi effeithio ar ddatganiadau ariannol.<br>Adroddiad ysgrifenedig i werthuso goblygiadau gwallau a chofnodion ariannol anghywir. |
| **D** Archwilio cywiro gwallau mewn cofnodion cyfrifo at ddibenion rheolaeth ariannol | **D1** Nodi ac esbonio'r gwahanol fathau o wallau<br>**D2** Cywiro gwallau nad ydynt yn effeithio ar y fantolen brawf<br>**D3** Cywiro gwallau a chyfrifon dros dro<br>**D4** Effaith gwallau ar ddatganiadau ariannol | |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Cofnodi trafodion ariannol yn fanwl gywir gan ddefnyddio system gyfrifydda cofnodi dwbl

### A1 Pwysigrwydd cofnodion manwl gywir

- Pwysigrwydd cadw cyfrifon ariannol manwl gywir, gan gynnwys: archwiliadau, cydymffurfio â chysyniadau, mesur perfformiad, rhwymedigaethau cyfreithiol, risg twyll, cyfrifoldeb proffesiynol, diogeledd, enw da, atebolrwydd treth, hyder rhanddeiliaid.

### A2 Dogfennau ariannol

- Diben dogfennau gwreiddiol, gan gynnwys: derbynneb arian, siec, archeb brynu, nodyn danfon, anfoneb, nodyn nwyddau a dderbyniwyd, nodyn credyd, nodyn debyd, datganiad o gyfrif, hysbysiad talu.
- Mathau o ddisgowntiau sydd ar gael i gwsmeriaid.

### A3 Mathau o drafodion

- Yn cynnwys: arian, banc, cerdyn credyd, cerdyn debyd, trafodion credyd, BACS, debyd uniongyrchol, bancio ar y we a goblygiadau diogeledd ar-lein.

### A4 System cofnodi dwbl

- Yr hafaliad cofnodi dwbl a chyfrifydda, gosodiad cyfrif cyfriflyfr (cyfrif 'T').

### A5 Llyfrau cofnodi gwreiddiol

- Pwrpas a chwblhau dyddlyfrau, gan gynnwys: dyddlyfr gwerthiannau, dyddlyfr gwerthiannau a ddychwelwyd, llyfrau cofnod, dyddlyfr pryniadau, dyddlyfr pryniadau a ddychwelwyd. SYLWER: dylai'r dyddlyfr gynnwys prynu a gwaredu asedau sefydlog, dibrisiant a drwgddyledion yn unig (h.y. nid cofnodi gwallau).

### A6 Cyfrifon cyfriflyfr cofnodi dwbl a llyfrau arian

- Pwrpas a chwblau cyfrifon cofnodi dwbl, gan gynnwys pob un yn y cyfriflyfrau canlynol: cyfriflyfr gwerthiannau (pob cyfrif dyledwyr personol), cyfriflyfr pryniadau (pob cyfrif credydwyr personol), llyfr arian (arian, banc, disgownt a ganiatawyd, disgownt a dderbyniwyd), cyfriflyfr cyffredinol (pob cyfrif arall).
- Mantoli pob cyfrif cyfriflyfr yn fanwl gywir i ddangos colofnau cyfanswm, gweddill a gariwyd i lawr (*c/d*) a gweddill a ddygwyd i lawr (*b/d*).

### A7 Y fantolen brawf

- Paratoi mantolen brawf o set o gyfrifon cyfriflyfr cofnodi dwbl.
- Pam dylai'r mantolenni debyd a chredyd fod yn gyfartal, y cysylltiad rhwng y fantolen brawf a datganiadau ariannol.

## Nod dysgu B: Cyflawni cysoniad banc fel rhan o reolaeth ariannol fanwl gywir

### B1 Yr angen am gysoniad banc

- Rhesymau pam mae'r gweddill yn y llyfr arian (colofn banc) yn wahanol i'r datganiad banc, gan gynnwys amseriad, derbynebau a gredydwyd gan y banc, taliadau a ddebydwyd gan y banc, gwallau mewn trafodion, gwallau mantoli, gweithdrefnau diogeledd bancio.

### B2 Cwblhau cysoniad banc

- Cwblhau enghreifftiau o gysoniad banc priodol, gan ddilyn camau.
- Eitemau anarferol, gan gynnwys sieciau wedi darfod, sieciau heb eu talu, sieciau wedi'u hatal, gwallau banc, taliadau banc a llog.

### B3 Pwysigrwydd cysoniad banc

- Rhesymau dros gysoniad banc at ddibenion rheolaeth, gan gynnwys cywiro gwallau a hepgoriadau, cywiro cofnodion yn y fantolen brawf, ymholiadau i gyflenwyr a/neu gwsmeriaid, sieciau a gyflwynwyd yn hwyr, gwahanu dyletswyddau, a thwyll.

## Nod dysgu C: Creu cyfrifon rheoli i ddyledwyr a chredydwyr at ddibenion rheolaeth ariannol fanwl gywir

### C1 Diffiniad a diben cyfrifon rheoli

- Buddion cyfrifon rheoli, gan gynnwys: atal rhag twyll, mantolen brawf 'ar raddfa fach' ar gyfer dyledwyr a chredydwyr, olrhain y swm sy'n ddyledus i ddyledwyr ac oddi wrth gredydwyr, rhannu cyfrifoldeb, cael hyd i wallau.

### C2 Paratoi a chyfrifo cyfrifon rheoli

- Pwrpas cyfrifon rheoli ar gyfer dyledwyr a chredydwyr.
- Gwneud cofnodion yn y cyfrifon rheoli, gan gynnwys: gweddillion b/d, dychweliadau, gwerthiannau a phryniadau, derbynebau a thaliadau, disgowntiau, drwgddyledion, sieciau heb eu talu, llog ar symiau hwyr, ad-daliadau, cofnodion contra.

### C3 Cywiro gwallau yn y cyfrifon rheoli a'r rhestr o ddyledwyr a chredydwyr

- Nodi a chywiro gwallau trwy ddiweddaru'r (diwygio'r) cyfrif rheoli.
- Paratoi datganiad cysoni o fantolen y cyfrif rheoli gyda'r rhestr(i) o gyfrifon personol dyledwyr a/neu gredydwyr.

## Nod dysgu D: Archwilio cywiro gwallau mewn cofnodion cyfrifo at ddibenion rheolaeth ariannol

### D1 Nodi ac esbonio'r gwahanol fathau o wallau

- Gwall trawsnewid rhifau, hepgoriad, egwyddor, digolledu, gwrthdroi, cofnod gwreiddiol, gwall cyflawni.

### D2 Cywiro gwallau nad ydynt yn effeithio ar y fantolen brawf

- Gwneud cofnodion mewn dyddlyfr i ddangos sut bydd rhaid cywiro'r gwall a chwblhau naratif i nodi ac esbonio'r math o wall.

### D3 Cywiro gwallau a chyfrifon dros dro

- Gwneud cofnodion mewn dyddlyfr i ddangos sut bydd rhaid cywiro'r gwall a chwblhau naratif i nodi ac esbonio'r math o wall, agor a phostio cofnodion i gyfrif dros dro lle y bo'n briodol.

### D4 Effaith gwallau ar ddatganiadau ariannol

- Paratoi datganiad elw diwygiedig i ddangos sut mae gwallau wedi newid datganiadau ariannol.
- Dadansoddi sut mae gwallau'n effeithio ar fusnes, gan gynnwys ffactorau ariannol ac anariannol.


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Cofnodi trafodion ariannol yn fanwl gywir gan ddefnyddio system gyfrifydda cofnodi dwbl** | | **AB.Rh1** Gwerthuso pwysigrwydd manwl gywirdeb yn y broses cofnodi dwbl a chysoniad banc at ddibenion rheolaeth ariannol gywir. |
| **A.Ll1** Cofnodi trafodion ariannol syml o ffynonellau gwahanol yn y llyfrau cofnodi gwreiddiol.<br>**A.Ll2** Cwblhau cyfrifon cofnodi dwbl syml a thynnu mantolen brawf gan ddefnyddio set benodol o drafodion ariannol. | **A.T1** Cwblhau cofnodion ar gyfer set benodol o drafodion ariannol cymhleth gan ddefnyddio llyfrau cofnodi gwreiddiol, cyfrifon cofnodi dwbl a thynnu mantolen brawf. | |
| **Nod dysgu B: Cyflawni cysoniad banc fel rhan o reolaeth ariannol fanwl gywir** | | |
| **B.Ll3** Paratoi'n fanwl gywir ddatganiad cysoniad banc syml at ddibenion rheolaeth ariannol. | **B.T2** Paratoi'n fanwl gywir ddatganiad cysoniad banc cymhleth at ddibenion rheolaeth ariannol. | |
| **Nod dysgu C: Creu cyfrifon rheoli i ddyledwyr a chredydwyr at ddibenion rheolaeth ariannol fanwl gywir** | | **C.Rh2** Gwerthuso pwysigrwydd mecanweithiau rheoli wrth gofnodi trafodion ariannol yn fanwl gywir. |
| **C.Ll4** Paratoi'n fanwl gywir gyfrifon rheoli gan ddefnyddio set benodol o drafodion ariannol at ddibenion rheolaeth ariannol. | **C.T3** Dadansoddi cyfrifon rheoli a phersonol i gywiro gwallau at ddibenion rheolaeth ariannol. | |
| **Nod dysgu D: Archwilio cywiro gwallau mewn cofnodion cyfrifo at ddibenion rheolaeth ariannol** | | **D.Rh3** Gwerthuso effaith gwallau mewn cofnodion cyfrifo ar y cyfrifon terfynol ar gyfer busnes penodol. |
| **D.Ll5** Esbonio'r mathau o wall sy'n codi mewn cofnodion cyfrifydda.<br>**D.Ll6** Gwneud cofnodion syml mewn dyddlyfr, sydd heb fod yn ymwneud â chyfrif dros dro i gefnogi cywiro gwallau ar gyfer set benodol o drafodion ariannol. | **D.T4** Gwneud cofnodion cymhleth mewn dyddlyfr, a chyfrif dros dro yn fanwl gywir i gefnogi cywiro gwallau a pharatoi datganiad elw diwygiedig. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, A.T1, B.T2, AB.Rh1)

Nodau dysgu: C a D (C.Ll4, D.Ll5, D.Ll6, C.T3, D.T4, C.Rh2, D.Rh3)


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes –
Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

Rhaid i **drafodion ariannol** cymhleth gynnwys y canlynol: gwerthiannau a phryniadau a ddychwelwyd, disgownt a ganiatawyd ac a dderbyniwyd, cofnodi dibrisiant (dylid nodi'r swm), drwgddyledion.

Rhaid i gofnodion **cysoniad banc** cymhleth gynnwys: sieciau heb eu talu ac wedi'u hatal, sieciau wedi darfod, llog banc, defnyddio llyfr arian a/neu ddatganiad banc sydd wedi'i ordynnu.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio adroddiad ysgrifenedig sy'n gwerthuso pwysigrwydd adrodd a chofnodi trafodion ariannol yn fanwl gywir, gan gynnwys cysoniad banc, er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol fanwl gywir.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cofnodi trafodion ariannol mwy cymhleth o holl amrediad llyfrau cofnodi gwreiddiol. Byddant wedyn yn llunio set fwy cynhwysfawr o gyfrifon cyfriflyfr cofnodi dwbl a thynnu mantolen brawf o set benodol o ddogfennau a chofnodion ariannol. Yn ogystal, bydd y dysgwyr yn llunio cysoniad banc cymhleth o set benodol o ddogfennau busnes a chofnodion ariannol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cofnodi trafodion ariannol o nifer o wahanol lyfrau cofnodi gwreiddiol; cwblhau cyfrifon cofnodi dwbl a thynnu mantolen brawf o set benodol o ddogfennau a chofnodion ariannol. Byddant yn paratoi'n fanwl gywir gysoniad banc o set benodol o gofnodion ariannol.

### Nodau dysgu C a D

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio adroddiad ysgrifenedig yn gwerthuso pwysigrwydd mecanweithiau rheoli wrth gofnodi trafodion ariannol. Nodir mathau o wallau a bydd y dysgwyr yn gwerthuso goblygiadau'r gwallau hyn a chofnodion ariannol anghywir yn nhermau llwyddiant y busnes penodol. Bydd y dystiolaeth asesu a gyflwynir gan y dysgwyr yn dangos eu gallu i weithio'n fanwl gywir, yn unigol ac yn annibynnol yn gyson.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn nodi a chywiro gwallau cymhleth yn y cyfrifon rheoli a'r rhestr o ddyledwyr a chredydwyr, ac yn dadansoddi buddion cyfrifon rheoli wrth sicrhau rheolaeth ariannol. Bydd y dysgwyr yn dangos eu bod wedi dadansoddi effaith gwallau mewn cofnodion cyfrifo ar gyfrifon terfynol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn llunio tystiolaeth ysgrifenedig yn esbonio'r mathau o wallau sy'n codi mewn cofnodion cyfrifo. Hefyd bydd y dysgwyr yn llunio cyfrifon rheoli syml sydd heb fod angen cyfrifon dros dro ar gyfer dyledwyr a chredydwyr o set benodol o drafodion, ynghyd â set ddiwygiedig o gyfrifon yn dangos eu gallu i nodi a chywiro gwallau penodol. Bydd y dysgwyr yn gwneud cofnodion mewn dyddlyfr i gefnogi cywiro gwallau.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 3: Cyllid Personol a Busnes
- Unit 7: Business Decision Making
- Unit 11: Final Accounts for Public Limited Companies
- Unit 12: Financial Statements for Specific Businesses
- Uned 13: Cyfrifydda Cost a Rheoli.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- llunio/cynnig syniadau i gyfrannu at aseiniadau uned/astudiaethau achos/ deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth fentora gan staff busnesau lleol.

# Uned 13: Cyfrifydda Cost a Rheoli

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio cyfrifydda cost a rheoli a'i ymwneud â chynllunio ariannol, cadw rheolaeth, monitro a gwerthuso costau busnes a refeniw.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae cyfrifwyr cost a rheoli'n mynd ati i ddarparu gwybodaeth i helpu'r broses gwneud penderfyniadau ym myd busnes. Mae cyfrifwyr cost yn ymwneud yn bennaf â nodi, dosbarthu a chyfrifo'r costau sy'n hanfodol i helpu rheolwyr i wneud penderfyniadau ynghylch prisiau ac elw posibl. Mae cyfrifwyr rheoli yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i reolwyr i ragamcanu a gwerthuso costau a chadw rheolaeth drostynt.

Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu sut i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o gyfrifon rheoli, eu cymhwyso, a'u rôl mewn cynllunio ariannol. Bydd dulliau cyfrifydda cost a chyllidebau nodweddiadol yn cael eu cymhwyso i sefyllfaoedd busnes priodol. Bydd mesurau rheolaeth yn gofyn am gyfrifo a dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng costau safonol a gwirioneddol. Yn olaf, ystyrir penderfyniadau cyfrifydda rheoli hirdymor gan ddefnyddio dulliau gwerthuso buddsoddiad cyfalaf. Mae mwy i gyfrifydda rheoli na chyfrifiadau rhifyddol; bydd angen i chi ddefnyddio'ch sgiliau dadansoddi i fesur a phwyso camau gweithredu amgen, asesu opsiynau a llunio barn a gwneud argymhellion rhesymedig.

Mae cysylltiad clir rhwng cyfrifydda cost a rheoli a'r holl unedau cyllid eraill a bydd yn eich helpu i symud ymlaen i gyflogaeth a phrentisiaethau cyfrifydda. Bydd yr uned hon yn sylfaen ardderchog ar gyfer llwybrau addysg uwch, megis cyrsiau cyfrifydda neu broffesiynol.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio technegau costio amsugno ac ymylol ar gyfer gwneud penderfyniadau

**B** Cyflawni costio safonol a llunio datganiadau dadansoddi amrywiant

**C** Archwilio cyllidebau ar gyfer cynllunio a chadw rheolaeth ariannol

**D** Mynd ati i werthuso buddsoddiad cyfalaf hirdymor.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio technegau costio amsugno ac ymylol ar gyfer gwneud penderfyniadau | **A1** Dosbarthiad costau a dulliau costio<br>**A2** Defnyddio dulliau costio<br>**A3** Dadansoddi dulliau costio | Adroddiad ysgrifenedig sy'n amlinellu'r gwahanol fathau o gostau, y prif ddulliau costio a'u defnyddiau.<br>Cyfrifo a chymhwyso costio amsugno ac ymylol o sefyllfa/ astudiaeth achos benodol.<br>Hefyd bydd yr adroddiad ysgrifenedig yn cymharu, cyferbynnu a gwerthuso defnyddioldeb technegau costio amsugno ac ymylol ac yn asesu arwyddocâd ffactorau anariannol.<br>Tabl o gyfrifiadau amrywiannau cyffredinol ac is-amrywiannau o sefyllfa/ astudiaeth achos benodol.<br>Adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio a dadansoddi'r amrywiannau.<br>Rhaid i'r adroddiad gynnwys y rhesymau posibl am yr amrywiannau cyffredinol a'r is-amrywiannau a'r berthynas rhyngddynt.<br>Bydd hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer amrywiannau y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt.<br>Adroddiad ysgrifenedig i esbonio'r prif fathau o gyllideb. Dadansoddiad o brif ddibenion cyllidebu fel offeryn rheoli wrth gynllunio a chadw rheolaeth. Gwerthusiad o fanteision a chyfyngiadau cyllidebau.<br>Gweithgareddau ymarferol i baratoi cyllidebau cyfansawdd, atodol ac arian addas. |
| **B** Cyflawni costio safonol a llunio datganiadau dadansoddi amrywiant | **B1** Pwrpas a chamau costio safonol<br>**B2** Mathau o amrywiannau a'u cyfrifo<br>**B3** Dadansoddi amrywiant | |
| **C** Archwilio cyllidebau ar gyfer cynllunio a chadw rheolaeth ariannol | **C1** Mathau a dibenion cyllidebau<br>**C2** Defnyddioldeb cadw rheolaeth ar gyllidebau<br>**C3** Paratoi cyllidebau | |
| **D** Mynd ati i werthuso buddsoddiad cyfalaf hirdymor | **D1** Dulliau gwerthuso buddsoddiad<br>**D2** Safbwyntiau ariannol ac anariannol | Cyfrifiad o'r tri phrif ddull gwerthuso buddsoddiad ar sail sefyllfa briodol. Gwerthusiad o'r cynigion buddsoddiad cyfalaf o safbwynt ariannol ac anariannol. Rhaid i'r cyflwynad gynnwys argymhelliad buddsoddiad cyfalaf wedi'i gyfiawnhau a'i gefnogi. |

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio technegau costio amsugno ac ymylol ar gyfer gwneud penderfyniadau

#### A1 Dosbarthiad costau a dulliau costio

- Y gwahaniaeth rhwng cyfrifydda cost a rheoli.
- Diffiniad o gost
  - costau sefydlog, e.e. rhent ac ardrethi, yswiriant, cyflogau
  - costau newidiol, e.e. deunyddiau crai, cydrannau, cyflogau cynhyrchu
  - costau lled-newidiol, e.e. gwres a golau, ffôn
  - gris-gostau
  - cyfanswm cost
  - cost uned.
- Canolfannau cost, gorbenion adrannol.
- Diffiniad o gostio amsugno ac ymylol a'u prif ddefnyddiau.

#### A2 Defnyddio dulliau costio

- Costio amsugno: dyrannu costau newidiol (uniongyrchol) i bob uned gynhyrchu, dosrannu costau sefydlog (gorbenion) i bob uned gynhyrchu.
- Cyfrifo cyfanswm cost (fesul uned) gan ddefnyddio costio amsugno, cyfrifo ychwanegiad a maint yr elw i bennu prisiau.
- Paratoi taflenni costio gorchwyl gan ddefnyddio costio amsugno, gan gynnwys cost newidiol, cost sefydlog, cyfanswm cost, ychwanegiad/maint yr elw a phris.
- Costio ymylol: dyrannu costau newidiol (uniongyrchol) yn unig i bob uned gynhyrchu.
- Cyfrifo a chymhwyso costio ymylol wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys: derbyn archebion arbennig, polisi gwneud neu brynu, ffactor cyfyngol/cyfyngiad.

#### A3 Dadansoddi dulliau costio

- Cymharu a chyferbynnu dulliau costio amsugno ac ymylol, buddion a chyfyngiadau costio amsugno ac ymylol, arwyddocâd ffactorau anariannol wrth ddefnyddio costio ymylol.

### Nod dysgu B: Cyflawni costio safonol a llunio datganiadau dadansoddi amrywiant

#### B1 Pwrpas a chamau costio safonol

- Diffiniad o gostio safonol, mathau o safonau: delfrydol a chyraeddadwy.
- Camau mewn costio safonol, gan gynnwys deunyddiau safonol, llafur a gorbenion.
- Manteision a chyfyngiadau costio safonol.

#### B2 Mathau o amrywiannau a'u cyfrifo

- Cyfrifo ac esbonio'r amrywiannau (ac is-amrywiannau) canlynol: amrywiannau deunyddiau (pris a defnydd), amrywiannau llafur (cyfradd ac effeithlonrwydd), amrywiannau gwerthiannau (pris a swm), amrywiannau gorbenion.

#### B3 Dadansoddi amrywiant

- Rhesymau am amrywiannau, gan gynnwys rhyngberthnasoedd is-amrywiannau, gan gynnwys amrywiant swm gwerthiannau a phris gwerthiannau, amrywiant cyfradd llafur ac effeithlonrwydd llafur, amrywiant pris deunyddiau a defnydd o ddeunyddiau.

### Nod dysgu C: Archwilio cyllidebau ar gyfer cynllunio a chadw rheolaeth ariannol

#### C1 Mathau a dibenion cyllidebau

- Pwysigrwydd cyllidebu o ran cynllunio gweithredol a thactegol gan reolwyr.
- Cyllidebau atodol, gan gynnwys cyllideb pryniadau, gwerthiannau, cynhyrchu, dyledwyr a chredydwyr, cyllideb arian.
- Cyllidebau cyfansawdd, gan gynnwys cyllideb elw a cholled a datganiad wedi'i gyllidebu o sefyllfa ariannol/mantolen.

- Sut mae paratoi cyllidebau, gan gynnwys safonau delfrydol a chyraeddadwy, cyllidebau sefydlog a hyblyg.
- Prif ddiben cyllidebau, gan gynnwys rhagamcanu, monitro, cadw rheolaeth, cynllunio, cydlynu, cyfathrebu a chymell.

**C2 Defnyddioldeb cadw rheolaeth ar gyllidebau**

- Dadansoddi amrywiant fel ffordd o fonitro a chadw rheolaeth ar gyllidebau, rheoli trwy eithriad (ymateb rheolwyr i ddadansoddi cyllidebau).
- Buddion a chyfyngiadau cadw rheolaeth ar gyllidebau, gan gynnwys dibynadwyedd data, anhyblygrwydd, cynorthwyo wrth gadw rheolaeth ar gostau a phennu prisiau, cymhelliad/ymwneud y staff, gwell ymwybyddiaeth o gadw rheolaeth ar gostau, ffactorau allanol.

**C3 Paratoi cyllidebau**

- Cyfrifo a chwblhau'r cyllidebau cyfansawdd ac atodol.

## Nod dysgu D: Mynd ati i werthuso buddsoddiad cyfalaf hirdymor

**D1 Dulliau gwerthuso buddsoddiad**

- Pwysigrwydd dulliau gwerthuso buddsoddiad o ran cynllunio strategol gan reolwyr, enghreifftiau o brosiectau hirdymor pum mlynedd o leiaf, e.e. prynu asedau sefydlog, cynlluniau ehangu, datblygu cynnyrch newydd.
- Diffiniad, diben a dadansoddiad o'r prif ddulliau gwerthuso buddsoddiad: talu'n ôl, cyfrifo cyfradd adennill a gwerth net cyfredol.
- Cyfrifo a chymhwyso llifoedd arian net, cyfnod talu'n ôl, cyfradd adennill cyfrifo, a gwerth net cyfredol.
- Y cysyniad o werth arian ar sail amser.

**D2 Safbwyntiau ariannol ac anariannol**

- Dadansoddi a gwerthuso cyfleoedd buddsoddi o safbwynt ariannol gan werthfawrogi pwysigrwydd amser, blaenoriaethau llif arian tymor byr a hir a rhinweddau cymharol pob dull.
- Dadansoddi a gwerthuso safbwyntiau anariannol, gan gynnwys cyfrifydda cymdeithasol a chyfrifoldeb, rhanddeiliaid allweddol (mewnol ac allanol), iechyd a diogelwch, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, diweithdra a moeseg.
- Argymhellion wedi'u cyfiawnhau ar gyfer cynigion buddsoddiad cyfalaf gan ddefnyddio ystyriaethau ariannol ac anariannol.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio technegau costio amsugno ac ymylol ar gyfer gwneud penderfyniadau** | | **A.Rh1** Gwneud argymhellion wedi'u cyfiawnhau i wella perfformiad ariannol y busnes yn y sefyllfaoedd penodol. |
| **A.Ll1** Categoreiddio ac esbonio'r gwahanol fathau o gostau a dulliau costio mewn sefyllfaoedd penodol.<br>**A.Ll2** Cynhyrchu datganiadau manwl gywir o gostau amsugno ac ymylol ar gyfer sefyllfaoedd penodol. | **A.T1** Asesu priodoldeb technegau costio amsugno ac ymylol a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd penodol. | |
| **Nod dysgu B: Cyflawni costio safonol a llunio datganiadau dadansoddi amrywiant** | | **BC.Rh2** Gwerthuso defnyddioldeb costio a systemau cadw rheolaeth i'r busnes. |
| **B.Ll3** Cyfrifo is-amrywiannau ac amrywiannau cyffredinol mewn sefyllfaoedd penodol gan ddefnyddio costio safonol. | **B.T2** Dadansoddi'r rhesymau am yr amrywiannau mewn sefyllfaoedd penodol. | |
| **Nod dysgu C: Archwilio cyllidebau ar gyfer cynllunio a chadw rheolaeth ariannol** | | |
| **C.Ll4** Esbonio sut mae cyllidebu'n cael ei ddefnyddio mewn busnes dewisedig at ddibenion cynllunio ariannol a chadw rheolaeth.<br>**C.Ll5** Paratoi cyllidebau cyfansawdd ac atodol manwl gywir mewn sefyllfa benodol. | **C.T3** Asesu dichonoldeb cyllidebau wedi'u cwblhau mewn sefyllfa benodol. | |
| **Nod dysgu D: Mynd ati i werthuso buddsoddiad cyfalaf hirdymor** | | **D.Rh3** Gwerthuso'r cynnig buddsoddiad cyfalaf hirdymor, gan roi sylw i ystyriaethau ariannol ac anariannol a llunio cyfres o argymhellion perthnasol a phriodol. |
| **D.Ll6** Cymhwyso dulliau gwerthuso buddsoddiad i gynigion buddsoddiad cyfalaf amgen mewn sefyllfaoedd penodol.<br>**D.Ll7** Esbonio sut mae ystyriaethau anariannol yn effeithio ar gynigion buddsoddiad cyfalaf. | **D.T4** Dadansoddi canlyniadau'r gwerthusiad o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer gwneud penderfyniadau. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A, B ac C (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, C.Ll4, C.Ll5, A.T1, B.T2, C.T3, A.Rh1, BC.Rh2)

Nod dysgu: D (D.Ll6, D.Ll7, D.T4, D.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A, B ac C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn defnyddio canlyniadau eu cyfrifiadau i wneud argymhellion wedi'u cyfiawnhau ar wella costio a pherfformiad cyllidebol y busnes i'r dyfodol yn y sefyllfa benodol. Byddant hefyd yn gwerthuso defnyddioldeb costio a rheolaeth gyllidebol gan ddefnyddio ymchwil annibynnol, ac enghreifftiau o'r sefyllfa benodol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos eu gallu i asesu sut gall y busnes yn y sefyllfa benodol ddefnyddio technegau costio amsugno ac ymylol i wneud penderfyniadau busnes priodol. Bydd y dysgwyr yn rhoi tystiolaeth o ddadansoddi a'r rhesymau pam mae is-amrywiannau i'w gweld a pha mor ddichonol bydd y cyllidebau gorffenedig.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn esbonio'r gwahanol fathau o gostau a dulliau costio mewn perthynas â sefyllfa benodol ac yn rhoi eglurhad ar sut mae'r busnes yn defnyddio cyllidebu wrth gynllunio'n ariannol a chadw rheolaeth. Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu datganiadau manwl gywir o gostau amsugno ac ymylol, is-amrywiannau ac amrywiannau cyffredinol a ddefnyddir mewn costio safonol, a chyllidebau cyfansawdd ac atodol manwl gywir.

### Nod dysgu D

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn defnyddio canlyniadau eu cyfrifiadau gwerthuso buddsoddiad, ynghyd ag ystyriaeth o ffactorau eraill i arfarnu gwerthuso buddsoddiad cyfalaf hirdymor. Disgwylir argymhellion wedi'u cefnogi a'u cyfiawnhau'n llawn hefyd.

Drwy gydol yr uned bydd y dystiolaeth asesu a gyflwynir gan y dysgwyr wedi dangos gwaith manwl gywir, unigol ac annibynnol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi canlyniadau eu cyfrifiadau gwerthuso buddsoddiad cyfalaf.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn gwneud cyfrifiadau manwl gywir gan ddefnyddio tair prif dechneg gwerthuso buddsoddiad, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig ar sut gall ffactorau anariannol, megis cynaliadwyedd a moeseg, effeithio ar y penderfyniad terfynol.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 3: Cyllid Personol a Busnes
- Unit 7: Business Decision Making
- Uned 10: Cofnodi Trafodion Ariannol
- Unit 11: Final Accounts for Public Limited Companies
- Unit 12: Financial Statements for Specific Businesses.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- llunio/cynnig syniadau i gyfrannu at aseiniadau uned/astudiaethau achos/ deunyddiau prosiect.

# Uned 14: Ymchwilio i Wasanaeth Cwsmeriaid

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio sut mae gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog yn cyfrannu at lwyddiant busnes. Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid.

## Cyflwyniad i'r uned

Beth yw'r cysylltiad rhwng gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog a llwyddiant busnes? Yn yr uned hon byddwch yn dysgu bod denu cwsmeriaid newydd yn fwy costus i fusnes na chadw'r rhai presennol, felly mae'n bwysig cadw cwsmeriaid presennol yn hapus. Gellir cyflawni hyn drwy feithrin perthynas â chwsmeriaid mewnol ac allanol a rhoi gwasanaeth ardderchog iddynt sy'n rhagori ar eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Pan fyddwch yn gweithio mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid bydd angen i chi ddeall pa weithdrefnau i'w dilyn wrth ddelio â cheisiadau neu gwynion cwsmeriaid. Bydd yr uned hon yn eich helpu i ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu wrth ddelio â chwsmeriaid, a deall pwysigrwydd gwybodaeth dda am y cynnyrch neu'r gwasanaeth. Byddwch yn archwilio sut mae busnes yn meithrin perthynas effeithiol â chwsmeriaid drwy ganfod a chadarnhau anghenion cwsmeriaid. Byddwch yn archwilio sut mae busnesau'n monitro ac yn gwerthuso lefel y gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir ganddynt drwy geisio adborth a byddwch yn gweld sut mae hyn yn helpu hysbysu gwelliannau i lefel y gwasanaeth a ddarperir.

Bydd yr uned hon yn eich galluogi i werthuso'ch sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid eich hun a chreu cynllun datblygu ar gyfer gwelliant. Hefyd, mae'r uned hon yn cefnogi hyfforddiant pellach, astudiaethau neu gyflogaeth mewn amgylchedd busnes.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

**A** Archwilio sut mae gwasanaeth cwsmeriaid effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes

**B** Ymchwilio i'r dulliau a ddefnyddir i wella gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes

**C** Arddangos gwasanaeth cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan ddefnyddio ymddygiad priodol i fodloni disgwyliadau.

## Crynodeb o'r uned

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Archwilio sut mae gwasanaeth cwsmeriaid effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes</td><td>A1 Gwasanaeth cwsmeriaid ym myd busnes<br>A2 Disgwyliadau a bodlonrwydd cwsmeriaid<br>A3 Manteision meithrin perthynas â chwsmeriaid<br>A4 Deddfwriaeth a rheoliadau gwasanaeth cwsmeriaid</td><td rowspan="2">Adroddiad sy'n archwilio'r ddarpariaeth/broses gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes a gwerth darparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog i gefnogi llwyddiant busnes. Paratoi llawlyfr hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer busnes dewisedig, gan gynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.<br>Dylai'r adroddiad gynnwys hefyd y dulliau monitro a ddefnyddir i adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid a dylai gael ei seilio ar ddata meintiol ac ansoddol.</td></tr>
<tr><td>B Ymchwilio i'r dulliau a ddefnyddir i wella gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes</td><td>B1 Monitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid<br>B2 Dangosyddion o ran gwell perfformiad</td></tr>
<tr><td>C Arddangos gwasanaeth cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan ddefnyddio ymddygiad priodol i fodloni disgwyliadau</td><td>C1 Sgiliau ac ymddygiad gwasanaeth cwsmeriaid<br>C2 Delio â cheisiadau a chwynion gwasanaeth cwsmeriaid<br>C3 Awdit sgiliau unigol a chynllun datblygu</td><td>Arddangos sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid mewn o leiaf dair sefyllfa fusnes wahanol. Canolbwyntio ar ddangos gwybodaeth am y cynnyrch/gwasanaeth wrth ddelio ag ymholiadau, ceisiadau a phroblemau cwsmeriaid. Cynllun datblygu sy'n asesu sut mae gwella sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid i ddiwallu anghenion personol a busnes.</td></tr>
</table>

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Archwilio sut mae gwasanaeth cwsmeriaid effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes

### A1 Gwasanaeth cwsmeriaid ym myd busnes

- Diffiniad o wasanaeth cwsmeriaid.
- Rolau gwasanaeth cwsmeriaid a phwysigrwydd gwaith tîm.
- Pwysigrwydd dilyn rheolau a gweithdrefnau sefydliadol.
- Mae ymagweddau gwahanol at wasanaeth cwsmeriaid ar draws diwydiannau yn galw am wahanol sgiliau a gwybodaeth, megis:
  - siopau adwerthu sy'n gwerthu nwyddau cyffyrddadwy, angen am wybodaeth fanwl o'r cynnyrch a sgiliau gwerthu effeithiol
  - swyddfeydd, fel y rhai hynny sy'n cynnig gwasanaeth anghyffyrddadwy, naill ai wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, neu gyswllt cwsmeriaid ar-lein, yn ysgrifenedig neu dros y ffôn
  - canolfannau cyswllt sy'n cysylltu â chwsmeriaid dros y ffôn, cyfyngiadau amser
  - diwydiant lletygarwch, megis sgiliau gweini bwyd neu ddiodydd.

### A2 Disgwyliadau a bodlonrwydd cwsmeriaid

- Mathau gwahanol o gwsmeriaid, gan gynnwys:
  - cwsmeriaid mewnol ac allanol a'r gwahaniaethau rhyngddynt
  - personoliaethau cwsmeriaid, megis ymosodol, tawel, gofyn llawer
  - cwsmeriaid â gofynion arbennig, e.e. iaith neu ddiwylliant gwahanol, oedran, rhywedd, teuluoedd, anghenion arbennig o ran gweld, clywed neu symud.
- Cwynion cwsmeriaid:
  - deall y risg i'r busnes os na fydd yn delio â chwynion.
- Disgwyliadau a bodlonrwydd cwsmeriaid, gan gynnwys:
  - disgwyl gwasanaeth da, gwybodaeth neu wasanaeth dibynadwy, cynnig opsiynau eraill, effaith hysbysebu, enw da, argymhellion ar lafar, argymhellion gan bobl eraill
  - pwysigrwydd ymateb i anghenion cwsmeriaid, rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid drwy ddarparu cymorth ychwanegol, delio â phroblemau'n ddi-oed, cynnig gostyngiadau, cynnig cynnyrch neu wasanaethau ychwanegol, darparu cymorth eithriadol i gwsmeriaid sydd â gofynion arbennig
  - cydbwyso bodlonrwydd cwsmeriaid â nodau ac amcanion busnes.

### A3 Manteision meithrin perthynas â chwsmeriaid

- Gwella enw da'r busnes.
- Cwsmeriaid sy'n dychwelyd.
- Hyder cwsmeriaid yn y busnes.
- Boddhad cyflogeion yn y gwaith.

### A4 Deddfwriaeth a rheoliadau gwasanaeth cwsmeriaid

- Codau ymarfer, materion moesegol a safonau sy'n benodol i ddiwydiant neu sector arbennig.
- Goblygiadau i'r busnes os nad yw'n cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol, gan gynnwys diogelu defnyddwyr, gwerthu o bell, gwerthu nwyddau, iechyd a diogelwch, diogelu data, cyfle cyfartal.

## Nod dysgu B: Ymchwilio i'r dulliau a ddefnyddir i wella gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes

### B1 Monitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid

- Defnyddio ymchwil cwsmeriaid i nodi gwelliannau a monitro cwynion.
- Monitro gan ddefnyddio:
  - proffiliau cwsmeriaid, data, e.e. mathau o gwsmeriaid, cynnyrch neu wasanaethau a ddarperir, gofal cwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid
  - ffynonellau gwybodaeth, e.e. cwsmeriaid, cydweithwyr, rheolwyr
  - dulliau, e.e. holiaduron, cardiau sylwadau, cylchoedd ansawdd, blychau awgrymiadau arolygon staff, siopwyr dirgel, cofnodi a rhannu gwybodaeth.
- Gwerthuso gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys:
  - dadansoddi ymatebion, e.e. lefel bodlonrwydd cwsmeriaid, ansawdd y cynnyrch neu'r gwasanaeth, cydymffurfio â gofynion rheoliadaol, cydbwyso costau a manteision
  - cynllunio ar gyfer newid, datrys problemau/cwynion.

### B2 Dangosyddion o ran gwell perfformiad

- Gostyngiad yn nifer y cwynion.
- Cynnydd mewn elw.
- Gostyngiad mewn trosiant staff.
- Busnes mynych gan gwsmeriaid teyrngar.

## Nod dysgu C: Arddangos gwasanaeth cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan ddefnyddio ymddygiad priodol i fodloni disgwyliadau

### C1 Sgiliau ac ymddygiad gwasanaeth cwsmeriaid

- Sgiliau cyfathrebu:
  - wyneb yn wyneb, ysgrifenedig, e-bost neu gyfryngau electronig eraill, ffôn
  - geiriol, e.e. traw a thôn y llais, cwestiynau agored a chaeëdig, defnyddio'r ffôn
  - dieiriau, e.e. iaith arwyddion a iaith y corff, sgiliau gwrando
  - rhwystrau i gyfathrebu.
- Sgiliau rhyngbersonol:
  - ymarweddiad personol, e.e. agwedd, ymddygiad, hylendid, personoliaeth, sgiliau sgwrsio, gan roi ymateb cyson a dibynadwy.
- Ymddygiad, e.e. bod yn bositif, cynnig cymorth, dangos parch.

### C2 Delio â cheisiadau a chwynion gwasanaeth cwsmeriaid

- Sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid:
  - darparu gwybodaeth, cynnyrch neu wasanaethau, hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau ychwanegol, rhoi cyngor, cymryd a throsglwyddo negeseuon
  - cyfyngiadau rôl ac awdurdod, cadw cofnodion
  - delio â phroblemau, trin cwynion, mesurau adferol, argyfyngau, polisïau sefydliadol.

### C3 Awdit sgiliau unigol a chynllun datblygu

- Awdit o sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid.
- Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) personol i asesu unrhyw fylchau, e.e. sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu – iaith y corff, sgiliau gwrando, delio â chwynion, gweithio gydag eraill.
- Pennu amcanion o ran cyflawni nodau datblygu sgiliau ar gyfer rôl gwasanaeth cwsmeriaid benodol trwy:
  - nodi'r adnoddau a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcanion
  - pennu dyddiadau adolygu
  - monitro'r cynllun i asesu cynnydd yn erbyn targedau.


 © Pearson Education Limited 2022

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio sut mae gwasanaeth cwsmeriaid effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant busnes** | | |
| **A.Ll1** Disgrifio dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid mewn diwydiannau gwahanol.<br>**A.Ll2** Archwilio sut gall gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes dewisedig gyflawni disgwyliadau a bodlonrwydd cwsmeriaid a chydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol perthnasol. | **A.T1** Dadansoddi sut mae deddfwriaeth a rheoliadau'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes dewisedig. | **A.Rh1** Gwerthuso pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog a chydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol i fusnes dewisedig. |
| **Nod dysgu B: Ymchwilio i'r dulliau a ddefnyddir i wella gwasanaeth cwsmeriaid mewn busnes** | | |
| **B.Ll3** Ymchwilio i'r dulliau y gall busnes eu defnyddio i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid. | **B.T2** Dadansoddi dulliau gwahanol o fonitro gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth mewn busnes dewisedig. | **B.Rh2** Gwerthuso manteision gwella perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid o safbwynt y busnes, y cwsmer a'r cyflogai. |
| **Nod dysgu C: Arddangos gwasanaeth cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan ddefnyddio ymddygiad priodol i fodloni disgwyliadau** | | |
| **C.Ll4** Dangos sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu sy'n briodol i ddiwallu anghenion cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol.<br>**C.Ll5** Myfyrio ar eich sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid eich hun, gan nodi bylchau lle gellid gwneud gwelliannau.<br>**C.Ll6** Cyflwyno cynllun datblygu eglur ac effeithiol o'ch sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid eich hun. | **C.T3** Asesu sut gall y cynllun datblygu wella perfformiad sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid. | **C.Rh3** Dangos menter wrth wneud argymhellion o safon uchel wedi eu cyfiawnhau i ddatblygu'ch sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid a busnesau. |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o’r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma’r berthynas rhwng y nodau dysgu a’r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll4, C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon bydd angen i'r dysgwyr gyrchu ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn paratoi tystiolaeth ar sail ymchwil. Bydd y dysgwyr yn rhoi manylion am yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaeth cwsmeriaid da yn arwain at lwyddiant busnes. Bydd gofyn bod enghreifftiau o sut i wella gwasanaeth cwsmeriaid yn rhai gwreiddiol ac yn dangos dychymyg. Bydd y dystiolaeth yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a sut mae busnes yn sicrhau ei fod yn rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid. Bydd enghreifftiau clir o ddulliau monitro ac effeithiolrwydd gwasanaeth cwsmeriaid wrth sicrhau bod cwsmeriaid yn hapus.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi enghreifftiau o sut mae deddfwriaeth a rheoliadau'n effeithio ar wasanaeth cwsmeriaid. Bydd manylion am sut i wneud gwelliannau a monitro gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu cynnwys, ynghyd ag enghreifftiau o arfer da.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn paratoi tystiolaeth sy'n cwmpasu ymagweddau busnesau o ran gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys manylion am sut gellir gwneud gwelliannau.

### Nod dysgu C

Caiff y nod dysgu hwn ei gwblhau drwy nifer o sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid neu, os bydd dysgwr yn gweithio'n rhan amser ym maes gwasanaeth cwsmeriaid, gellir cynnwys tystiolaeth go iawn o'r gwaith ar ffurf datganiadau tyst. Datblygir gweithgareddau a chwarae rôl er mwyn herio'r dysgwyr a dylent gynnwys delio â sefyllfaoedd anodd.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio cynllun datblygu ar ôl cymryd rhan yn y sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd y cynllun yn rhoi manylion realistig am sut bydd angen iddynt weithio ar eu setiau sgiliau eu hunain i wella eu sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a'u sgiliau cyfathrebu. Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu hunan-arfarniad eglur sy'n tynnu sylw at eu cryfderau a'u gwendidau. Byddant wedi ymdaflu i'r sefyllfaoedd chwarae rôl, gan ddangos eu sgiliau'n hyderus a bod yn flaengar wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynllun datblygu dadansoddol eglur sy'n dangos sut y dylid gwella'u sgiliau. Byddant wedi cyfranogi'n dda mewn sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid gan ddangos hyder ym mhob un o'r gweithgareddau.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn dangos sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a sgiliau cyfathrebu effeithiol yn y sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid a byddant wedi datblygu cynllun realistig ar gyfer mynd i'r afael â gwendidau.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Uned 15: Ymchwilio i Fyd Busnes Adwerthu
- Unit 25: Aspects of Civil Law Affecting Business
- Unit 26: Aspects of Criminal Law Impacting on Business and Individuals.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd a chyfleoedd cyfweliad
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- ymweliadau â busnesau priodol.

# Uned 15: Ymchwilio i Fyd Busnes Adwerthu

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio strwythur cyfredol y sector adwerthu a'i gadwyn gyflenwi trwy weithgareddau ymarferol.

## Cyflwyniad i'r uned

Sector eang yw adwerthu sy'n cwmpasu busnesau o bob maint. Mae'n debygol bod gennych eisoes rywfaint o brofiad o'r sector, naill ai drwy brynu nwyddau, neu eu gwerthu – efallai wrth weithio'n rhan amser mewn siop ddillad neu fwyd.

Yn yr uned hon, byddwch chi'n ymchwilio i fusnesau adwerthu cenedlaethol a lleol, ac yn archwilio sut mae'r gadwyn gyflenwi'n cefnogi adwerthu. Byddwch yn ystyried sut mae'r sector yn ymateb i newid, y cyfleoedd am gyflogaeth yn y sector, a'r mathau o rolau swyddi sydd ar gael. Byddwch yn cymhwyso'ch ymchwil a'ch canfyddiadau i fusnesau cyfredol yn y sector.

Mae adwerthu'n bwysig i economi'r Deyrnas Unedig ac yn aml bydd tueddiadau ym maes gwerthiannau adwerthu'n adlewyrchu rhai economi'r wlad yn ei chyfanrwydd. Mae'n sector sydd â chyfleoedd da i'ch gyrfa yn y dyfodol ac mae yna draddodiad ymhlith y cyflogwyr mwy o faint o gynnig cynlluniau hyfforddiant mewnol rhagorol sy'n cefnogi cyfleoedd i gyflogeion gamu ymlaen yn eu gyrfa a dringo'r ysgol yrfa. Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle defnyddiol i chi ystyried a ydych am symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth arbenigol bellach ym maes rheoli adwerthu ar lefel addysg uwch.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio strwythur cyfredol y sector trwy ymchwilio i'r amgylchedd adwerthu lleol

**B** Ymchwilio i sut mae'r sector adwerthu wedi ymateb i newid a thueddiadau

**C** Edrych ar bwysigrwydd rheoli'r gadwyn gyflenwi a rheoli stoc i lwyddiant busnes adwerthu.

## Crynodeb o'r uned

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Archwilio strwythur cyfredol y sector trwy ymchwilio i'r amgylchedd adwerthu lleol</td><td>A1 Natur adwerthu<br>A2 Dosbarthiad adwerthwyr<br>A3 Strwythur adwerthu<br>A4 Cyflogaeth ym maes adwerthu</td><td rowspan="2">Cyflwyniad unigol gyda thaflen ac adroddiad yn dilyn ymchwiliad manwl o natur, strwythur a dosbarthiad y sector adwerthu yn y Deyrnas Unedig a chyfleoedd cyflogaeth yn lleol.<br>Effaith newid ar yr amgylchedd adwerthu yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang a sut mae busnesau adwerthu'n ymateb i'r newidiadau, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddau gwmni adwerthu dewisedig o'r Deyrnas Unedig. Cyfweliad â chyflogeion cyfredol i weld sut mae newidiadau wedi effeithio ar fusnesau adwerthu penodol.</td></tr>
<tr><td>B Ymchwilio i sut mae'r sector adwerthu wedi ymateb i newid a thueddiadau</td><td>B1 Yr amgylchedd adwerthu<br>B2 Effaith newid cymdeithasol<br>B3 Newidiadau yn sgîl technolegau newydd a ddefnyddir yn y sector<br>B4 Yr amgylchedd cystadleuol a thueddiadau</td></tr>
<tr><td>C Edrych ar bwysigrwydd rheoli'r gadwyn gyflenwi a rheoli stoc i lwyddiant busnes adwerthu</td><td>C1 Sianeli dosbarthu<br>C2 Cadwyni cyflenwi adwerthu a phrosesau logisteg<br>C3 Rheoli stoc<br>C4 Effaith technoleg ddigidol</td><td>Adroddiad ysgrifenedig yn edrych ar rôl adwerthu fel rhan o'r gadwyn gyflenwi. Edrych ar effaith technoleg ddigidol ar yr holl gyfranogwyr yn y gadwyn gyflenwi. Dylid dethol dau fusnes adwerthu gwahanol.</td></tr>
</table>



 © Pearson Education Limited 2022

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio strwythur cyfredol y sector trwy ymchwilio i’r amgylchedd adwerthu lleol

#### A1 Natur adwerthu

- Diffiniad o adwerthu, ychwanegu gwerth at gynnyrch a gwasanaethau, datblygiad adwerthu, bodloni anghenion cwsmeriaid trwy wahanol fformatau adwerthu a sianeli dosbarthu, e.e. siopa ar y stryd fawr, canolfannau siopa ar gyrion y dref, danfon yn uniongyrchol o archebion ar y rhyngrwyd, briciau a chliciau.

#### A2 Dosbarthiad adwerthwyr

- Mewn siop, heb fod mewn siop, adwerthu cynnyrch/gwasanaeth.
- Perchnogaeth, e.e. annibynnol, lluosog, siopau cadwyn, rhyddfreiniau, cydweithfeydd, mentrau cymdeithasol
  - maint, e.e. nifer y cyflogeion, maes gwerthiant, nifer y canghennau, trosiant, math o weithgaredd, amrediad cynnyrch
  - lleoliad, e.e. canol y dref, lleol, ar gyrion y dref, parciau adwerthu, canolfannau rhanbarthol
  - fformatau siopau, e.e. siopau cyfleustra, siopau adrannol, archfarchnadoedd, uwcharchfarchnadoedd, arbenigol/*niche*, premiwm/gwerth am arian.

#### A3 Strwythur adwerthu

- Is-sectorau adwerthu, e.e. bwyd, ffasiwn, chwaraeon.
- Modelau busnes a ddefnyddir gan fusnesau adwerthu: eu manteision a’u hanfanteision, e.e. siopau gwerth am arian, siopau brandiau premiwm, siopau *artisan*.

#### A4 Cyflogaeth ym maes adwerthu

- Rolau swyddi, hyfforddiant a rhagolygon dyrchafiad mewn busnesau bach a mawr.

### Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae’r sector adwerthu wedi ymateb i newid a thueddiadau

#### B1 Yr amgylchedd adwerthu

- Macro-amgylchedd, e.e. ffactorau allanol gan gynnwys ffactorau gwleidyddol, cyfreithiol, economaidd, diwylliannol-gymdeithasol a thechnolegol.
- Ymateb i newidiadau allanol, e.e. cynnyrch newydd, fformatau ar-lein newydd, polisi’r llywodraeth ar oriau masnachu siopau a chaniatâd cynllunio.
- Tensiynau a blaenoriaethau sy’n anghyson â’i gilydd, e.e. ad-drefnu mewn ymateb i amgylchiadau newidiol, materion amgylcheddol, cynaliadwyedd, masnach deg, pecynnu.

#### B2 Effaith newid cymdeithasol

- Demograffeg, deiliadaeth aelwydydd, symudedd, technolegau newydd, cymunedau amrywiol, poblogaeth sy’n heneiddio, mudo, ffyrdd newidiol o fyw, gwahaniaethau diwylliannol, amser hamdden.

#### B3 Newidiadau yn sgîl technolegau newydd a ddefnyddir yn y sector

- Twf siopa ar-lein.
- Apiau siopa ar gyfer ffonau symudol.
- Taliad digyffwrdd a Sglodyn a *PIN*.

#### B4 Yr amgylchedd cystadleuol a thueddiadau

- Cystadleuwyr, safle yn y farchnad, rhwystrau i fynediad, prisio, datblygu cynnyrch.
- Cynnyrch a gwasanaethau newydd, grym adwerthwyr dros weithgynhyrchwyr, cysyniadau adwerthu newydd, h.y. siopau menter gymdeithasol.
- Dylanwadau byd-eang ar adwerthu yn y Deyrnas Unedig.

## Nod dysgu C: Edrych ar bwysigrwydd rheoli'r gadwyn gyflenwi a rheoli stoc i lwyddiant busnes adwerthu

### C1 Sianeli dosbarthu

- Argaeledd cynhyrchion, e.e. amser, lle, nifer, symud nwyddau trwy'r gadwyn gyflenwi, gwahanol sianeli ar gyfer mathau gwahanol o nwyddau a gwasanaethau, rôl cyfanwerthwyr, cyfryngwyr, cludiant, storio, gwasanaeth ôl-werthu.

### C2 Cadwyni cyflenwi adwerthu a phrosesau logisteg

- Symud nwyddau a gwasanaethau, cyrchu o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, cyflenwyr, dosbarthwyr, cadw mewn warws, cludiant, cludwyr, lleoliadau storio, gwaredu cynhyrchion heb eu gwerthu, ailgylchu, effaith TGCh ar reoli cadwyni cyflenwi.
- Anawsterau cadwyn gyflenwi sy'n anghyson â'i gilydd, e.e. cyfathrebu, cydlynu, cydweithredu, costau, oedi, targedau, anawsterau grym mewn cadwyni.

### C3 Rheoli stoc

- Cysylltiadau â marsiandïo, amcanion busnes.
- Mathau o reoli stoc, e.e. â llaw a chyfrifiadurol.
- Ffactorau sy'n effeithio ar reoli stoc, e.e. rhagolygon gwerthiant, cynllunio, targedau, risgiau.
- Rheoli stoc, e.e. rheolaeth lwyr ar ansawdd (TQM), systemau rheoli stoc: Mewn Union Bryd (JIT), yr Olaf i Mewn, y Cyntaf Allan (LIFO), y Cyntaf i Mewn, y Cyntaf Allan (FIFO).
- Systemau diogeledd rheoli stoc, e.e. teledu cylch cyfyng a thagiau.

### C4 Effaith technoleg ddigidol

- Llif gwybodaeth, gwybodaeth am gyflenwad a galw rhwng cyflenwyr a chwsmeriaid, B2B a B2C, EDI, masnachu electronig ac ar y rhyngrwyd, rhwydweithiau, mewnrwydi, e-fasnach, systemau integredig.
- Systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM), Pwynt Gwerthu Electronig (EPOS), Trosglwyddo Arian yn Electronig yn y Pwynt Gwerthu (EFTPOS), systemau rheoli stoc, archebu di-ddwylo.


 © Pearson Education Limited 2022

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio strwythur cyfredol y sector trwy ymchwilio i'r amgylchedd adwerthu lleol** | | |
| **A.Ll1** Archwilio'r ddarpariaeth adwerthu yn eich ardal leol gan gynnwys ei natur a'i strwythur cyfredol.<br>**A.Ll2** Ymchwilio i'r ystod o rolau swyddi, pwyntiau mynediad a chyfleoedd am ddilyniant sydd ar gael yn lleol mewn busnesau adwerthu cyferbyniol. | **A.T1** Dadansoddi sut mae busnesau adwerthu lleol wedi'u strwythuro er mwyn bodloni anghenion amrywiol cwsmeriaid. | **AB.Rh1** Gwerthuso sut mae tueddiadau a newidiadau ym marchnad defnyddwyr y Deyrnas Unedig wedi effeithio ar ddau fusnes adwerthu cenedlaethol cyferbyniol. |
| **Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae'r sector adwerthu wedi ymateb i newid a thueddiadau** | | |
| **B.Ll3** Esbonio sut mae'r amgylchedd adwerthu a thueddiadau cymdeithasol yn effeithio ar fusnes adwerthu lleol. | **B.T2** Asesu sut mae gallu busnes adwerthu i ymateb i newid yn gwella ei gystadleurwydd. | |
| **Nod dysgu C: Edrych ar bwysigrwydd rheoli'r gadwyn gyflenwi a rheoli stoc i lwyddiant busnes adwerthu** | | |
| **C.Ll4** Esbonio'r gwahaniaethau yn y broses dosbarthu nwyddau trwy sianeli gwahanol o'r gweithgynhyrchydd i'r cwsmer mewn dau fusnes.<br>**C.Ll5** Ymchwilio i effaith technoleg ddigidol ar brosesau adwerthu a logisteg dau fusnes cyferbyniol. | **C.T3** Dadansoddi effaith datblygiadau technolegol digidol ar adwerthu, y gadwyn gyflenwi a rheoli stoc. | **C.Rh2** Gwerthuso effeithiolrwydd y gadwyn gyflenwi a rheoli stoc ar lwyddiant busnes adwerthu penodol.<br>**C.Rh3** Gwerthuso'r effaith mae technoleg ddigidol wedi'i chael ar fusnes adwerthu penodol. |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, A.T1, B.T2, AB.Rh1)

Nod dysgu: C (C.Ll4, C.Ll5, C.T3, C.Rh2, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac o adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn dewis dau fusnes adwerthu gwahanol ac yn darparu gwerthusiad unigol o sut mae datblygiadau a newid yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd wedi effeithio ar y ddau fusnes adwerthu penodol hyn. Dylid rhoi enghreifftiau clir o sut a pham yn dystiolaeth. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn gysylltiedig ag agor siopau llai mewn lleoliadau dethol, creu partneriaethau, uno, caffael, mynd i farchnadaoedd newydd neu newidiadau i batrymau cyflogaeth. Disgwylir cael dwy enghraifft o newid yn achos y naill fusnes a'r llall yn y gwerthusiad.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i strwythur busnesau adwerthu gwahanol ac yn adrodd arno, byddant yn dethol busnesau o wahanol is-sectorau o'r ardal adwerthu a modelau busnes a fyddai'n diwallu anghenion cwsmeriaid yn yr ardal honno. Bydd y dysgwyr yn asesu sut mae un busnes adwerthu wedi ymateb i newid. Bydd rhaid wrth asesiad manwl gydag enghreifftiau'n ymwneud â sut mae hyn wedi gwella ei gystadleurwydd. Gall rhywfaint o'r dystiolaeth am hyn ddeillio o gyfweliad a gynhaliwyd gydag aelod o'r proffesiwn adwerthu.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn dangos yn glir gyfansoddiad y cyfleusterau adwerthu lleol. Cynhwysir tystiolaeth am gyflogaeth a rolau swyddi mewn busnesau cyferbyniol yn y sector. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys esboniad ar sut mae'r sector adwerthu wedi ymateb i newid a thueddiadau efallai trwy symleiddio ei weithrediadau, ehangu ar draws y byd, edrych ar faint a lleoliad ei safleoedd adwerthu neu arallgyfeirio.

### Nod dysgu C

Bydd ymchwil unigol ar sail ymweliadau â busnesau adwerthu a chyfweliadau â chyflogeion o gymorth wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr aseiniad hwn.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwerthuso pa mor bwysig fu rheoli'r gadwyn gyflenwi a rheoli stoc mewn un busnes penodoll. Mae'n bwysig dewis y busnes cywir er mwyn datblygu gwerthusiad unigol manwl. Rhaid i'r gwerthusiad gael ei gefnogi gan enghreifftiau priodol. Hefyd, bydd y dysgwyr yn gwerthuso sut mae technoleg ddigidol wedi effeithio ar yr amrediad o brosesau mewn busnes adwerthu dewisedig.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi, trwy gyfeirio at un is-sector, sut mae datblygiadau ym maes technoleg ddigidol wedi effeithio ar adwerthu, y gadwyn gyflenwi a sut cânt eu defnyddio i reoli stoc a monitro danfon nwyddau at y defnyddiwr terfynol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r broses ddosbarthu o weithgynhyrchu i'r cwsmer terfynol mewn dau fusnes gwahanol. Mae angen i'r busnesau fod yn ddigon gwahanol a dylid esbonio'r gwahaniaethau'n glir. I sicrhau cyferbyniad gall y dysgwyr ddethol busnesau o wahanol is-sectorau fel bod amrywiaeth o ran prosesau. Bydd angen esbonio'r dulliau rheoli stoc yn y gwahanol fusnesau. Bydd angen hefyd iddynt esbonio pwysigrwydd technoleg ddigidol i'r broses adwerthu a logisteg, a pham mae systemau rheoli stoc integredig yn bwysig.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae’r uned hon yn cysylltu â’r canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Uned 14: Ymchwilio i Wasanaeth Cwsmeriaid
- Uned 16: Marsiandïo Gweledol
- Uned 27: Profiad Gwaith ym Myd Busnes.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai’r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd a chyfleoedd i gael cyfweliad
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- bod yn rhan o gynulleidfa sy’n asesu cyflwyniadau
- ymweliadau â busnesau priodol.

# Uned 16: Marsiandïo Gweledol

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio'r arferion a'r technegau a ddefnyddir i hyrwyddo'n weledol werthiant cynhyrchion mewn safleoedd adwerthu.

## Cyflwyniad i'r uned

Bob tro y byddwch yn mynd i ganolfan siopa, byddwch yn gweld arddangosfeydd cyffrous, sy'n dal eich sylw, a ddyluniwyd er mwyn annog gwerthu cynnyrch neu wasanaethau. Marsiandïo gweledol (VM) yw crefft cyflwyno siopau mewn ffyrdd a fydd yn denu ac yn apelio at gwsmeriaid. Mae arddangosfeydd ffenestr a mewnol, lleoli cynnyrch a thechnegau hyrwyddo effeithiol i gyd yn agweddau pwysig ar farsiandïo gweledol, a luniwyd er mwyn cynyddu nifer y cwsmeriaid mewn siopau a maint gwerthiannau.

Yn yr uned hon, byddwch yn edrych ar wahanol dechnegau marsiandïo gweledol ac arddangos. Bydd y technegau hyn yn amrywio yn ôl math a maint y busnes adwerthu a'r cynnyrch sydd ar werth ganddo. Os yw cwsmeriaid i gael eu perswadio i wario arian mae rhaid rhoi ystyriaeth i lawer o faterion, megis iechyd a diogelwch a deddfwriaeth arall, ynghyd â ffactorau creadigol a seicolegol.

Bydd yr uned hon yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r elfennau a ddefnyddir i greu arddangosfeydd deniadol, gan gynnwys gwybodaeth am y cynnyrch, lliw, golau, lle, arogl, cyffwrdd a sain. Gellir defnyddio technoleg ddigidol hefyd i greu arddangosfeydd a gosodiadau rhyngweithiol. Bydd gennych gyfle i archwilio ac arddangos rhai o'r sgiliau a'r technegau ymarferol sy'n cael eu defnyddio gan adwerthwyr i demtio cwsmeriaid i mewn i'w siopau. Bydd yr uned hon hefyd yn eich helpu i benderfynu a hoffech weithio yn y maes neu astudio'r maes hwn ymhelllach.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio sut mae safleoedd adwerthu'n cymhwyso technegau marsiandïo gweledol ac arddangos yn unol â deddfwriaeth ac ystyriaethau diogelwch

**B** Edrych ar y technegau marsiandïo seicolegol a thechnolegol a ddefnyddir i ddylanwadu ar gwsmeriaid

**C** Creu arddangosfa lwyddiannus ar gyfer safle adwerthu trwy ddefnyddio technegau marsiandïo gweledol priodol.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio sut mae safleoedd adwerthu'n cymhwyso technegau marsiandïo gweledol ac arddangos yn unol â deddfwriaeth ac ystyriaethau diogelwch | **A1** Marsiandïo gweledol<br>**A2** Technegau arddangos<br>**A3** Deddfwriaeth ac ystyriaethau diogelwch | Adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio'r dulliau marsiandïo gweledol a ddefnyddir gan ddau fusnes adwerthu cyferbyniol ac yn ystyried effeithiolrwydd y dulliau hyn yn achos y naill a'r llall. Cefnogir hyn gan gyflwyniad sy'n esbonio effaith deddfwriaeth ar farsiandïo gweledol. |
| **B** Edrych ar y technegau marsiandïo seicolegol a thechnolegol a ddefnyddir i ddylanwadu ar gwsmeriaid | **B1** Seicoleg marsiandïo gweledol<br>**B2** Technegau seicolegol<br>**B3** Technegau technolegol | |
| **C** Creu arddangosfa lwyddiannus ar gyfer safle adwerthu trwy ddefnyddio technegau marsiandïo gweledol priodol | **C1** Safleoedd adwerthu<br>**C2** Ffactorau llwyddiant<br>**C3** Agweddau cyfreithiol a diogelwch | Arddangosiad ymarferol o dechnegau marsiandïo gweledol i greu arddangosfa lwyddiannus sy'n addas i safle adwerthu dewisedig. |

 © Pearson Education Limited 2022

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio sut mae safleoedd adwerthu'n cymhwyso technegau marsiandïo gweledol ac arddangos yn unol â deddfwriaeth ac ystyriaethau diogelwch

**A1 Marsiandïo gweledol**

- Hyrwyddo gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau trwy'r dull o'u cyflwyno mewn safleoedd adwerthu; cyfuno'r cynnyrch, yr amgylchedd a'r lle i greu arddangosfa ysgogol, sy'n dal sylw, i annog gwerthiant cynnyrch neu wasanaeth; arddangos nwyddau yn y ffordd fwyaf deniadol bosibl.

**A2 Technegau arddangos**

- Lleoli cynnyrch: ffenestr, pen blaen, pen eiliau, ger y grisiau, wrth y fynedfa, ger yr esgaladur/lifftiau, eiliau traffig-uchel, lleoli marsiandïaeth gyflenwol.
- Segmentu cynnyrch: yn ôl thema, hyrwyddiad, digwyddiad, a thymor; ar draws busnes.
- Technegau: themâu/storïau, cydlynu, blociau lliw/steil, lliwiau cyflenwol/cyferbyniol, ailadrodd, drychddelweddu a chreu trionglau, canolbwyntiau, brandio/arwyddion, arddangos ar raddfa fawr, micro-farsiandïo.
- Propiau: modelau/modelau torso/ffurfiau, gwelliannau i ddodrefn, arddangos cynnyrch.
- Gosodion: gondolas, pen eiliau, byrddau/biniau tomen, rheiliau dillad, waliau slatiau, cownteri, silffoedd, llwyfannau, cypyrddau gwydr, ffurfiau.
- Dulliau arddangos annibynnol: staciau, ynysoedd.

**A3 Deddfwriaeth ac ystyriaethau diogelwch**

- Pwynt gwerthu (POS) a thocynnu:
  - rheoliadau marcio prisiau: rhwymedigaeth i nodi'r pris gwerthu mewn punnoedd (*sterling*) ar arddangosfeydd, ar nwyddau, ar bris ymyl-silff, lleoli tocynnau.
  - labelau cynnyrch: swm, maint, cyfansoddiad, tarddle.
- Deddfwriaeth disgrifiadau masnach.
- Rheoliadau diogelwch bwyd.
- Diogelwch arddangosfeydd: uchder nwyddau, sefydlogrwydd, dosbarthiad pwysau/ cynhwysedd, tymheredd cywir, arwyddion.

### Nod dysgu B: Edrych ar y technegau marsiandïo seicolegol a thechnolegol a ddefnyddir i ddylanwadu ar gwsmeriaid

**B1 Seicoleg marsiandïo gweledol**

- Sut mae'r defnydd o farsiandïo gweledol yn dylanwadu ar gwsmeriaid; defnydd effeithiol o ddyluniad amgylchedd trwy gyfathrebu gweledol, goleuo, lliwiau, cerddoriaeth a phersawr i ysgogi ymatebion emosiynol a chanfyddiadol cwsmeriaid, ac effeithio, yn y pen draw, ar eu hymddygiad prynu.

**B2 Technegau seicolegol**

- Technegau cyffyrddadwy: lleoliad y siop, dyluniad ac aestheteg, ffenestri siop, parthau pontio, defnyddio enwau cwmni/brand, lleoli gosodion, arwyddion, hyrwyddiadau, dull prisio odrif yn erbyn eilrif, ystafelloedd gwisgo, dyluniad pecynnu, onglau a llinellau gwelediad, cyfansoddiad (fertigol a llorweddol), pwynt gwerthu (POS), arddangosiadau, cyhoeddiadau yn y siop.
- Technegau anghyffwrddadwy: atmosffereg (cerddoriaeth, drychau, goleuo), amgylchedd synhwyraidd (gweld, cyffwrdd, arogli, blasu, sain, tymheredd), effeithiau gweledol (golau, lliw, gwead, cyfuniad o siâp a dimensiwn).

**B3 Technegau technolegol**

- Arddangosfeydd electronig i ddarlledu negeseuon hysbysebu a gwybodaeth am wasanaethau mewn siopau.
- Arddangos cynhyrchion a gwasanaethau newydd.
- Rhyngweithiol/sgrîn gyffwrdd/ffenestri, pwynt gwerthu rhyngweithiol, codau QR (Ymateb Cyflym), cyfryngau cymdeithasol.

## Nod dysgu C: Creu arddangosfa lwyddiannus ar gyfer safle adwerthu trwy ddefnyddio technegau marsiandïo gweledol priodol

### C1 Safleoedd adwerthu

- Siopau adrannol, siopau disgownt, archfarchnadoedd, uwcharchfarchnadoedd, siopau cyfleustra sy’n gwerthu papurau newydd a thybaco (CTNs), siopau ffatri, sefydliadau nid-er-elw, siopau dros dro, siopau fferm, marchnadoedd dan do/awyr agored.

### C2 Ffactorau llwyddiant

- Arddull farsiandïo briodol i’r cynnyrch a’r math o safle adwerthu, cynnwys propiau ac arddangosfeydd priodol, defnydd effeithiol o arwyddion a graffeg.

### C3 Agweddau cyfreithiol a diogelwch

- Iechyd a diogelwch, asesu risg, deddfwriaeth tocynnu.

## Meini prawf asesu

<table>
<tr><th>Llwyddo</th><th>Teilyngdod</th><th>Rhagoriaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu A: Archwilio sut mae safleoedd adwerthu’n cymhwyso technegau marsiandïo gweledol ac arddangos yn unol â deddfwriaeth ac ystyriaethau diogelwch</td><td rowspan="4">A.Rh1 Gwerthuso i ba raddau mae gwahanol dechnegau marsiandïo gweledol ac arddangos yn cyfrannu at lwyddiant dau fusnes cyferbyniol.<br>B.Rh2 Gwerthuso sut caiff technegau seicolegol a thechnolegol eu defnyddio i ychwanegu at lwyddiant busnes.</td></tr>
<tr><td>A.Ll1 Ymchwilio i’r technegau marsiandïo gweledol ac arddangos a all gael eu defnyddio mewn safleoedd adwerthu.<br>A.Ll2 Esbonio sut mae rheoliadau cyfreithiol a diogelwch yn effeithio ar farsiandïo gweledol.</td><td>A.T1 Dadansoddi’r ymagweddau gwahanol at farsiandïo gweledol a ddefnyddir gan fusnesau cyferbyniol. Cefnogir hyn gan ymchwil annibynnol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu B: Edrych ar y technegau marsiandïo seicolegol a thechnolegol a ddefnyddir i ddylanwadu ar gwsmeriaid</td></tr>
<tr><td>B.Ll3 Esbonio sut caiff technegau seicolegol eu defnyddio gan ddau safle adwerthu cyferbyniol.<br>B.Ll4 Esbonio sut caiff technegau technolegol eu defnyddio gan ddau safle adwerthu cyferbyniol.</td><td>B.T2 Dadansoddi sut caiff technegau seicolegol a thechnolegol eu defnyddio i ychwanegu at lwyddiant busnes.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu C: Creu arddangosfa lwyddiannus ar gyfer safle adwerthu trwy ddefnyddio technegau marsiandïo gweledol priodol</td><td rowspan="2">C.Rh3 Dangos hunan-reolaeth a hunan-gymhelliad unigol wrth gyflwyno arddangosfa lwyddiannus, o ansawdd uchel i safle adwerthu trwy ddefnyddio technegau marsiandïo gweledol yn greadigol.</td></tr>
<tr><td>C.Ll5 Llunio cynllun realistig ar gyfer arddangosfa marsiandïo gweledol i gynnyrch neu wasanaeth mewn safle adwerthu.<br>C.Ll6 Creu arddangosfa marsiandïo gweledol llwyddiannus i gynnyrch neu wasanaeth mewn safle adwerthu.</td><td>C.T3 Cynllunio a chreu arddangosfa marsiandïo gweledol unigol, gan ddefnyddio argymhellion ac adborth i asesu llwyddiant y prosiect.</td></tr>
</table>

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.Rh3)


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes –
Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol ar wefannau ac o adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd gan y dysgwyr dystiolaeth berthnasol o fusnesau cyferbyniol ynghylch gwahanol ymagweddau marsiandïo gweledol i gefnogi'r gwerthusiad a roddwyd. Dylai'r dysgwyr ddod i gasgliadau ynghylch i ba raddau mae eu technegau marsiandïo ac arddangos yn gyfrifol am lwyddiant y ddau fusnes adwerthu. Dylent hefyd gynnwys i ba raddau mae'r technegau seicolegol a thechnolegol yn dylanwadu ar gostau ac yn y pen draw ar lwyddiant y busnes.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos dadansoddiad eglur o'r ystod o ymagweddau a thechnegau a ddefnyddir mewn marsiandïo gweledol. Dylid cynnwys tystiolaeth o ymchwil annibynnol i gefnogi'r dadansoddiad gan roi enghreifftiau o'r busnesau cyferbyniol. Bydd y dysgwyr hefyd yn defnyddio tystiolaeth o'u hymchwil i gefnogi eu dadansoddiad o sut mae technegau marsiandïo seicolegol a thechnolegol yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar gwsmeriaid a chynyddu llwyddiant y busnes.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn esbonio sut gall gofynion diogelwch a deddfwriaeth effeithio ar dechnegau marsiandïo gweledol, gan ddefnyddio eu hymchwil ar dechnegau marsiandïo ac arddangos o wahanol fusnesau. Dylai'r dysgwyr esbonio hefyd sut defnyddir technegau seicolegol a thechnolegol mewn dau safle adwerthu cyferbyniol.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyfranogi mewn gweithgaredd ymarferol i greu arddangosfa lwyddiannus a lywiwyd gan eu hymchwil flaenorol. Dylai'r dysgwyr fod wedi dangos ymagwedd annibynnol ar hyd eu gwaith, ynghyd â sgiliau ymchwil da, menter a chreadigrwydd sy'n amlygu lefel uchel o allu technegol unigol. Dylai gwaith y dysgwyr ddangos cryn fanylder drwyddi draw. Mae ymagwedd greadigol yn gofyn bod y dysgwyr yn datblygu eu syniadau eu hunain neu'n datblygu syniadau mewn ffyrdd unigryw Nid mesuriad o sgiliau dylunio artistig mohoni.

Dylid defnyddio dogfennau paratoi a chynllunio, a ffotograffau o osod a chwblhau arddangosfa addas yn dystiolaeth ar gyfer y maen prawf hwn. Dylid hefyd gynnwys cofnodion arsylwi a datganiadau tystion.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn creu arddangosfa marsiandïo gweledol unigol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth o gynllunio i greu arddangosfa marsiandïo gweledol briodol.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 2: Datblygu Ymgyrch Farchnata
- Uned 15: Ymchwilio i Fyd Busnes Adwerthu.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd a chyfleoedd i gael cyfweliad
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- ymweliadau â busnesau priodol.

# Uned 17: Marchnata Digidol

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio agweddau gwahanol ar farchnata ar y we, a'r sianeli y gellir eu defnyddio i gyflwyno ymgyrch farchnata ddigidol lwyddiannus.

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd yr uned hon yn eich galluogi i ddatblygu'ch sgiliau marchnata ac ennill dealltwriaeth o rôl marchnata digidol wrth adnabod a bodloni cwsmeriaid.

Yn yr uned hon, byddwch chi'n archwilio diben marchnata digidol mewn busnes, ac yn ystyried nodau ac amcanion penodol y swyddogaeth hon. Byddwch yn ymchwilio i sut mae marchnata digidol yn cael ei ddefnyddio yn yr oes sydd ohoni, ac yn datblygu dealltwriaeth o fuddion marchnata digidol, a phryderon yn ei gylch. Byddwch yn ymchwilio i'r gwahanol ddulliau cyflawni a'r defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) i werthuso llwyddiant y neges ddigidol. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud argymhellion ar gyfer ymgyrch farchnata ddigidol i fusnes dewisedig.

Bydd yr uned hon yn rhoi dealltwriaeth i chi o bwysigrwydd marchnata digidol fel rhan o'r swyddogaeth farchnata ehangach, ac yn eich galluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch addasrwydd y maes marchnata hwn fel gyrfa neu faes hyfforddiant posibl.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio rôl marchnata digidol o fewn y gymysgedd farchnata ehangach

**B** Ymchwilio i effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata digidol presennol

**C** Datblygu ymgyrch farchnata ddigidol ar gyfer cynnyrch neu frand dewisedig.

## Crynodeb o’r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio rôl marchnata digidol o fewn y gymysgedd farchnata ehangach | **A1** Marchnata digidol yn y swyddogaeth farchnata<br>**A2** Sut caiff cyfathrebu digidol ei gyflwyno<br>**A3** Dyfeisiau ar gyfer arddangos cyfathrebiadau digidol | Adroddiad sy’n asesu dylanwad marchnata digidol wrth siapio ymddygiad ac arferion prynu cwsmeriaid, ac sydd wedyn yn amlinellu effeithiolrwydd dwy ymgyrch farchnata ddigidol gan ddau fath gwahanol o fusnes. Ceir hefyd werthusiad sy’n tynnu sylw at fodelau digolledu, buddion a phryderon gwahanol. Darperir hefyd fuddion a phryderon posibl marchnata digidol. |
| **B** Ymchwilio i effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata digidol presennol | **B1** Amcanion marchnata digidol<br>**B2** Strategaethau digidol i gyrraedd amcanion targed<br>**B3** Modelau digolledu enillion ar fuddsoddiadau<br>**B4** Buddion a phryderon ynghylch hysbysebu ar-lein | |
| **C** Datblygu ymgyrch farchnata ddigidol ar gyfer cynnyrch neu frand dewisedig | **C1** Proses cynllunio marchnata<br>**C2** Integreiddio yn y gymysgedd farchnata a hyrwyddo ehangach | Cynllun wedi’i gyfiawnhau’n llwyr ar gyfer ymgyrch farchnata ddigidol. |

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio rôl marchnata digidol o fewn y gymysgedd farchnata ehangach

#### A1 Marchnata digidol yn y swyddogaeth farchnata

- Diffiniadau o farchnata digidol:
  - y defnydd o dechnolegau digidol i greu cyfathrebiadau integredig, wedi'u targedu a mesuradwy sy'n helpu i gaffael a chadw cwsmeriaid tra'n meithrin perthnasoedd dyfnach gyda nhw (Sefydliad Marchnata Digidol)
  - cyflawni amcanion marchnata trwy'r defnydd o gyfryngau digidol a thechnoleg.
- Rôl marchnata digidol fel estyniad i'r gymysgedd farchnata a hyrwyddo draddodiadol yn hytrach nag yn ei lle.
- Tueddiadau cyfredol ym maes marchnata digidol, e.e. symud i gyfathrebiadau symudol.
- Y defnydd o farchnata digidol i dargedu segmentau penodol yn y farchnad.
- Datblygu cronfeydd data o gwsmeriaid wrth gyflawni cyfathrebiadau digidol, gan gynnwys y defnydd o gynnwys am ddim i gynhyrchu arweiniad.

#### A2 Sut caiff cyfathrebu digidol ei gyflwyno

- Hysbysebu arddangos, baneri, hysbysebion naid, hysbysebion arnofiol, hysbysebion interstitaidd, hysbysebion testun.
- Marchnata ar beiriannau chwilio, optimeiddio a chwiliadau noddedig.
- Marchnata ar gyfryngau cymdeithasol.
- Hysbysebu drwy e-bost.

#### A3 Dyfeisiau ar gyfer arddangos cyfathrebiadau digidol

- Cyfrifiaduron personol, ffonau clyfar, tabledi a chonsolau gêmau.

### Nod dysgu B: Ymchwilio i effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata digidol presennol

#### B1 Amcanion marchnata digidol

- Cynhyrchu arweiniad.
- Ymwybyddiaeth o'r brand.
- Cadw cwsmeriaid.

#### B2 Strategaethau digidol i gyrraedd amcanion targed

- Marchnata cynnwys – perthnasedd, pwysau i ddiweddaru o hyd.
- Hysbysebu drwy chwilio taledig.
- Optimeiddio periannau chwilio.
- Marchnata ar gyfryngau cymdeithasol.
- Marchnata fideo.
- Blogiau fideo (flogio).
- Marchnata e-bost.
- Apiau symudol.
- Codau QR.
- Dylunio gwefannau ymatebol.

#### B3 Modelau digolledu enillion ar fuddsoddiadau

- Cost fesul milltir (CPM).
- Cost fesul clic (CPC).
- Cost fesul ymgysylltiad (CPE).
- Cost fesul golwg (CPV).
- Cost sefydlog.

### B4 Buddion a phryderon ynghylch hysbysebu ar-lein

- Buddion, gan gynnwys cost, mesuradwyedd, fformatio, targedu, cwmpas, cyflymder.
- Pryderon, gan gynnwys anwybyddu baneri, twyll a gweithgaredd anghyfreithlon arall, amrywiadau arddangos, blocio hysbysebion, preifatrwydd/diogelu data, olrhain lleoliad defnyddwyr, sbam.

## Nod dysgu C: Datblygu ymgyrch farchnata ddigidol ar gyfer cynnyrch neu frand dewisedig

### C1 Proses cynllunio marchnata

- Pennu amcanion – cynhyrchu arweiniad, ymwybyddiaeth o'r brand, cadw cwsmeriaid.
- Dadansoddi'r segment targed, persona brand a chystadleuaeth.
- Nodi adnoddau – dynol, ariannol a thechnegol.
- Cynllunio camau gweithredu a phrofi.
- Mesur yn erbyn targedau.

### C2 Integreiddio yn y gymysgedd farchnata a hyrwyddo ehangach

- Amcanion marchnata.
- Cymysgedd farchnata.
- Cymysgedd hyrwyddo.
- Enillion disgwyliedig.


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio rôl marchnata digidol o fewn y gymysgedd farchnata ehangach** | | **A.Rh1** Cyfiawnhau i ba raddau y mae'r amgylchedd digidol yn dylanwadu ar ddewisiadau defnyddwyr. |
| **A.Ll1** Esbonio rôl marchnata digidol fel estyniad i farchnata traddodiadol a'r ffyrdd y gellir cyfleu'r negeseuon.<br>**A.Ll2** Ymchwilio i sut mae hysbysebwyr yn targedu defnyddwyr ffonau symudol. | **A.T1** Dadansoddi, gan ddefnyddio enghreifftiau, effeithiolrwydd dulliau cyflwyno digidol gwahanol. | |
| **Nod dysgu B: Ymchwilio i effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata digidol presennol** | | **B.Rh2** Gwerthuso effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata digidol busnesau gwahanol, ac awgrymu sut gellir goresgyn pryderon a godir ynghylch marchnata digidol. |
| **B.Ll3** Trafod y strategaethau digidol a ddefnyddir gan fusnes dewisedig i gyrraedd dau amcan gwahanol.<br>**B.Ll4** Amlinellu gwahanol fodelau digolledu a ddefnyddir ym maes marchnata digidol.<br>**B.Ll5** Esbonio buddion, a phryderon ynghylch, marchnata digidol o safbwynt y cwsmer a'r marchnatwr. | **B.T2** Dadansoddi'r gwahanol strategaethau digidol a modelau digolledu a ddefnyddir i greu adnabyddiaeth o'r brand a theyrngarwch i'r brand. | |
| **Nod dysgu C: Datblygu ymgyrch farchnata ddigidol ar gyfer cynnyrch neu frand dewisedig** | | **C.Rh3** Cynhyrchu ymgyrch farchnata ddigidol, greadigol gan gyfiawnhau'r prif benderfyniadau a wneir a'r gwelliannau posibl y gellid eu defnyddio er mwyn creu teyrngarwch i'r brand. |
| **C.Ll6** Cynhyrchu amlinelliad o ymgyrch farchnata ddigidol a fydd yn creu teyrngarwch ar gyfer brand neu gynnyrch newydd neu un sydd eisoes yn bodoli. | **C.T3** Cynhyrchu ymgyrch farchnata ddigidol fanwl a dangos sut mae'n integreiddio i'r gymysgedd farchnata a hyrwyddo ehangach ar gyfer brand neu gynnyrch newydd neu un sydd eisoes yn bodoli. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, B.Ll5, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll6, C.T3, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol ar wefannau ac o adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ystod o ymgyrchoedd marchnata digidol i nodi'r gwahanol fathau o gyfathrebiadau a ddefnyddir a'u heffeithiolrwydd o ran cyrraedd segmentau targed gwahanol. Dylid ystyried gwahanol strategaethau; yn eu plith dylid rhoi sylw i'r defnydd o fideo neu flogiau fideo (flogio) i helpu i greu adnabyddiaeth o'r brand neu deyrngarwch i'r brand. Trafodir dwy ymgyrch wahanol gan fusnesau gwahanol cyn eu gwerthuso'n fanwl i bennu pa mor llwyddiannus oeddynt. Bydd y dysgwyr wedi trafod addasrwydd y model digolledu a ddefnyddiwyd. Cynigir datrysiadau wedi'u cyfiawnhau i oresgyn y pryderon ynghylch marchnata digidol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn arddangos eu sgiliau dadansoddi trwy drafod rhinweddau ac anfanteision o leiaf dri dull cyfathrebu digidol, y dylid eu dewis o ddau fath o leiaf. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr ddewis trafod y defnydd o hysbysebion interstitaidd, optimeiddio peiriannau chwilio a marchnata ar gyfryngau cymdeithasol. Hefyd, dylai'r dysgwyr ddadansoddi strategaethau digidol gwahanol a'r modelau digolledu a ddefnyddir ac esbonio sut caiff y rhain eu defnyddio i greu adnabyddiaeth o frand neu deyrngarwch i frand.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn disgrifio rôl marchnata digidol yn y broses farchnata. Dylid defnyddio enghreifftiau cyfredol i amlygu'r tueddiadau diweddaraf, megis defnyddio flogiau fideo i hyrwyddo nwyddau a dosbarthu cynnwys digidol rhad ac am ddim i greu cyfleoedd newydd. Byddant hefyd yn esbonio'r ffyrdd gwahanol o gyflwyno cyfathrebiadau digidol i ddefnyddwyr, y dyfeisiau a ddefnyddir ar hyn o bryd a'r duedd i wneud defnydd cynyddol o ddyfeisiau symudol. Trafodir y strategaethau digidol a'r modelau digolledu a ddefnyddir a bydd ymgais i esbonio rhai o'r cyfyngiadau a'r buddion i'r defnyddiwr ac i'r marchnatwr digidol.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn creu ymgyrch farchnata ddigidol greadigol, wedi'i chyfiawnhau'n llwyr, ar gyfer brand neu gynnyrch. Byddant yn ystyried y penderfyniadau allweddol a wnaed wrth lunio elfennau o'r ymgyrch, ac yn gwneud awgrymiadau ar sut gellid gwella'r ymgyrch.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn datblygu ymgyrch ddigidol fanwl iawn ac yn esbonio sut mae'r cynllun yn integreiddio i'r gymysgedd farchnata a hyrwyddo ehangach a'i hategu.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn amlinellu ymgyrch farchnata ddigidol sy'n dangos yn glir deyrngarwch i gynnyrch neu frand newydd neu un sydd eisoes yn bodoli. Cyfeirir yn glir at y cymhwysiad digidol a sut mae teyrngarwch i frand yn cael ei sefydlu.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 2: Datblygu Ymgyrch Farchnata
- Uned 16: Marsiandïo Gweledol
- Unit 18: Creative Promotion
- Uned 22: Ymchwil Marchnad.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cyfrannu syniadau/dylunio ar gyfer asesu unedau
- cefnogaeth fentora gan staff busnesau lleol
- ymweliadau â busnesau priodol.


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

# Uned 19: Pitsio ar gyfer Busnes Newydd

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio'r sgiliau ymarferol ac yn caffael yr wybodaeth ofynnol i wneud y gwaith paratoi a chymryd y camau angenrheidiol i sefydlu micro-fusnes a phitsio am gyllid ar ei gyfer.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae entrepreneuriaid yn archwilio cyfleoedd busnes posibl, yn dewis syniadau busnes hyfyw, yn paratoi cynlluniau busnes priodol ac yn pitsio'r rhain i fuddsoddwyr posibl. Bydd yr uned hon yn eich dysgu sut i fynd ati i gyflawni'r camau hyn, sy'n hanfodol i ddatblygiad busnesau newydd.

Yn yr uned hon, byddwch chi'n ymchwilio i syniad am ficro-fusnes posibl ac yn amlinellu cynllun busnes. Byddwch yn cyflwyno'ch cynllun busnes i fuddsoddwyr posibl gyda golwg ar sicrhau cyllid priodol. Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu nodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn pitsh a sut dylai'r broses o ffurfio, dethol, cynllunio a chyflwyno syniadau gael ei rheoli er mwyn sicrhau cyllid.

Bydd yr uned hon yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol os byddwch yn penderfynu sefydlu'ch busnes eich hun, neu os hoffech astudio neu weithio mewn maes sy'n gofyn am sgiliau entrepreneuraidd neu arloesi.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio syniadau posibl ar gyfer micro-fusnes newydd

**B** Datblygu cynllun busnes ar gyfer micro-fusnes newydd hyfyw

**C** Pitsio am gyllid ar gyfer y micro-fusnes dewisedig.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio syniadau posibl ar gyfer micro-fusnes newydd | **A1** Archwilio syniadau ar gyfer micro-fusnes newydd<br>**A2** Modelau ar gyfer cyfleoedd busnes<br>**A3** Ffactorau i'w hystyried wrth sefydlu micro-fusnes | Portffolio'n cynnwys ymchwil, dadansoddiad a gwerthusiad risg sydd ar y cyd yn cefnogi argymhelliad penodol i sefydlu micro-fusnes newydd. |
| **B** Datblygu cynllun busnes ar gyfer micro-fusnes newydd hyfyw | **B1** Dadansoddi'r farchnad a chynllunio<br>**B2** Agweddau cyfreithiol<br>**B3** Agweddau ariannol<br>**B4** Gwerthuso | Cynllun busnes digon manwl i alluogi paratoi'r pitsh.<br>Cyflwyniad proffesiynol gyda dogfennaeth gefnogol a luniwyd er mwyn sicrhau cyllid posibl ac ysgogi adborth y gellir ei ddefnyddio sail i wneud addasiadau wedi'u cyflawnhau i'r cynnig a'r pitsh. |
| **C** Pitsio am gyllid ar gyfer y micro-fusnes dewisedig | **C1** Dogfennau a deunyddiau i'w pitsio i'r gynulleidfa<br>**C2** Y sgiliau cyflwyno proffesiynol a arddangoswyd yn y pitsh<br>**C3** Adolygu a gwerthuso'r pitsh | |

 © Pearson Education Limited 2022

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio syniadau posibl ar gyfer micro-fusnes newydd

#### A1 Archwilio syniadau ar gyfer micro-fusnes newydd

- Creu syniadau am gynnyrch, gwasanaethau a/neu farchnad newydd ar gyfer cyfleoedd busnes.
- Matrics penderfyniadau: creu meini prawf dethol a system sgorio ar gyfer cyfleoedd busnes.

#### A2 Modelau ar gyfer cyfleoedd busnes

- Gweithgarwch busnes: sector gweithgarwch cynradd, eilaidd neu drydyddol.
- Prosesau: gweithgynhyrchu, trefnu drwy gontract allanol, cyrchu, sianeli i'r farchnad.
- Trefniadaeth: strwythur, rolau a chyfrifoldebau.

#### A3 Ffactorau i'w hystyried wrth sefydlu micro-fusnes

- Cymwyseddau craidd a chapasiti.
- Cyfyngiadau amser.
- Cyfyngiadau ariannol.
- Dylanwadau rhanddeiliaid posibl.
- Mynediad at adnoddau ffisegol.
- Argaeledd TG.
- Dylanwadau amgylcheddol.
- Risgiau mewnol.
- Risgiau allanol.

### Nod dysgu B: Datblygu cynllun busnes ar gyfer micro-fusnes newydd hyfyw

#### B1 Dadansoddi'r farchnad a chynllunio

- Diffinio'r farchnad darged.
- Ymchwil gynradd ac eilaidd.
- Amgylchedd busnes: Porter a PESTLE.
- Cymysgedd farchnata.
- Rhinweddau gwerthu unigryw (USPs).

#### B2 Agweddau cyfreithiol

- Ffurf gyfreithiol y busnes ac yswiriant atebolrwydd.
- Deddfwriaeth diogelu defnyddwyr.
- Deddfwriaeth cyflogaeth.
- Deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Deddfwriaeth diogelu data.
- Deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd.

#### B3 Agweddau ariannol

- Polisi prisio.
- Rhagolygon gwerthiant.
- Costau rhagamcanol: costau sefydlu, sefydlog a newidiol.
- Rhagolygon adennill costau.
- Rhagolygon llif arian.
- Datganiad rhagamcanol agoriadol a therfynol o'r sefyllfa ariannol, strwythur cyfalaf i ddangos y buddsoddiad angenrheidiol gan fuddsoddwyr posibl.
- Datganiad incwm rhagamcanol ar gyfer y cyfnod masnachu.

**B4 Gwerthuso**

- Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) o'r gymysgedd farchnata.
- Rhagolygon ariannol, gan gynnwys dadansoddiad hylifedd, dadansoddiad proffidioldeb, dadansoddiad sensitifrwydd.

## Nod dysgu C: Pitsio am gyllid ar gyfer y micro-fusnes dewisedig

**C1 Dogfennau a deunyddiau i'w pitsio i'r gynulleidfa**

- Dogfennau a deunyddiau priodol sy'n fanwl, yn addas, ac yn ymwneud â'r cynnig busnes unigol.
- Dogfennaeth i gefnogi cyllido'r buddsoddiad.
- Tystiolaeth o archwilio cwestiynau ac atebion posibl gan fuddsoddwyr posibl, gan gynnwys risg, disgwyliadau o ran enillion, perchnogaeth cyfranddaliadau a hawliau pleidleisio, canran y cyfranddaliad a rheolaeth.

**C2 Y sgiliau cyflwyno proffesiynol a arddangoswyd yn y pitsh**

- Dull cyflwyno, ymddygiad ac ymarweddiad y cyflwynydd, e.e. gwisg, agwedd, sgiliau proffesiynol, addas i'r gynulleidfa, wedi'i baratoi'n dda.
- Sgiliau trafod telerau a chyfathrebu.

**C3 Adolygu a gwerthuso'r pitsh**

- Derbyn adborth ar gynnwys busnes y pitsh, dadansoddi adborth a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio syniadau posibl ar gyfer micro-fusnes newydd** | | **A.Rh1** Gwerthuso'r ffactorau mewnol ac allanol sy'n gysylltiedig â micro-fusnes dewisedig. |
| **A.Ll1** Disgrifio'r cyfleoedd busnes posibl ar gyfer micro-fusnes newydd.<br>**A.Ll2** Adolygu'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth gychwyn micro-fusnes. | **A.T1** Dadansoddi'r ffactorau mewnol ac allanol sy'n gysylltiedig â micro-fusnes dewisedig. | |
| **Nod dysgu B: Datblygu cynllun busnes ar gyfer micro-fusnes newydd hyfyw** | | **B.Rh2** Gwerthuso'ch cynllun am ficro-fusnes a chyfiawnhau eich casgliadau. |
| **B.Ll3** Esbonio'ch cynllun marchnata ar gyfer micro-fusnes dewisedig.<br>**B.Ll4** Esbonio sut bydd agweddau cyfreithiol ac ariannol yn effeithio ar gychwyn busnes newydd. | **B.T2** Dadansoddi'r cynlluniau ariannol a marchnata ar gyfer eich micro-fusnes. | |
| **Nod dysgu C: Pitsio am gyllid ar gyfer y micro-fusnes dewisedig** | | **C.Rh3** Dangos cyfrifoldeb unigol a hunanreolaeth effeithiol wrth baratoi, cynnal ac adolygu cyflwyniad pitsh o safon uchel. |
| **C.Ll5** Pitsio am gyllid i gychwyn micro-fusnes.<br>**C.Ll6** Adolygu hyfywedd a risgiau'r micro-fusnes newydd gan ddefnyddio adborth gan y gynulleidfa. | **C.T3** Cyfwyno pitsh unigol yn effeithiol i drafod cyllid ar gyfer micro-fusnes newydd gan ddadansoddi adborth gan y gynulleidfa a materion hyfywedd. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.Rh1)

Nodau dysgu: B ac C (B.Ll3, B.Ll4, C.Ll5, C.Ll6, B.T2, C.T3, B.Rh2, C.Rh3)

 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol ar wefannau ac o adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwerthuso amrediad o ffactorau mewnol ac allanol ar gyfer y busnes bach newydd, ynghyd â sut gallant achosi risg i'r busnes newydd (gwerthusir o leiaf bedwar ffactor a phedwar risg).

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r ffactorau, gan sicrhau bod amrediad da a chan nodi y bydd rhai ffactorau a risgiau'n effeithio ar rai mathau o fusnes yn unig.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i fusnes newydd a'r model a amlinellwyd. Darperir tystiolaeth o fanylion am y gweithgarwch a'i brosesau a ffurf y busnes yn y portffolio. Ceir esboniad ar bedwar ffactor o leiaf. Os bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i wneud ymchwil ac archwilio, bydd rhaid i'r gwaith gael ei gyflwyno'n unigol mewn portffolio proffesiynol. Gan mai micro-fusnes sydd dan sylw, dylai'r busnes a ddewisir fod yn endid bach na fydd angen mwy na phedwar cyflogai i'w gychwyn.

### Nodau dysgu B ac C

Defnyddir iaith fusnes broffesiynol ac mae rhaid i'r data fod yn realistig i'r busnes. Anogir y dysgwyr i greu eu templed cynllun eu hun ar gyfer y cynllun busnes. Os bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau, dylid cyfyngu nifer y dysgwyr ym mhob grŵp i bedwar ar y mwyaf. Mae cynllun unigol yn ofynnol yn y portffolio.

Bydd angen i'r dysgwyr gyflwyno pitsh o'u cynllun i gynulleidfa hysbys, yn ddelfrydol, i banel o bobl fusnes leol, staff a chymheiriaid. Dylid trefnu'r cyflwyniad yn ffurfiol fel petai'n digwydd yn y gweithle. Llunnir datganiadau tystion a'u cynnwys ym mhortffolio'r dysgwr.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyfiawnhau'r cynllun yn glir, gan roi rhesymau am bob un o'i elfennau. Defnyddir dadansoddiad SWOT a sensitifrwydd ynghyd â dadansoddiad cymhareb i werthuso llwyddiant disgwyliedig. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'u cynllun yn unigol. Byddant wedi defnyddio menter a chreadigrwydd yn eu cyflwyniad pitsio, gan arddangos gallu technegol unigol o safon uchel, gwaith manwl, arloesedd a manwl gywirdeb.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos eu bod wedi dadansoddi'r amrediad o ddatganiadau ariannol a'r gymysgedd farchnata, gan ddangos yn glir sut daethant i'r ffigurau gwerthiant. Bydd yr holl gostau'n realistig ar gyfer maint y busnes. Bydd rhaid i'r dysgwyr gyflwyno pitsh proffesiynol, unigol, a dadansoddi'r adborth gan y panel a materion hyfywedd.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn llunio cynllun cydlynol, sy'n cynnwys adrannau allweddol, megis cyfreithiol ac ariannol, wedi'i gefnogi gan ymchwil. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'u cynllun yn unigol a byddant yn gallu ateb cwestiynau gan y panel am eu cynllun.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 4: Rheoli Digwyddiad
- Unit 9: Team Building in Business
- Uned 14: Ymchwilio i Wasanaeth Cwsmeriaid.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd o fusnesau bach
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth fentora gan staff busnesau lleol.

 © Pearson Education Limited 2022

# Uned 21: Hyfforddiant a Datblygiad

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio hyfforddiant a datblygiad ac yn sylweddoli bod angen i fusnesau llwyddiannus gynllunio a rheoli'r rhaglenni hyfforddiant a gynigir ganddynt.

## Cyflwyniad i'r uned

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hyfforddiant a datblygiad? Gellir diffinio hyfforddiant fel addysgu sgiliau neu wybodaeth newydd i rywun, tra bod datblygiad yn eu galluogi i fod yn fwy cynhyrchiol ac effeithiol yn y gwaith. Mae hyfforddiant a datblygiad yn gost i'r busnes ond mae hefyd yn fuddsoddiad sy'n helpu staff i berfformio'n well. Mae'r mathau o hyfforddiant a datblygiad yn amrywio, gan fod gofyn iddynt gyflawni nodau'r busnes a'r unigolyn. Mae'n bwysig bod hyfforddiant a datblygiad yn cael eu diweddaru'n gyson os yw'r busnes i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad bresennol.

Yn yr uned hon, byddwch chi'n dysgu bod hyfforddiant a datblygiad yn allweddol i lwyddiant busnes; mae angen i'r rheolwyr fod â chynlluniau hyfforddiant wedi'u trefnu'n ofalus yn eu lle. Er mwyn i fusnes lwyddo, mae angen i'w staff fod â'r ystod iawn o'r sgiliau a'r wybodaeth diweddaraf a fydd yn eu galluogi i berfformio'n effeithiol. Gall rheolwr da adnabod anghenion hyfforddiant ar draws y busnes, deall y costau sydd ynghlwm wrth hyfforddiant a darparu a monitro rhaglenni hyfforddiant yn eu cyllidebau hyfforddiant.

Bydd yr uned hon yn eich helpu drwy ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth perthnasol o fyd busnes er mwyn i chi fedru symud ymlaen i gyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol neu addysg uwch.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Ymchwilio i hyfforddiant a datblygiad mewn busnes dewisedig

**B** Archwilio cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant mewn busnes dewisedig

**C** Datblygu rhaglen sefydlu briodol i grŵp o ddechreuwyr newydd mewn busnes dewisedig.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Ymchwilio i hyfforddiant a datblygiad mewn busnes dewisedig | **A1** Hyfforddiant a datblygiad<br>**A2** Rhesymau am hyfforddiant<br>**A3** Adnabod anghenion hyfforddiant | Cyflwyniad proffesiynol ynghyd â nodiadau'r siaradwr sy'n archwilio hyfforddiant a datblygiad mewn lleoliad busnes dewisedig, a'r costau a'r buddion ariannol ac anariannol i'r busnes. |
| **B** Archwilio cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant mewn busnes dewisedig | **B1** Mathau o hyfforddiant<br>**B2** Costau a buddion hyfforddiant a datblygiad | |
| **C** Datblygu rhaglen sefydlu briodol i grŵp o ddechreuwyr newydd mewn busnes dewisedig | **C1** Sefydlu<br>**C2** Buddion rhaglen sefydlu dda a chostau rhaglen sefydlu wael<br>**C3** Datblygu rhaglen sefydlu briodol | Cynllun ar gyfer grŵp o ddechreuwyr newydd ar sail ymchwil annibynnol sy'n cwmpasu eu mis cyntaf yn y busnes, ynghyd â rhestrau gwirio priodol.<br>Gallai'r busnes dewisedig fod yn un lle maent yn cyflawni gweithgaredd cysylltiedig â gwaith megis profiad gwaith. |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Ymchwilio i hyfforddiant a datblygiad mewn busnes dewisedig

### A1 Hyfforddiant a datblygiad

- Hyfforddiant yw caffael sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau o ganlyniad i addysgu.
- Mae datblygiad yn dysgu staff sut i ddod yn fwy cynhyrchiol ac effeithiol.

### A2 Rhesymau am hyfforddiant

Cyflawni amcanion busnes:

- strategol, e.e. cynyddu elw a throsiant, dod yn arweinydd yn y farchnad
- gweithrediadol, e.e. cynyddu cynhyrchedd, cyflwyno technoleg newydd, gwella iechyd a diogelwch, cydymffurfio â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, creu gweithlu mwy hyblyg, cyflwyno hyfforddiant dilyniant ar gyfer dyrchafiad, gwella perfformiad yn y swydd a chymhelliant
- adrannol, e.e. cyrraedd targedau gwerthiant, gwella gwasanaeth cwsmeriaid
- unigol, e.e. paratoi at newid, rôl swydd newydd, cyfarpar newydd, gweithdrefnau newydd, cynnyrch a/neu wasanaethau newydd, technoleg newydd, amrediad newydd o gwsmeriaid.

### A3 Adnabod anghenion hyfforddiant

Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant (TNA) neu Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant a Dysgu (TLNA) yn brawf iechyd o sgiliau, doniau a chymwyseddau'r busnes sy'n:

- adolygu lefelau sgiliau cyfredol y staff
- adnabod bylchau sgiliau/gwybodaeth yn y busnes/mewn unigolyn
- edrych ar sgiliau newydd a allai symud y busnes yn ei flaen.

## Nod dysgu B: Archwilio cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant mewn busnes dewisedig

### B1 Mathau o hyfforddiant

- Mewnol/hyfforddiant yn y gwaith, e.e. sefydlu, hyfforddi, systemau mentor/bydi, cysgodi, hyfforddiant gan gymheiriaid, cylchdroi swyddi, prosiectau, dogfennaeth fusnes, cyflwyniadau, wikis.
- Allanol/hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, e.e. secondiadau, e-ddysgu/dysgu ar-lein, cyrsiau galwedigaethol a phroffesiynol, cynadleddau, seminarau, gweithdai.
- Integreiddio strategaethau, e.e. cwrs astudio gyda dysgu yn y gwaith, systemau rhyddhau am y dydd.
- Rhaglenni hyfforddiant, e.e. graddedigion, rheolwyr.

### B2 Costau a buddion hyfforddiant a datblygiad

- Costau:
  - cynllunio, e.e. nodi ac asesu anghenion
  - datblygu a dylunio rhaglenni, e.e. ymchwil, prynu deunyddiau a chyflenwadau hyfforddiant
  - darparu, e.e. hyfforddwyr, llefydd hyfforddi, lluniaeth, technoleg megis Di-Wifr a chyfarpar clyweledol (AV)
  - gwerthuso, e.e. yr amser a dreulir yn gwerthuso'r hyfforddiant
  - amser, e.e. nid yw'r staff sy'n cymryd rhan yn gwneud gwaith cynhyrchiol.
- Buddion, e.e. cynhyrchedd uwch, gwell effeithlonrwydd, gwasanaeth o safon uwch, llai o gwynion, gwell morâl, cadw staff.

## Nod dysgu C: Datblygu rhaglen sefydlu briodol i grŵp o ddechreuwyr newydd mewn busnes dewisedig

### C1 Sefydlu

- Proses yw sefydlu lle mae cyflogeion yn dod yn gyfarwydd, neu'n cynefino, â'u swyddi a'u hamgylchedd gweithio.
- Pwrpas sefydlu yw sicrhau bod staff yn integreiddio'n effeithiol i'r busnes, neu ar ei draws, er budd y ddau barti.

### C2 Buddion rhaglen sefydlu dda a chostau rhaglen sefydlu wael

- Mae rhaglen sefydlu'n hyfforddiant CAMPUS sy'n darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i gyflogeion newydd, yn ogystal â datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth, a'r ymddygiad perthnasol sy'n ofynnol i wneud eu swyddi.
- Buddion rhaglen dda:
  - helpu'r unigolyn i ddeall ei rôl, yr adran mae'n gweithio ynddi a'r busnes yn ei gyfanrwydd
  - helpu unigolion i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd ffisegol, y diwylliant a gweithdrefnau a pholisïau'r busnes
  - sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau, e.e. dyletswyddau iechyd a diogelwch, dyletswyddau contract cyflogaeth
  - galluogi staff i ddod yn fwy cynhyrchiol yn gyflym.
- Costau rhaglen wael:
  - dealltwriaeth gyfyngedig o'r busnes a'i rôl
  - diffyg ymgysylltu
  - morâl isel
  - perthnasoedd gwael â chydweithwyr
  - gwaith o ansawdd gwael
  - difrod i enw da'r busnes
  - cyflogeion yn ymddiswyddo/cael eu diswyddo.

### C3 Datblygu rhaglen sefydlu briodol

- Rhaglen sefydlu, e.e. pecynnau cyn-cyflogaeth/llythyrau/llawlyfrau, amlinelliad o ofynion y swydd, esboniad ar amodau a thelerau, esboniad o bolisïau allweddol ac amcanion busnes, ymgyfarwyddo ffisegol, ymgyfarwyddo sefydliadol, ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r busnes, cwrdd â chyflogeion allweddol, iechyd a diogelwch, gwybodaeth ymarferol, cyfarfodydd dilynol.
- Technegau cyfathrebu, e.e. cyflwyniadau (PowerPoint/uwchdafluniau/sleidiau/fideos), cyflwyniadau llafar, trafodaethau, sesiynau un-i-un rhagarweiniol, dogfennaeth y cwmni, ymweliadau, teithiau, e-ddysgu, cyfleusterau rhyngrwyd/rhyngweithiol, hyfforddiant oddi ar y safle.
- Cyfnod sefydlu:
  - cyn-cyflogaeth
  - y diwrnod cyntaf
  - yr wythnos gyntaf
  - y mis cyntaf a'r tu hwnt.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i hyfforddiant a datblygiad mewn busnes dewisedig** | | |
| **A.Ll1** Esbonio pam mae busnes dewisedig yn hyfforddi ei gyflogeion.<br>**A.Ll2** Disgrifio sut mae busnes dewisedig yn adnabod anghenion hyfforddiant. | **A.T1** Asesu'r rhesymau dros hyfforddi mewn busnes dewisedig. | **A.Rh1** Gwerthuso cyfraniad hyfforddiant a datblygiad at gyflawni amcanion y busnes dewisedig. |
| **Nod dysgu B: Archwilio cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant mewn busnes dewisedig** | | |
| **B.Ll3** Disgrifio'r mathau o hyfforddiant a datblygiad a ddefnyddir gan fusnes dewisedig.<br>**B.Ll4** Esbonio effaith hyfforddiant ar unigolyn mewn busnes dewisedig. | **B.T2** Dadansoddi costau a buddion tebygol y gwahanol fathau o hyfforddiant i fusnes dewisedig a'i staff. | **B.Rh2** Gwerthuso costau a buddion tebygol y gwahanol fathau o hyfforddiant ar gyfer anghenion unigol mewn busnes dewisedig. |
| **Nod dysgu C: Datblygu rhaglen sefydlu briodol i grŵp o ddechreuwyr newydd mewn busnes dewisedig** | | |
| **C.Ll5** Cynllunio rhaglen sefydlu briodol ar gyfer grŵp o ddechreuwyr newydd mewn busnes dewisedig gan ddefnyddio'ch ymchwil eich hun. | **C.T3** Asesu'r ffactorau sy'n debygol o sicrhau sefydlu llwyddiannus i'r dechreuwyr newydd yn y busnes dewisedig. | **C.Rh3** Gwerthuso effaith debygol y rhaglen sefydlu ar y busnes a'r unigolion. |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.T3, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol o wefannau ac adnoddau printiedig, gan gynnwys deunyddiau hyfforddiant a datblygiad.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

Yr unigolyn ddylai ddewis y busnes, nid yr athro/y dosbarth.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio ac yn dethol tysiolaeth berthnasol i ddangos pam a sut mae busnes dewisedig yn hyfforddi ei staff. Bydd rhaid i'r dysgwyr fedru cyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd yn llwyddiannus, a rhoi gwerthusiad wedi'i gefnogi'n drylwyr o'r rhesymau dros hyfforddi, ynghyd â gwerthuso costau a buddion hyfforddiant.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dethol a chymhwyso gwybodaeth berthnasol am hyfforddiant a datblygiad. Bydd rhaid i'r dysgwyr asesu a dadansoddi costau a buddion ariannol ac anariannol hyfforddiant yn glir a dangos sut gall hynny gefnogi'r busnes; cynhwysir enghreifftiau'n sail i'r dadansoddiad.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni ymchwil a fydd yn caniatáu iddynt esbonio pam mae busnes yn hyfforddi cyflogeion, a'r mathau o hyfforddiant a gynigir gan fusnes dewisedig.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn creu rhaglen sefydlu ac yn gwerthuso ei heffaith debygol ar y busnes dewisedig a'r unigolion fel ei gilydd. Bydd rhaid i'r dysgwyr fedru dod i gasgliad rhesymedig ynghylch cryfderau eu cynllun a'r buddion y byddai'n eu cynnig i'r busnes a'r cyflogeion.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn llunio cynllun a fyddai'n addas i grŵp o staff ar raglen sefydlu ac yn cynnwys sut y câi ei fonitro. Bydd y dysgwyr yn asesu effeithiau tebygol y cynllun arfaethedig ar y busnes dewisedig a'r staff newydd.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn paratoi cynllun a fyddai'n addas ar gyfer rhaglen sefydlu ffurfiol i staff newydd mewn busnes, sy'n cwmpasu cyn-cyflogaeth a'r tu hwnt. Bydd rhaid i'r cynllun fod wedi'i ddogfennu'n llawn a chynnwys rhestrau gwirio i fonitro'r broses sefydlu.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu ag *Uned 8: Proses Recriwtio a Dewis*.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Gall canolfannau gynnwys cyflogwyr yn y gwaith o gyflwyno'r uned hon os bydd cyfleoedd ar gael yn lleol.

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- llunio/cynnig syniadau i gyfrannu at aseiniadau uned/astudiaethau achos/ deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth fentora gan staff busnesau lleol.

# Uned 22: Ymchwil Marchnad

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio'r gwahanol agweddau ar ymchwil marchnad a ddefnyddir gan fusnesau. Byddant yn gwneud prosiect ymchwil, yn dehongli eu canfyddiadau ac yn llunio adroddiad.

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd yr uned hon yn datblygu'ch sgiliau ymchwil a'ch dealltwriaeth o rôl gwybodaeth farchnata wrth nodi anghenion cwsmeriaid a'u bodloni.

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio'r mathau o ymchwil marchnad a wneir gan fusnesau a'u pwrpas, a byddwch yn ystyried amcanion yr ymchwil a'r prosesau a ddilynir. Byddwch yn cynllunio a chynnal gweithgaredd ymchwil gan ddefnyddio'r dull dylunio a samplu mwyaf priodol. Byddwch yn dadansoddi ac yn dehongli data ymchwil marchnad ac yn cyflwyno eich canfyddiadau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud argymhellion i wella'r broses ymchwil marchnad ar gyfer busnes dewisedig.

Bydd yr uned hon yn rhoi golwg i chi ar bwysigrwydd casglu a dehongli gwybodaeth farchnata fel offeryn i wneud penderfyniadau marchnata ehangach, a bydd yn eich galluogi i wneud dewis gwybodus am addasrwydd y maes marchnata hwn o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant posib.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

**A** Archwilio'r mathau o ymchwil marchnad a ddefnyddir ym myd busnes

**B** Cynllunio gweithgaredd ymchwil marchnad a'i roi ar waith i gyflawni amcan marchnata penodol

**C** Dadansoddi a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil marchnad ac argymell gwelliannau i'r broses.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio'r mathau o ymchwil marchnad a ddefnyddir ym myd busnes | **A1** Pwrpas ymchwil marchnad<br>**A2** Mathau o ymchwil<br>**A3** Priodoldeb yr ymchwil a ddewiswyd | Adroddiad sy'n esbonio'r gwahanol fathau o ymchwil a ddefnyddir mewn busnes dewisedig. Bydd yr adroddiad yn barnu priodoldeb pob math o ymchwil i gyflawni pwrpas penodol. |
| **B** Cynllunio gweithgaredd ymchwil marchnad a'i roi ar waith i gyflawni amcan marchnata penodol | **B1** Cam cynllunio<br>**B2** Cam gweithredu | Cynllun ymchwil marchnad sy'n rhoi manylion am ddulliau a maint sampl, i'w ddefnyddio ochr yn ochr â chopi o'r holiadur peilot a rhywfaint o ymchwil beilot.<br>Holiadur terfynol gyda chynllun samplu ynghyd â thystiolaeth o'r data ymchwil a gasglwyd. |
| **C** Dadansoddi a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil marchnad ac argymell gwelliannau i'r broses | **C1** Dadansoddiad ystadegol a dehongliad o ymchwil gynradd ac eilaidd<br>**C2** Cyflwyno canlyniadau'r ymchwil<br>**C3** Gwerth yr wybodaeth | Dadansoddiad a dehongliad o weithgaredd ymchwil marchnad gan ddefnyddio ystod o ddulliau ystadegol i gyflawni amcan marchnata penodol.<br>Argymhellion i wella ansawdd y broses/data. |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Archwilio'r mathau o ymchwil marchnad a ddefnyddir ym myd busnes

### A1 Pwrpas ymchwil marchnad

- Deall ymddygiad cwsmeriaid.
- Pennu tueddiadau prynu.
- Ymchwilio i ymwybyddiaeth o frandiau/hysbysebu.
- Cynorthwyo datblygiad cynnyrch newydd.
- Ymchwilio i ddichonoldeb mynd i mewn i farchnadoedd newydd.
- Cyflawni amcanion marchnata.

### A2 Mathau o ymchwil

- Ansoddol a meintiol.
- Ymchwil eilaidd.
- Ffynonellau mewnol:
  - cynlluniau teyrngarwch
  - cofnodion Pwynt Gwerthu Electronig (EPOS)
  - monitro gwefan
  - cofnodion cyfrifydda
  - asiantaethau ymchwil marchnad arbenigol.
- Ffynonellau allanol:
  - rhyngrwyd
  - ystadegau'r llywodraeth
  - adroddiadau cystadleuwyr
  - asiantaethau gwybodaeth arbenigol am y farchnad, e.e. Mintel, IPSO, Mori.
- Ymchwil gynradd:
  - arolygon
  - arsylwi
  - e-farchnata
  - grwpiau ffocws
  - ymchwil beilot.

### A3 Priodoldeb yr ymchwil a ddewiswyd

- Cost.
- Cywirdeb.
- Amseroldeb.
- Cyfraddau ymateb.

## Nod dysgu B: Cynllunio gweithgaredd ymchwil marchnad a'i roi ar waith i gyflawni amcan marchnata penodol

### B1 Cam cynllunio

- Diffinio'r broblem.
- Pennu amcanion ymchwil.
- Cyllideb.
- Pennu'r data i'w gasglu.
- Dulliau i'w defnyddio:
  - cynradd ac eilaidd
  - meintiol a/neu ansoddol.

- Dylunio holiadur peilot:
  - mathau o gwestiynau
  - dilyniannu
  - hyd holiadur
  - osgoi tuedd
  - perthnasedd y cwestiynau i'r amcanion.
- Cynllun samplu peilot.
- Samplu tebygolrwydd:
  - hap
  - systematig
  - haenedig
  - clwstwr.
- Samplu dim tebygolrwydd:
  - cwota
  - hwylustod
  - arsylwi.
- Maint y sampl a'r effaith ar lefelau hyder.
- Ymchwil beilot.

**B2 Cam gweithredu**

- Adolygu'r ymchwil gynradd beilot.
- Dylunio'r holiadur terfynol.
- Cynllun samplu terfynol.
- Casglu data, cynradd ac eilaidd.

## Nod dysgu C: Dadansoddi a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil marchnad ac argymell gwelliannau i'r broses

**C1 Dadansoddiad ystadegol a dehongliad o ymchwil gynradd ac eilaidd**

- Dadansoddi/dehongli data:
  - cymedr, modd, canolrif rhifyddol
  - amrediad ac amrediad rhyngchwartel
  - gwyriad safonol
  - cyfres amser
  - diagramau gwasgariad a thueddiadau.
- Dehongli ymchwil eilaidd.

**C2 Cyflwyno canlyniadau'r ymchwil**

- Adroddiadau, tablau, graffiau.
- Cyflwyno casgliadau ac argymhellion.
- Ymwybyddiaeth o'r math o gynulleidfa.

**C3 Gwerth yr wybodaeth**

- Cyfyngiadau'r ymchwil:
  - digonolrwydd
  - cywirdeb
  - tuedd
  - goddrycholdeb
  - dibynadwyedd y sampl.
- Argymell gwelliannau i'r broses.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio'r mathau o ymchwil marchnad a ddefnyddir ym myd busnes** | | |
| **A.Ll1** Esbonio'r gwahanol fathau o ymchwil marchnad a ddefnyddir mewn busnes dewisedig. | **A.T1** Asesu, gan ddefnyddio enghreifftiau addas, sut mae gwahanol ddulliau ymchwil marchnad yn briodol wrth helpu busnes dewisedig i gyflawni amcanion marchnata a hysbysu'r penderfyniadau a wneir. | **A.Rh1** Cyfiawnhau'r defnydd o wahanol ddulliau ymchwil marchnad a ddefnyddir gan fusnes dewisedig i ategu diben yr ymchwil. |
| **Nod dysgu B: Cynllunio gweithgaredd ymchwil marchnad a'i roi ar waith i gyflawni amcan marchnata penodol** | | |
| **B.Ll2** Gwneud ymchwil eilaidd ar gyfer amcan marchnata dewisedig.<br>**B.Ll3** Gwneud ymchwil marchnad gynradd beilot a chasglu data sampl.<br>**B.Ll4** Gwneud y gweithgaredd ymchwil marchnad terfynol gan ddefnyddio cynllun samplu manwl i gael ystod o ddata cynradd ac eilaidd. | **B.T2** Dadansoddi'r rhesymau dros ddewis dulliau ymchwil penodol, y math o ddata i'w gasglu a'r cynllun samplu. | **B.Rh2** Gwerthuso effeithiolrwydd yr ymchwil beilot, gan argymell gwelliannau y gellid eu gwneud i'r gweithgaredd ymchwil marchnad terfynol. |
| **Nod dysgu C: Dadansoddi a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil marchnad ac argymell gwelliannau i'r broses** | | |
| **C.Ll5** Dehongli canfyddiadau'r ymchwil marchnad a wnaed, a'u cyflwyno mewn ystod o fformatau gwahanol. | **C.T3** Dadansoddi canfyddiadau'r ymchwil marchnad gan ddefnyddio ystod eang o dechnegau ystadegol a gwneud sylwadau ar ei chyfyngiadau. | **C.Rh3** Asesu cyfyngiadau'r data a gasglwyd a chyfiawnhau gwelliannau i'r broses cynllunio ymchwil yn sgîl y gwaith a wnaed. |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.T1, A.Rh1)

Nod dysgu: B (B.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, B.T2, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.T3, C.Rh3)



 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad a chyfleusterau er mwyn eu galluogi i wneud yr ymchwil sy'n ofynnol ar gyfer yr uned.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyfiawnhau sut mae gwahanol ddulliau ymchwil marchnad yn ategu diben yr ymchwil. Bydd yr ymateb yn cynnwys enghreifftiau priodol ar ei hyd i gefnogi'r cyfiawnhad.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn asesu'r gwahanol fathau o ymchwil y gellir eu defnyddio gan fusnes dewisedig sydd ag amcanion marchnata gwahanol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cynnwys yn eu hadroddiad enghreifftiau o fathau o ymchwil a ddefnyddir gan fusnes dewisedig. Bydd yr adroddiad yn addas i'r diben, yn broffesiynol ac wedi'i ysgrifennu mewn iaith fusnes briodol. Bydd yn esbonio o leiaf ddau fath o ymchwil gynradd a dau fath o ymchwil eilaidd ar gyfer y busnes ac yn defnyddio enghreifftiau realistig.

### Nod dysgu B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cynllunio gweithgaredd ymchwil marchnad ar raddfa fach i bwrpas penodol. Byddant yn cynnal arolwg peilot, yn gwerthuso effeithiolrwydd eu hymchwil beilot ac yn argymell gwelliannau i'w gwneud cyn cyflawni'r gweithgaredd ymchwil marchnad terfynol. Rhaid darparu canfyddiadau ymchwil peilot a therfynol ar ffurf atodiad i waith y dysgwyr.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi eu cynllun terfynol, ac yn ystyried y dulliau dewisedig a'u haddasrwydd i gyflawni pwrpas a nodwyd. Caiff data peilot ei gasglu a gwneir newidiadau i'r cynllun cyn i'r dysgwyr fynd ati i wneud y gwaith ymchwil go iawn. Bydd y dadansoddiad yn cwmpasu'r math o ddata i'w gasglu a bydd yn cynnwys dulliau cynradd ac eilaidd. Bydd y cynllun samplu'n cynnwys math a maint y sampl.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn creu cynllun i gyflawni ymchwil gynradd ac eilaidd. Rhaid cynnwys o leiaf ddau ddull o'r ddau fath yn y cynllun. Cesglir data peilot cyn i'r dysgwyr fynd ati i wneud y gwaith ymchwil go iawn.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio adroddiad byr sy'n asesu cyfyngiadau'r data a gasglwyd o ran cywirdeb, goddrycholdeb, tuedd a dibynadwyedd. Rhaid i'r adroddiad fynd ymlaen i farnu effeithiolrwydd y broses a gyflawnwyd o ran cyflawni amcanion ymchwil/marchnata, ac i argymell gwelliannau'n seiliedig ar y profiad a enillwyd.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn defnyddio ystod eang o dechnegau dadansoddi ystadegol i roi dehongliad llawn o'r canfyddiadau sy'n deillio o'r data ymchwil marchnad a gasglwyd, a byddant yn cyflwyno'r canfyddiadau hyn gan ddefnyddio siartiau, tablau a diagramau i ddangos deilliannau'r dadansoddiad data hwn.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflwyno dehongliad sylfaenol o'r data ymchwil gan ddefnyddio o leiaf ddau fformat gwahanol a dwy dechneg ystadegol.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 2: Datblygu Ymgyrch Farchnata
- Uned 17: Marchnata Digidol
- Unit 18: Creative Promotion.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- llunio/cynnig syniadau ar gyfer aseiniadau uned/astudiaethau achos/deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth gan staff busnesau lleol fel mentoriaid.

# Uned 23: System Gyfreithiol Lloegr

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae system gyfreithiol Lloegr yn gweithredu i ddod ag achosion sifil a throseddol i ben a pham gall fod angen cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol ar fusnesau ac unigolion.

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd angen cyngor cyfreithiol ar y rhan fwyaf o fusnesau, boed yn fach neu'n fawr, ar ryw adeg. Bydd yr uned hon yn gofyn am wneud ymchwil ar faterion ac achosion sifil a throseddol cyfredol, ymchwilio i'r bobl sy'n rhoi'r system gyfreithiol ar waith, ac archwilio effaith penderfyniadau a wneir mewn achosion llys ar fusnesau ac unigolion.

Yn yr uned hon, byddwch yn edrych ar nodweddion cyfraith sifil a throseddol er mwyn pennu'r sefyllfaoedd a all arwain at achos cyfreithiol neu setliad trwy fodd arall. Byddwch yn ymchwilio i'r llysoedd gwahanol yn Lloegr ac yng Nghymru ac yn archwilio sut maent yn dod i benderfyniadau. Byddwch yn gwneud ymchwil ar gyfraith achosion, deddfau seneddol a chyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd (UE). Byddwch yn archwilio sut mae gwahanol ddeddfau'n berthnasol i bawb a sut caiff deddfau eu defnyddio a'u cymhwyso i achosion go iawn.

Yn yr uned hon cewch olwg ar berthnasedd a phwysigrwydd y gyfraith i'r sector busnes. Bydd yr uned hon yn eich galluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch addasrwydd y gyfraith fel arbenigedd o ran astudiaethau neu gyflogaeth.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

**A** Edrych ar awdurdodaeth y llysoedd, a dulliau amgen, wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion

**B** Ymchwilio i rôl y proffesiwn cyfreithiol a phobl leyg wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion

**C** Archwilio ffynonellau cyfraith perthnasol i ddarparu cyngor cyfreithiol.

## Crynodeb o’r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Edrych ar awdurdodaeth y llysoedd, a dulliau amgen, wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion | **A1** Ystyr, pwrpas a therminoleg y gyfraith<br>**A2** Rôl ac awdurdodaeth llysoedd troseddol: lle cyntaf ac apêl<br>**A3** Rôl ac awdurdodaeth llysoedd sifil: lle cyntaf ac apêl<br>**A4** Dull amgen o ddatrys anghydfod (ADR) | Cyflwyniad unigol ar y llysoedd a’r personél priodol er mwyn dod ag achosion i ben, mewn sefyllfaoedd/astudiaethau achos penodol, a’r arferion a’r gweithdrefnau sydd ar waith yn y llysoedd sifil a throseddol i ddod i ddyfarniad neu benderfyniad. |
| **B** Ymchwilio i rôl y proffesiwn cyfreithiol a phobl leyg wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion | **B1** Gwahanol fathau o farnwyr a’u rolau<br>**B2** Gwahanol fathau o gyfreithwyr a’u rolau<br>**B3** Cyfranogiad pobl leyg a’u rolau | |
| **C** Archwilio ffynonellau cyfraith perthnasol i ddarparu cyngor cyfreithiol | **C1** Cynsail farnwrol<br>**C2** Sut caiff deddfau seneddol eu creu a’u cymhwyso i achosion<br>**C3** Mathau o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a’u heffaith ar gyfraith ddomestig | Cyflwyniad unigol i arddangos y broses ddeddfwriaethol, cynsail a rheolau dehongliad statudol.<br>Adroddiad unigol yn nodi i ba raddau y mae ffynonellau cyfraith yn rhoi sicrwydd i gyfreithwyr sy’n rhoi cyngor cyfreithiol ac effaith cyfreithiau’r Undeb Ewropeaidd. |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Edrych ar awdurdodaeth y llysoedd, a dulliau amgen, wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion

### A1 Ystyr, pwrpas a therminoleg y gyfraith

- Hawliau a dyletswyddau, y gyfraith a moesoldeb, y gyfraith a rheolau.
- Pwrpas y gyfraith, e.e. amddiffyn, cynnal hawliau, cynnal trefn, darparu cyfiawnder, gwerthusiad o effeithiolrwydd y system gyfreithiol.
- Gwahaniaethau rhwng cyfraith droseddol a chyfraith sifil, pwrpas, rhwymedïau, cosb, partïon i weithred, safon profi mewn achosion troseddol a sifil.
- Terminoleg benodol a ddefnyddir mewn achosion sifil a throseddol, enwau achosion, achosion cyfredol, cael effaith ar fyd busnes.

### A2 Rôl ac awdurdodaeth llysoedd troseddol: lle cyntaf ac apêl

- Mathau o droseddau, gan gynnwys troseddau diannod, neillog a ditiadwy, dyfarniadau a goblygiadau posibl.
- Rôl a swyddogaeth llys ynadon, llys y Goron, y Llys Apêl, yr Aruchel Lys a Llys Cyfiawnder Ewrop.
- Llys ynadon:
  - awdurdodaeth sifil a throseddol
  - treialon diannod
  - ple
  - achosion neillog
  - traddodi a llys ieuenctid.
- Llys y Goron:
  - awdurdodaeth
  - haen gyntaf
  - ail a thrydedd haen.
- Llys Apêl:
  - is-adran droseddol
  - caniatâd i apelio.
- Aruchel Lys:
  - awdurdodaeth ar gyfer achosion sifil a throseddol
  - caniatâd i apelio.

### A3 Rôl ac awdurdodaeth llysoedd sifil: lle cyntaf ac apêl

- Mathau o faterion sifil, dyrannu achosion, atebolrwydd a goblygiadau posib.
- Rôl a swyddogaeth y llys sirol, yr Uchel Lys, y Llys Apêl, yr Aruchel Lys a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.
- Llys sirol:
  - cychwyn hawliad
  - dyrannu i drac
  - goblygiadau achos cyfreithiol.
- Uchel Lys:
  - dyrannu
  - is-adrannau
  - Rheolau Gweithdrefnau Sifil.
- Llys Apêl:
  - is-adran sifil
  - caniatâd i apelio.
- Aruchel Lys:
  - awdurdodaeth ar gyfer achosion sifil
  - caniatâd i apelio.

- Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd:
  - y prif lys
  - y llys cyffredinol
  - tribiwnlys gwasanaeth sifil
  - rôl farnwrol a goruchwyliol.
- Cymhwyso a gwerthuso rolau ac awdurdodaethau i benderfyniadau achosion sifil a throseddol.

**A4 Dull amgen o ddatrys anghydfod (ADR)**

- Tribiwnlysoedd, cymrodeddu, cymodi, cyfryngu, negodi.
- Cymariaethau â'i gilydd ac â llysoedd sifil, manteision ac anfanteision.
- Materion, e.e. cost, amser, preifatrwydd, apeliadau, ffurfioldeb, cynrychiolaeth, hygyrchedd, priodoldeb.

## Nod dysgu B: Ymchwilio i rôl y proffesiwn cyfreithiol a phobl leyg wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion

**B1 Gwahanol fathau o farnwyr a'u rolau**

- Yr hierarchaeth farnwrol.
- Penodi, dewis, sgiliau, hyfforddiant a rolau.
- Rhoi'r gorau i fod yn farnwr.
- Cymhwyso a gwerthuso rolau ac awdurdodaethau i benderfyniadau achosion mewn llysoedd sifil a throseddol ac ADR.

**B2 Gwahanol fathau o gyfreithwyr a'u rolau**

- Cyfreithwyr a bargyfreithwyr:
  - gwaith
  - rolau
  - sgiliau
  - gwahaniaethau
  - hyfforddiant a chymwysterau.
- Paragyfreithwyr, rolau.
- Cymhwyso a gwerthuso rolau ac awdurdodaethau i benderfyniadau achosion mewn llysoedd sifil a throseddol ac ADR.

**B3 Cyfranogiad pobl leyg a'u rolau**

- Rheithgorau:
  - dewis
  - cymhwystra
  - rôl mewn achosion troseddol a sifil.
- Ynadon:
  - dewis
  - penodi
  - hyfforddiant a rôl.
- Gwerthuso rolau, eu defnydd a'u lle yn y system llysoedd ac yn ADR.

## Nod dysgu C: Archwilio ffynonellau cyfraith perthnasol i ddarparu cyngor cyfreithiol

### C1 Cynsail farnwrol

- Sut mae'n gweithio, cyfrwymol, perswadiol, gwahaniaethu, dirymu, gwrthdroi.
- Manteision ac anfanteision, gwerthuso a chymhwyso.

### C2 Sut caiff deddfau seneddol eu creu a'u cymhwyso i achosion

- Y broses ddeddfwriaethol.
- Deddfwriaeth ddirprwyedig.
- Dehongliad statudol, rheolau a chymhorthion dehongli, gwerthuso a chymhwyso.

### C3 Mathau o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'u heffaith ar gyfraith ddomestig

- Mathau o ddeddfwriaeth Ewropeaidd, deddfu yn yr Undeb Ewropeaidd a'r effaith ar gyfraith ddomestig.
- Gwerthuso dylanwad ac effaith, a sut y'u cymhwysir.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Edrych ar awdurdodaeth y llysoedd, a dulliau amgen, wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion** | | **A.Rh1** Gwerthuso sut mae datrys anghydfod yn y llysoedd yn cymharu ag ADR.<br>**B.Rh2** Gwerthuso effeithiolrwydd personél lleyg yn llysoedd Lloegr ac ADR. |
| **A.Ll1** Gan ddefnyddio enghreifftiau o achosion, cymhwyso ac esbonio'n gywir awdurdodaeth y llysoedd sifil.<br>**A.Ll2** Gan ddefnyddio enghreifftiau o achosion, cymhwyso ac esbonio'n gywir awdurdodaeth y llysoedd troseddol. | **A.T1** Cymharu a chyferbynnu hierarchaethau'r llysoedd sifil a throseddol a llwybrau apêl, gan arddangos defnydd cywir o derminoleg gyfreithiol, a dyfynnu o gyfraith achosion a'i chymhwyso i sefyllfaoedd sifil a throseddol. | |
| **Nod dysgu B: Ymchwilio i rôl y proffesiwn cyfreithiol a phobl leyg wrth gyfrannu at ddeilliannau achosion** | | |
| **B.Ll3** Gan ddefnyddio enghreifftiau o achosion, cymhwyso ac esbonio'n gywir rôl y proffesiwn cyfreithiol a phobl leyg yn y llysoedd sifil ac ADR.<br>**B.Ll4** Gan ddefnyddio enghreifftiau o achosion, cymhwyso ac esbonio'n gywir rôl y proffesiwn cyfreithiol a phobl leyg yn y llysoedd troseddol. | **B.T2** Cymharu a chyferbynnu rôl a swyddogaeth cyfreithwyr a phobl leyg yn llysoedd Lloegr ac ADR. | |
| **Nod dysgu C: Archwilio ffynonellau cyfraith perthnasol i ddarparu cyngor cyfreithiol** | | **C.Rh3** Gwerthuso i ba raddau mae ffynonellau cyfraith yn rhoi sicrwydd i gyfreithwyr sy'n rhoi cyngor cyfreithiol. |
| **C.Ll5** Arddangos sut byddai'r broses ddeddfwriaethol yn gymwys mewn sefyllfaoedd penodol.<br>**C.Ll6** Esbonio rheolau cynsail a dehongliad statudol trwy eu cymhwyso'n gywir mewn sefyllfaoedd penodol. | **C.T3** Dadansoddi'r effaith y mae cyfraith Ewropeaidd wedi'i chael ar gyfraith ddomestig mewn sefyllfaoedd penodol. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i adroddiadau a statudau cyfreithiol.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

Mae'n hanfodol nad yw'r dysgwyr yn copïo symiau mawr o wybodaeth o werslyfrau neu wefannau. Bydd angen i ganolfannau baratoi amrywiaeth o astudiaethau achos neu sefyllfaoedd manwl, fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ddefnyddio eu geiriau eu hun, a dangos eu dealltwriaeth a'r gallu i gymhwyso'r gyfraith a'i phrosesau gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau, gwneud penderfyniadau, dadansoddi a meddwl yn feirniadol.

Hefyd, mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn cyfeirio at bob ffynhonnell yn gywir. Os dewisir fformat cyflwyniad, rhaid darparu ffurflen arsylwi fanwl ar gyfer pob cyflwyniad llafar a wneir gan bob dysgwr.

Er mwyn seilio eu gwerthusiad ar brofiad uniongyrchol, mae'n ddymunol bod y dysgwyr yn mynychu gwahanol lysoedd i wylio'r achosion, i weld y broses yn cael ei gweithredu a'r personél wrth eu gwaith. Bydd staff y llys, cyfreithwyr lleol a bargyfreithwyr yn aml yn fodlon siarad â'r dysgwyr. Os dewisir fformat cyflwyniad, rhaid darparu ffurflen arsylwi fanwl ar gyfer pob cyflwyniad llafar a wneir gan bob dysgwr.

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn seilio'u cyngor a barn ar awdurdodaethau, apeliadau, ADR, personél a rolau ar drafodaeth a gwerthusiad cynhwysfawr. Rhaid i'r dysgwyr gynnwys enghreifftiau unigol a gwreiddiol i ddangos dealltwriaeth a chyfiawnhad clir o'u dadleuon a'u casgliad. Bydd y cyngor a roddir yn fanwl, yn broffesiynol ac wedi'i gyflwyno'n briodol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r llysoedd, apeliadau, ADR a phersonél. Bydd y cyngor a roddir ganddynt, a'u dulliau cyfathrebu a chymhwyso'n broffesiynol, gan ddangos dealltwriaeth a chymhwysiad priodol, ac yn cwmpasu'n gywir bersonél a sefyllfaoedd lle cyntaf ac apeliadol. Byddant yn dangos sgiliau dadansoddi da a fydd yn cwmpasu'r holl rolau, gweithredoedd a deilliannau.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu cyflwyno gwaith sy'n broffesiynol ac yn briodol, gyda dealltwriaeth sylfaenol ond eglur a sgiliau cymhwyso o ran ble y clywir achosion yn y lle cyntaf, er efallai na fydd tystiolaeth lawn o bwyntiau mwy cymhleth awdurdodaethau apeliadol. Byddant yn dangos dealltwriaeth glir a'r gallu i gymhwyso mewn perthynas â phersonél a'u rolau. Os bydd y dysgwyr yn gwneud cyflwyniad llafar, byddant yn barod i ateb cwestiynau o'r gynulleidfa ac yn dangos gafael gadarn ar yr wybodaeth a gyflwynir a dealltwriaeth ohoni.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn darparu gwerthusiad yn seiliedig ar gymhwyso cynsail a dehongliad statudol i astudiaeth achos. Bydd y gwaith yn broffesiynol ac yn dangos esboniad, dealltwriaeth a chymhwysiad clir. Rhaid i'r deunyddiau ategol fod yn gynhwysfawr, yn cynnwys enghreifftiau clir o gynseiliau cyfrwymol, perswadiol, gwahaniaethu, gwrthdroi a dirymu ynghyd â rhywfaint o ddealltwriaeth sylfaenol o reolau dehongli statudol a'r gallu i'w cymhwyso.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos eu bod wedi gwneud dadansoddiad unigol o effaith cyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfreithiau domestig mewn sefyllfaoedd penodol. Bydd y dysgwyr yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng cymhwyso ffurfiau amrywiol cyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd, megis cyfarwyddebau a rheoliadau, a gallant ddisgrifio sut byddai cysyniadau megis effaith uniongyrchol a goruchafiaeth cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar gyfreithiau domestig. Byddant yn arddangos sgiliau dadansoddi da, gan ddarparu a chymhwyso enghreifftiau ar gyfer pob agwedd ar y maen prawf.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn arddangos eu gwybodaeth o'r broses ddeddfwriaethol trwy esbonio sut byddai'n cael ei rhoi ar waith mewn sefyllfaoedd penodol. Trwy'r sefyllfaoedd hyn, bydd y dysgwyr yn gallu esbonio beth sy'n digwydd yn holl gyfnodau gwahanol y broses ddeddfwriaethol ac arddangos eu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol fathau o Fil. Bydd y dysgwyr yn gallu esbonio hefyd amryw ffurfiau deddfwriaeth ddirprwyedig a nodi pa un fyddai'n fwyaf priodol mewn sefyllfaoedd penodol. Dylai'r dysgwyr gyfeirio at enghreifftiau priodol er mwyn ategu eu hesboniad o'r broses ddeddfwriaethol a deddfwriaeth ddirprwyedig.

Mae gofyn i'r dysgwyr hefyd arddangos eu dealltwriaeth o sut caiff rheolau cyfreithiol eu dehongli a'u creu gan farnwyr. Bydd y dysgwyr yn gallu esbonio sut mae cynsail farnwrol yn gweithio, ac arddangos eu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng cynsail gyfrwymol a pherswadiol. Byddant yn cymhwyso mewn sefyllfaoedd penodol y dulliau a ddefnyddir gan farnwyr i osgoi cynsail gyfrwymol trwy ddirymu, gwahaniaethu a gwrthdroi. At ddibenion dehongli statudol, bydd y dysgwyr yn gallu esbonio'r dulliau amrywiol a ddefnyddir gan farnwyr i ddehongli statud, gan gynnwys rheolau dehongli a rheolau iaith. Bydd y dysgwyr yn gallu cymhwyso mewn sefyllfaoedd penodol pa ddulliau dehongli statudol fyddai'n fwyaf addas. Unwaith eto, dylid cyfeirio at enghreifftiau, megis cyfraith achosion, er mwyn ategu cymhwyso rheolau dehongli statudol a chynsail farnwrol.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 24: Cyfraith Cyflogaeth
- Unit 25: Aspects of Civil Liability Affecting Business
- Unit 26: Aspects of Criminal Law Impacting on Business and Individuals.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Gall canolfannau wahodd cyflogwyr i gyfranogi yn y gwaith o gyflwyno'r uned hon os bydd cyfleoedd yn lleol. Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- llunio/cynnig syniadau ar gyfer aseiniadau uned/astudiaethau achos/deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth gan fusnesau lleol fel mentoriaid.

# Uned 24: Cyfraith Cyflogaeth

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae busnes yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â hawliau cyflogaeth. Byddant yn ystyried prosesau sy'n gysylltiedig â datrys anghydfodau cyflogaeth.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'n hollbwysig bod pob cyflogai'n deall eu hawliau a'u dyletswyddau cyflogaeth. Mae'r uned hon yn ystyried yr hawliau, y dyletswyddau a'r dogfennau cyfreithiol pwysig a'r rhwymedïau sydd ar gael o dan y gyfraith.

Yn yr uned hon, byddwch yn dod i ddeall dogfennau cyflogaeth pwysig, hawliau a dyletswyddau cyflogeion a chyflogwyr, ac effaith peidio â chydymffurfio â'r gyfraith. Byddwch yn archwilio'r broses o ddatrys anghydfodau cysylltiedig â'r gwaith, gwneud dyfarniadau ar benderfyniadau tribiwnlys ac archwilio'r cymorth sydd ar gael gan sefydliadau eraill.

Bydd ymchwilio i gyfraith cyflogaeth yn rhoi sylfaen gref i chi ddilyn gyrfa yn y maes. Trwy wneud ymchwil a thrafod materion cyflogaeth â phobl eraill, cewch ddealltwriaeth o broses y gyfraith. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau cyfathrebu trwy drafodaethau a chyflwyniadau. Mae cyfraith cyflogaeth yn faes arbenigol a gall eich helpu i ddatbygu gyrfa ym maes adnoddau dynol a rheolaeth.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Edrych ar hawliau cyflogaeth a sut mae'r hawliau hynny'n effeithio ar fusnes a'i gyflogeion

**B** Ymchwilio i bwysigrwydd cydraddoldeb yn y gweithle a dylanwad sefydliadau cymorth

**C** Archwilio'r dulliau cyfreithiol a ddefnyddir i ddatrys anawsterau cyflogaeth yn y gwaith.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Edrych ar hawliau cyflogaeth a sut mae'r hawliau hynny'n effeithio ar fusnes a'i gyflogeion | **A1** Hawliau cyflogaeth sylfaenol sydd ar gael i bob cyflogai<br>**A2** Contractau cyflogaeth a dogfennaeth arall | Canllaw i gyflogai newydd ar hawliau, dyletswyddau a dogfennau.<br>Cyflwyniad yn cymhwyso cyfreithiau sylfaenol sy'n ymwneud â chyflogaeth a chydraddoldeb ac effaith peidio â chydymffurfio ar fusnes penodol.<br>Taflen friffio ar sefydliadau cymorth perthnasol.<br>Adroddiad, neu frîff, wedi'i gyfiawnhau'n drylwyr, yn rhoi cyngor ynghylch effaith cydymffurfio a pheidio â chydymffurfio â hawliau cyflogaeth a chydraddoldeb yn y gweithle ar y cyflogwr a'r cyflogai, sy'n cynnwys trafodaeth ar yr hawliau hyn a'r cymorth sydd ar gael. |
| **B** Ymchwilio i bwysigrwydd cydraddoldeb yn y gweithle a dylanwad sefydliadau cymorth | **B1** Sicrhau cydraddoldeb mewn cyflogaeth<br>**B2** Sefydliadau sy'n gallu cefnogi hawliau'r cyflogwr a'r cyflogai | |
| **C** Archwilio'r dulliau cyfreithiol a ddefnyddir i ddatrys anawsterau cyflogaeth yn y gwaith | **C1** Seiliau ar gyfer terfynu cyflogaeth<br>**C2** Dulliau ffurfiol ac anffurfiol o ddatrys problemau yn y gweithle | Cyflwyniad yn cymhwyso'r cyfreithiau sylfaenol sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth, gan ddefnyddio astudiaethau achos.<br>Taflen friffio yn rhoi cyngor ar sefyllfaoedd lle mae problemau'n codi yn y gwaith.<br>Adroddiad, neu frîff, wedi'i gyfiawnhau'n drylwyr, yn rhoi cyngor ar effaith ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno a disgyblu ffurfiol ac anffurfiol ar gyflogeion a busnesau. |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Edrych ar hawliau cyflogaeth a sut mae'r hawliau hynny'n effeithio ar fusnes a'i gyflogeion

### A1 Hawliau cyflogaeth sylfaenol sydd ar gael i bob cyflogai

- Tâl, Isafswm Cyflog Cenedlaethol, Cyflog Byw Cenedlaethol, didyniadau awdurdodedig a heb eu hawdurdodi, e.e. awdurdodedig – Yswiriant Cenedlaethol, heb eu hawdurdodi – unrhyw beth sydd heb fod yn ofynnol dan y gyfraith neu heb ei awdurdodi mewn contract cyflogaeth, amseru taliadau.
- Hawl i gael gwyliau: cyflogeion llawn-amser a rhan-amser.
- Teulu:
  - absenoldeb mamolaeth a thadolaeth
  - amser o'r gwaith ar gyfer teulu a dibynyddion ac absenoldeb di-dâl i rieni.
- Gweithle, e.e. hawliau cysylltiedig â gweithio'n hyblyg, amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau undeb llafur, gallu cysylltu â chynrychiolydd undeb llafur os bydd rheswm i gwyno, seibiannau gorffwys wythnosol a dyddiol, hawl i beidio â chael eich aflonyddu neu dderbyn triniaeth wahaniaethol, 'datgelu camarfer', hawliau i bobl 16–17 oed astudio a derbyn hyfforddiant.
- Dyletswyddau'r cyflogwr:
  - darparu gwaith
  - tâl
  - cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch.
- Dyletswyddau'r cyflogai:
  - ufuddhau i gyfarwyddiadau/orchmynion rhesymol
  - peidio â dwyn
  - cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Gwerthuso, cymhwyso cyfraith achosion a statudau.

### A2 Contractau cyflogaeth a dogfennaeth arall

- Mathau o gontract:
  - llawn-amser parhaol
  - rhan-amser
  - dros dro
  - cyfnod penodol
  - hyfforddai
  - oriau sero
  - hyblyg.
- Llunio contract:
  - cynnig
  - derbyn
  - ystyriaeth
  - bwriad i greu cysylltiadau cyfreithiol.
- Telerau datganedig a goblygedig, telerau a ymgorfforir trwy arferion, telerau contractiol annheg.
- Cychwyn contract.
- Pennu a yw'r cyflogai'n gyflogedig neu'n hunan-gyflogedig.
- Newidiadau i gontract.
- Hawl cyflogeion i gael manylion ysgrifenedig am y contract cyflogaeth, e.e. ble gellir dod o hyd iddo os nad yw'n ddogfen unigol, amserlenni ar gyfer ei roi i gyflogai newydd, beth i'w wneud os na fydd datganiad ysgrifenedig yn dod i law.

- Cynnwys y datganiad ysgrifenedig o fanylion cyflogaeth, e.e. enw'r busnes, enw'r cyflogai, teitl y swydd a/neu ddisgrifiad swydd, dyddiad dechrau, a fydd swydd flaenorol yn cyfri tuag at hyd gwasanaeth, faint a phryd bydd y cyflogai'n cael ei dalu, oriau gwaith a'r dyddiau/amseroedd pan fydd gwaith yn cael ei wneud, manylion yn ymwneud â goramser, hawliau gwyliau, lleoliad y gwaith.
- Cynnwys arall, e.e. hyd cyflogaeth dros dro, dyddiad gorffen contract cyfnod penodol, cyfnodau rhybudd, cytundebau ar y cyd, manylion pensiwn, prosesau ar gyfer delio â chwynion, sut i gwyno.
- Mynediad i wybodaeth neu bolisïau ar dâl salwch, gweithdrefnau disgyblu, cwyno a diswyddo.
- Cynnwys contract cyflogaeth, rhesymau dros gael contract cyflogaeth yn erbyn datganiad o fanylion.
- Gwerthuso, cymhwyso cyfraith achosion a statudau.

## Nod dysgu B: Ymchwilio i bwysigrwydd cydraddoldeb yn y gweithle a dylanwad sefydliadau cymorth

### B1 Sicrhau cydraddoldeb mewn cyflogaeth

- Nodweddion gwarchodedig, diffiniad a disgrifiad (deddfwriaeth cydraddoldeb), e.e. oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol – angen hyfforddi cyflogeion i osgoi problemau yn y gwaith.
- Ymddygiad gwaharddedig, e.e. gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, trais, bwlio, dwyn, defnyddio cyfathrebu electronig yn anghyfreithlon, aflonyddu, gamblo yn y gwaith, cam-drin geiriol a chorfforol, arferion perthnasol i'r busnes penodol.
- Gwerthuso, cymhwyso cyfraith achosion a statudau.

### B2 Sefydliadau sy'n gallu cefnogi hawliau'r cyflogwr a'r cyflogai

- Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).
- Undebau llafur.
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Cyngor ar Bopeth.
- Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS).
- Canolfannau cyfreithiol.
- Cronfa ddata'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth (EAT).
- Llys Hawliau Dynol Ewrop.
- Conffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI).

## Nod dysgu C: Archwilio'r dulliau cyfreithiol a ddefnyddir i ddatrys anawsterau cyflogaeth yn y gwaith

### C1 Seiliau ar gyfer terfynu cyflogaeth

- Gall cyflogai adael eu gweithle am amryw o resymau:
  - y gwahaniaeth rhwng hawliau prawf a hawliau parhaol
  - ymddiswyddo
  - galluogrwydd
  - ymddygiad
  - diswyddo
  - lle na all cyflogai aros yn eu swydd oherwydd byddai hyn yn torri'r gyfraith
  - rhyw reswm pwysig arall sy'n cyfiawnhau diswyddo'r cyflogai o'u gwaith
  - diswyddo ar gam, yn annheg neu ddiswyddo trwy ddehongliad
  - gwerthuso
  - cymhwyso cyfraith achosion a statudau.

**C2 Dulliau ffurfiol ac anffurfiol o ddatrys problemau yn y gweithle**

- Rhoddir gweithdrefnau cwyno a disgyblu ar waith i sicrhau bod y broses gwyno'n deg ac yn dryloyw i'r ddwy ochr. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig lle y bo'n briodol.
- Cyfeirio at y contract cyflogaeth.
- Penderfynu a yw'r broblem yn un ffurfiol neu anffurfiol gysylltiedig â gwaith, cyfarfodydd disgyblu, defnyddio cyfryngu.
- Defnyddio a chyfeirio at bolisi cwyno a disgyblu busnesau, gweithdrefnau, ymchwiliad, defnyddio cynrychiolwyr, cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, penderfyniad a chamau pellach, cofnod ysgrifenedig, defnyddio rhybudd llafar ac ysgrifenedig.
- Rôl ACAS.
- Tribiwnlysoedd: gweithdrefnau, defnyddio penderfyniadau'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth.
- Iawndal am ddiswyddiad, cyfrifo.
- Sicrhau na chaiff y cyflogai ei ddiswyddo'n annheg.
- Anghydfodau ar y cyd a'u datrys.
- Gwerthuso.
- Cymhwyso cyfraith achosion a statudau.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Edrych ar hawliau cyflogaeth a sut mae'r hawliau hynny'n effeithio ar fusnes a'i gyflogeion** | | |
| **A.Ll1** Esbonio, gan ddefnyddio sefyllfaoedd achosion, beth sy'n gorfod cael ei gynnwys yn y datganiad ysgrifenedig o fanylion cyflogaeth a'r contract cyflogaeth er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.<br>**A.Ll2** Rhoi cyngor i fusnes ar effeithiau peidio â chydymffurfio â'r datganiad ysgrifenedig o fanylion cyflogaeth. | **A.T1** Dadansoddi effaith hawliau cyflogaeth ar gyflogeion, gan gymhwyso cyfraith gyfredol briodol. | **A.Rh1** Gwerthuso i ba raddau mae hawliau cyflogaeth yn y gweithle wedi effeithio ar fusnesau, gan ddefnyddio achosion y dyfarnwyd arnynt a statudau diweddar i gyfiawnhau casgliadau. |
| **Nod dysgu B: Ymchwilio i bwysigrwydd cydraddoldeb yn y gweithle a dylanwad sefydliadau cymorth** | | |
| **B.Ll3** Esbonio, gan ddefnyddio sefyllfaoedd achosion, sut mae cydymffurfio â materion cydraddoldeb yn gallu bod o gymorth i gyflogwyr a chyflogeion.<br>**B.Ll4** Trafod sut gall sefydliadau perthnasol gefnogi hawliau cyflogwyr a chyflogeion. | **B.T2** Dadansoddi'r cymorth sydd ar gael gan sefydliadau perthnasol i gyflogeion i sicrhau cydraddoldeb yn y gweithle. | **B.Rh2** Gwerthuso i ba raddau mae cymorth gan sefydliadau wedi sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb yn y gweithle. |
| **Nod dysgu C: Archwilio'r dulliau cyfreithiol a ddefnyddir i ddatrys anawsterau cyflogaeth yn y gwaith** | | |
| **C.Ll5** Rhoi cyngor i gleient, yn esbonio sut gellir terfynu cyflogaeth.<br>**C.Ll6** Rhoi cyngor i gleient, yn esbonio sut gellir datrys problemau ffurfiol ac anffurfiol yn y gweithle. | **C.T3** Dadansoddi sut gellir defnyddio gweithdrefnau cwyno ffurfiol ac anffurfiol a gweithdrefnau disgyblu i nodi canlyniadau posibl problemau yn y gwaith.<br>**C.T4** Trafod y canlyniadau tebygol os na ellir datrys problem yn y gweithle | **C.Rh3** Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno a disgyblu ffurfiol ac anffurfiol ar gyflogeion a busnesau, gan ddefnyddio enghreifftiau priodol i gadarnhau casgliad. |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.T4, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at adroddiadau cyfreithiol a statudau.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn defnyddio enghreifftiau a datganiadau unigol a gwreiddiol i gefnogi eu gwerthusiadau o'r effaith ar gyflogwyr a chyflogeion. Byddant yn arddangos defnydd cynhwysfawr o gynseiliau a statudau perthnasol a byddant yn eu cymhwyso i gyfiawnhau eu dadleuon a'u casgliadau. Wrth gymhwyso'r gyfraith i'r sefyllfaoedd bydd rhaid i'r dysgwyr gynnwys achosion perthnasol y dyfarnwyd arnynt a statudau er mwyn cefnogi'r cyngor a roddir ganddynt.

Rhaid i'r daflen friffio ar sefydliadau cymorth fod yn broffesiynol, yn bwrpasol, ac yn addas i'w chyflwyno gan gyfreithiwr/gynghorydd i gleientiaid. Os gwneir cyflwyniad, bydd rhaid i'r dysgwyr fod yn barod i ateb cwestiynau gan y gynulleidfa ar gynnwys eu cyflwyniad a dangos dealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth a gyflwynir, a hynny ar bob lefel. Darperir datganiad arsylwi manwl i bob dysgwr.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth gynhwysfawr ac ystyriol o'r holl feysydd cyfreithiol a drafodir gan y meini prawf asesu a'r aseiniad. Byddant yn arddangos sgiliau dadansoddi da sy'n cwmpasu'r holl benderfyniadau a chanlyniadau posibl sy'n deillio o'r sefyllfaoedd neu'r astudiaethau achos. Rhaid cymhwyso'r gyfraith i'r sefyllfaoedd mewn ffordd ddadansoddol, gan ddefnyddio achosion perthnasol y dyfarnwyd arnynt a statudau i ddarparu cyngor cynhwysfawr a phriodol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn dangos eu dealltwriaeth o hawliau a dogfennau cyflogaeth. Rhaid i'r sefyllfoedd neu'r astudiaethau achos gael eu llunio mewn ffordd sy'n dangos bod y dysgwyr yn gallu datrys problemau, gwneud penderfyniadau a dadansoddi. Bydd esboniad clir a manwl ar bob un o'r elfennau, wedi'i ysgrifennu yng ngeiriau'r dysgwr ei hun i gyfleu dealltwriaeth glir o'r cyfreithiau sy'n ymwneud â chyflogaeth a hawliau cydraddoldeb.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn darparu adroddiad proffesiynol, sy'n cefnogi eu gwerthusiadau â datganiadau unigol a gwreiddiol ac enghreifftiau. Byddant yn dangos eu bod wedi gwneud defnydd helaeth o gynseiliau a statudau perthnasol a'u cymhwyso i gyfiawnhau eu dadleuon a'u casgliadau. Rhaid llunio'r sefyllfaoedd mewn ffordd sy'n gofyn bod y dysgwyr yn arddangos sgiliau datrys problemau, gwneud penderfyniadau a dadansoddi. Bydd esboniad eglur, manwl a phroffesiynol ar bob maen prawf; wedi'i gyflwyno yng ngeiriau'r dysgwr ei hun i nodi dealltwriaeth glir. Wrth gymhwyso'r gyfraith i'r sefyllfaoedd neu'r astudiaethau achos, rhoddir ystyriaeth i'r holl achosion perthnasol y dyfarnwyd arnynt a statudau i gefnogi'r cyngor a roddir. Bydd y dystiolaeth asesu a gyflwynir gan y dysgwyr yn dangos eu gallu i weithio'n unigol ac yn annibynnol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos eu bod wedi mynd ati'n unigol i ddadansoddi gweithdrefnau cwyno a disgyblu, a byddant yn dangos dealltwriaeth gynhwysfawr ac ystyriol o'r maes cyfreithiol hwn. Byddant yn arddangos sgiliau dadansoddi da sy'n cwmpasu'r holl benderfyniadau a chanlyniadau posibl sy'n deillio o'r sefyllfaoedd. Wrth gymhwyso'r gyfraith i'r sefyllfaoedd, rhoddir ystyriaeth i'r holl achosion perthnasol y dyfarnwyd arnynt a statudau i ddarparu cyngor manwl. Rhaid i'r daflen friffio a'r adroddiad fod yn broffesiynol, yn bwrpasol ac yn addas i'w cyflwyno gan gyfreithiwr/gynghorydd i gleientiaid.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth glir a'r gallu i esbonio a chymhwyso'r gyfraith sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth, a phroblemau yn y gwaith i astudiaethau achos/sefyllfaoedd ar ffurf cyflwyniad a thaflen friffio.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 23: System Gyfreithiol Lloegr
- Unit 25: Aspects of Civil Liability Affecting Business
- Unit 26: Aspects of Criminal Law Impacting on Business and Individuals.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Gall canolfannau gynnwys cyflogwyr yn y gwaith o gyflwyno'r uned hon os bydd cyfleoedd ar gael yn lleol.

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- llunio/cynnig syniadau i gyfrannu at aseiniadau uned/astudiaethau achos/ deunyddiau prosiect
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth fentora gan staff busnesau lleol.

# Uned 27: Profiad Gwaith ym Myd Busnes

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio manteision profiad gwaith ym myd busnes. Byddant yn myfyrio ar eu sgiliau gweithle ymarferol drwy gwblhau deugain awr o brofiad gwaith priodol.

## Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi'n ystyried dilyn gyrfa ym myd busnes ac yn awyddus i ennill profiad i baratoi ar gyfer y math o swydd yr hoffech ei chael? Mae dysgu cysylltiedig â gwaith yn agor eich llygaid i ystod o gyfleoedd ym myd busnes. Mae'n rhoi profiad uniongyrchol i chi a chyfle i gael rhagflas o amrywiaeth o swyddi gwahanol, gan gynnwys rhai na fyddech erioed wedi'u hystyried o bosib. Bydd yn fodd i chi gofnodi'ch profiad ymarferol, cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol a myfyrio ar eich sgiliau'ch hun.

Yn yr uned ymarferol hon, byddwch yn dysgu am y gwahanol fathau o ddysgu cysylltiedig â gwaith a'u manteision. Byddwch yn dysgu pa wybodaeth mae arnoch ei hangen cyn cychwyn y lleoliad, a sut gall y lleoliad eich helpu i ddatblygu'r cymwyseddau allweddol sy'n ofynnol i fod yn gyflogadwy, megis hunan-reolaeth, gwaith tîm, datrys problemau a sgiliau cyfathrebu. Byddwch yn dysgu rhagor am ddisgwyliadau gwahanol rolau. Byddwch yn ymchwilio i brofiad gwaith perthnasol, yn ymgymryd ag ef, ac yn gwerthuso eich perfformiad mewn dyddiadur myfyriol.

Mae cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr ar brofiad gwaith i amryw o yrfaoedd yn y sector busnes; mae cyflogwyr yn ceisio recriwtio'r rheiny sydd â rhywfaint o wybodaeth am fyd gwaith. Mae cofnod o'ch profiad gwaith hefyd o fantais o ran astudiaethau a chyrsiau ar lefel addysg uwch.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

**A** Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer dysgu cysylltiedig â gwaith

**B** Cyflawni profiad gwaith mewn ffordd briodol a diogel

**C** Myfyrio ar y profiad gwaith a wnaethoch, a'i ddylanwad ar eich datblygiad proffesiynol a phersonol.

## Crynodeb o’r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer dysgu cysylltiedig â gwaith | **A1** Dysgu cysylltiedig â gwaith<br>**A2** Deilliannau a manteision profiad gwaith<br>**A3** Cynllunio ar gyfer profiad gwaith | Portffolio adnoddau yn cynnwys manylion am ymchwil i leoliad. |
| **B** Cyflawni profiad gwaith mewn ffordd briodol a diogel | **B1** Cynefino<br>**B2** Rôl a thasgau<br>**B3** Gweithio’n ddiogel | Dyddiadur/coflyfr/blog ar-lein a phortffolio.<br>Bydd hyn yn cwmpasu’r tasgau a gyflawnwyd ac yn cyfeirio at iechyd a diogelwch. |
| **C** Myfyrio ar y profiad gwaith a wnaethoch, a’i ddylanwad ar eich datblygiad proffesiynol a phersonol | **C1** Dysgu o’r lleoliad gwaith<br>**C2** Defnyddio adborth a phennu nodau | Myfyrio ar gyfer portffolio datblygiad proffesiynol/personol (PDP). |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer dysgu cysylltiedig â gwaith

### A1 Dysgu cysylltiedig â gwaith (mae lleiafswm o 40 awr yn ofynnol)

- Cyfleoedd profiad gwaith, lleoliad gwaith: cyfnod o brofiad gwaith a drefnir gyda chyflogwr.
- Gwaith gwirfoddol: unrhyw fath o waith a wneir yn ddi-dâl.
- Gwaith rhan-amser: gwaith â thâl neu heb dâl a wneir.

### A2 Deilliannau a manteision profiad gwaith

- Egluro nodau gyrfa.
- Cael golwg ar sut mae busnesau'n gweithredu a'r heriau a wynebir ganddynt.
- Cynyddu sgiliau a gwybodaeth.
- Rhwydweithio.
- Deall swydd neu ddiwydiant arbennig.
- Cael canolwyr.
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnol.

### A3 Cynllunio ar gyfer profiad gwaith

- Cyfleoedd i gael profiad gwaith.
- Casglu gwybodaeth am y busnes, e.e. taflenni, llyfrynnau neu wefan y cwmni, dysgwyr sydd wedi bod ar leoliad gwaith yn yr un busnes, staff o'r busnes, sgwrsio neu ohebu â'r busnes.
- Gwybodaeth allweddol, e.e. oriau gwaith, gweithdrefnau absenoldeb, côd gwisg, ystyriaethau ymarfeol megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Proses ymgeisio.

## Nod dysgu B: Cyflawni profiad gwaith mewn ffordd briodol a diogel

### B1 Cynefino

- Gwybodaeth am y busnes, e.e. strwythur, nodweddion.
- Rolau lleoliadau gwaith.
- Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, e.e. gweithdrefnau gwacáu, gweithdrefnau cymorth cyntaf, rhoi gwybod am beryglon.
- Cofnodi absenoldeb a chyrraedd yn hwyr.
- Cyfrinachedd.
- Cysgodi.

### B2 Rôl a thasgau

- Cyflawni gweithgareddau o fewn ffiniau a chyfyngiadau'r rôl a'r cyfrifoldebau.
- Deall sut bydd y rôl yn datblygu'r cymwyseddau allweddol sy'n angenrheidiol i fod yn gyflogadwy, e.e. hunan-reolaeth, gwaith tîm, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu.
- Dilyn cyfarwyddiadau.
- Cyfathrebu ag eraill.
- Hunan-reolaeth.
- Rhyngweithio priodol.

### B3 Gweithio'n ddiogel

- Nodi risgiau a pheryglon posib, e.e. llithro ar lawr gwlyb, baglu dros wifrau rhydd, synau mawr yn arwain at golli clyw, mewnanadlu sylweddau gwenwynig.
- Ymddygiad diogel personol, e.e. rhoi gweithdrefnau sefydliadol ar waith, dilyn a chynnal rheolau iechyd a diogelwch, codi pethau'n ddiogel, rhoi canllawiau o'r llawlyfr hyfforddiant ar waith, dilyn codau gwisg, cyfarpar diogelwch personol.

## Nod dysgu C: Myfyrio ar y profiad gwaith a wnaethoch, a’i ddylanwad ar eich datblygiad proffesiynol a phersonol

### C1 Dysgu o’r lleoliad gwaith

- Myfyrio ar yr wybodaeth a gafwyd:
  - gwybodaeth am faes galwedigaethol newydd neu faes diddordeb
  - cadarnhau a ddylid gweithio mewn sector neu ddiwydiant arbennig
  - darganfod rhagor o wybodaeth am yrfa, diwydiant neu fusnes penodol.
- Myfyrio ar sgiliau a ddefnyddiwyd a rhai a enillwyd.
- Sgiliau personol:
  - cyfathrebu
  - datrys problemau
  - hunan-hyder
  - pendantrwydd
  - hyblygrwydd
  - ymagwedd bositif.
- Sgiliau gwaith:
  - TG
  - gwaith tîm
  - cymryd nodiadau
  - mynychu cyfarfodydd
  - prydlondeb
  - ymarweddiad ar y ffôn
  - ymwybyddiaeth o’r busnes a’i gwsmeriaid
  - dilyn cyfarwyddiadau.
- Myfyrio ar y profiadau a gafwyd:
  - nodi beth aeth yn dda a beth allai fod yn well
  - heriau a wynebwyd
  - problemau a gododd a sut aed ati i’w goresgyn neu eu datrys.

### C2 Defnyddio adborth a phennu nodau

- Adborth gan diwtoriaid, goruchwylwyr, mentoriaid a chymheiriaid, e.e. nodi meysydd adborth cadarnhaol ac adeiladol, gan dynnu sylw at feysydd i’w gwella.
- Pennu nodau o ran datblygiad proffesiynol a phersonol, e.e. tymor-byr, tymor-hir, personol, nodau cysylltiedig â gwaith, datblygu sgiliau, cymwysterau a dargedir.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer dysgu cysylltiedig â gwaith** | | **A.Rh1** Gwerthuso sut gall paratoi ar gyfer profiad gwaith gefnogi'ch dealltwriaeth o'r gweithle a chyfleoedd gyrfa priodol. |
| **A.Ll1** Disgrifio tri chyfle realistig i gael profiad gwaith ym myd busnes a sut gall pob un eich paratoi ar gyfer y gweithle.<br>**A.Ll2** Esbonio sut rydych yn paratoi ar gyfer cyfle profiad gwaith dewisedig. | **A.T1** Dadansoddi manteision profiad gwaith a sut gall fod o gymorth i chi wrth ennill dealltwriaeth realistig o'r cyfleoedd ym myd busnes. | |
| **Nod dysgu B: Cyflawni profiad gwaith mewn ffordd briodol a diogel** | | **B.Rh2** Gwerthuso effeithiolrwydd arferion cynefino a iechyd a diogelwch y busnes, gan gynnig argymhellion i'w gwella. |
| **B.Ll3** Cwblhau coflyfr sy'n esbonio'ch rôl mewn profiad gwaith priodol dewisedig.<br>**B.Ll4** Disgrifio yn eich coflyfr y gweithgareddau a wnaethoch yn y gweithle. | **B.T2** Dadansoddi pwysigrwydd cyflawni'ch rôl mewn ffordd briodol a diogel. | |
| **Nod dysgu C: Myfyrio ar y profiad gwaith a wnaethoch, a'i ddylanwad ar eich datblygiad proffesiynol a phersonol** | | **C.Rh3** Gwerthuso'ch profiad gwaith, gan ddod i gasgliadau rhesymedig ynghylch sut gall gefnogi'ch gyrfa yn y dyfodol. |
| **C.Ll5** Myfyrio ar eich cryfderau a'r meysydd y dylech eu datblygu yn ystod y profiad gwaith.<br>**C.Ll6** Nodi gwelliannau i'w gwneud i'ch sgiliau proffesiynol a phersonol mewn ymateb i adborth o'r profiad gwaith. | **C.T3** Asesu'ch perfformiad yn ystod y profiad gwaith, gan wneud argymhellion o ran datblygiad proffesiynol a phersonol. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.Rh3)



Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Mae lleoliad gwaith yn ofynnol (rhaid gwneud cyfanswm o 40 awr o leiaf).

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwneud ymchwil fanwl ac yn dewis tystiolaeth briodol i ddangos sut dewiswyd cyfle profiad gwaith priodol. Bydd y dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau ymchwil yn llwyddiannus, yn dewis a chaffael lleoliad priodol, ac yn cynhyrchu gwerthusiad wedi'i ategu'n llawn o fanteision y lleoliad dan sylw. Bydd y dysgwyr yn gwerthuso iechyd a diogelwch yn eu lleoliadau busnes ac yn gwneud argymhellion o ran unrhyw welliannau gofynnol.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dewis gwybodaeth berthnasol o brofiad gwaith a'i chymhwyso. Bydd y dysgwyr yn dangos dadansoddiad clir o fanteision profiad gwaith a sut gall fod o gymorth iddynt sicrhau dealltwriaeth realistig o'r cyfleoedd ym myd busnes. Byddant hefyd yn esbonio'n glir bwysigrwydd cyflawni eu rôl yn eu profiad gwaith dewisedig mewn ffordd briodol a diogel.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn gwneud ymchwil sy'n eu galluogi i ddisgrifio cyfleoedd profiad gwaith priodol yn y lle cyntaf, a sut aethant ati i baratoi ar gyfer y profiad gwaith.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn myfyrio'n fanwl ar eu profiad gwaith a'i fanteision o ran eu gyrfa yn y dyfodol. Bydd y dysgwyr yn dod i gasgliad rhesymedig, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth berthnasol ac adborth gan eraill, ynghylch eu cryfderau a'u gwendidau a byddant yn myfyrio ar gyfleoedd i wella.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn myfyrio i ddangos eu bod wedi asesu'r sgiliau gweithle a arddangoswyd ganddynt a, thrwy wrando ar yr adborth gan bobl eraill, y sgiliau y bydd eu hangen arnynt mewn gweithleoedd yn y dyfodol. Bydd y dysgwyr yn gallu defnyddio enghreifftiau o'r profiad gwaith i gefnogi eu hasesiad yn llwyddiannus.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn myfyrio i ddangos dealltwriaeth o'r sgiliau proffesiynol a phersonol sy'n angenrheidiol yn y gweithle, ac yn defnyddio'r adborth a gafwyd i gynnig nodau o ran gwelliant.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r holl unedau eraill yn y fanyleb.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Gall canolfannau wahodd cyflogwyr i gyfranogi yn y gwaith o gyflwyno'r uned hon os bydd cyfleoedd yn lleol.

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- siaradwyr gwadd
- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- cefnogaeth gan staff busnesau lleol fel mentoriaid.

# Uned 31: Rheoli Dyled Bersonol yn Effeithiol

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn astudio sut defnyddir cael benthyg a dyled yn nhrafodion ariannol unigolion er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau ffordd o fyw a bodloni eu hanghenion a'u dymuniadau.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae defnyddio dyled i brynu ceir, tai, nwyddau electronig, dodrefn a nwyddau a gwasanaethau eraill yn gyffredin yn y Deyrnas Unedig. Mae lefelau dyled defnyddwyr yn effeithio ar yr economi ac ar fywydau'r rhai sy'n defnyddio credyd. Mae rheoli dyled bersonol yn effeithiol a'i had-dalu yn allweddol i lesiant ariannol unigolyn.

Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu am rôl bosibl cael benthyg mewn bywyd pob dydd, ei fanteision a sut gellir rheoli dyled yn effeithiol. Byddwch hefyd yn dysgu am y dulliau datrys sydd ar gael yn achos dyled afreolus.

Yn yr uned hon, byddwch yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddyled a'i rheolaeth, a fydd yn eich helpu i symud ymlaen i astudio pynciau sy'n gysylltiedig â dyled ar lefel uwch, gan gynnwys cymwysterau proffesiynol a rhaglenni gradd mewn gwasanaethau ariannol, ac i symud ymlaen i gyflogaeth ym maes gwasanaethau ariannol.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon, byddwch chi'n:

**A** Deall y defnydd o ddyled bersonol a'i heffaith ar yr unigolyn a'r gymdeithas

**B** Archwilio ffynonellau cyngor ar ddyled a strategaethau rheoli sydd ar gael i unigolion

**C** Datblygu cynllun cyllideb i wasanaethu a rheoli dyled ar gyfer unigolyn.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Deall y defnydd o ddyled bersonol a'i heffaith ar yr unigolyn a'r gymdeithas | **A1** Dyled a'r unigolyn<br>**A2** Effaith dyled bersonol ar unigolyn<br>**A3** Dyled bersonol a chymdeithas<br>**A4** Dyledusrwydd personol | Erthygl yn ymwneud â'r canlynol:<br>• y defnydd o ddyled i ariannu ffordd o fyw a'r ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach sydd wedi dylanwadu ar y defnydd o ddyled defnyddwyr<br>• ffyrdd y gallai dyled effeithio ar unigolyn drwy gydol eu cylchred bywyd ariannol. |
| **B** Archwilio ffynonellau cyngor ar ddyled a strategaethau rheoli sydd ar gael i unigolion | **B1** Ffynonellau cyngor ar ddyled<br>**B2** Strategaethau rheoli dyled a datrysiadau credyd<br>**B3** Canlyniadau strategaethau rheoli dyled | Adroddiad, canllaw neu astudiaeth achos sy'n rhoi manylion am:<br>• sefydliadau sy'n rhoi cyngor ar ddyled neu gwnsela<br>• y prif fathau o strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol sydd ar gael i unigolion a'r canlyniadau posibl iddynt. |
| **C** Datblygu cynllun cyllideb i wasanaethu a rheoli dyled ar gyfer unigolyn | **C1** Diben cynllunio ariannol effeithiol<br>**C2** Cynllunio a chynhyrchu cynllun cyllideb personol<br>**C3** Monitro, adolygu a diwygio cynllun cyllideb personol | Cynllun cyllideb personol i unigolyn gan gynnwys:<br>• buddion cael cynllun<br>• cyllideb bersonol yn dangos gwariant a ariannir drwy ddyled<br>• rhagolwg llif arian<br>• monitro ac adolygu cynlluniau wrth i amgylchiadau newid. |

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Deall y defnydd o ddyled bersonol a'i heffaith ar yr unigolyn a'r gymdeithas

### A1 Dyled a'r unigolyn

Ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd o ddyled defnyddwyr, megis cael benthyg i brynu, mynd i ddyled ar gyfer anghenion bywyd pob dydd.

- Lefelau dyled bersonol, i gynnwys:
  - lefelau dyled bersonol yn y gorffennol o'u cymharu â phatrymau benthyg cyfredol
  - lefelau cyfredol o ddyled bersonol, e.e. dyled aelwydydd, credyd diwarant, cyllid i ariannu ceir, benthyciadau myfyrwyr, morgeisi.
- Prynwriaeth, i gynnwys:
  - y cysyniad bod defnydd cynyddol o nwyddau'n fuddiol i'r economi
  - manteision posibl, gan gynnwys costau byw is, cynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau, yn arwain at ddewis ehangach a chynnydd mewn cyflogaeth
  - anfanteision posibl, gan gynnwys ansawdd nwyddau a gwasanaethau, gwastraff adnoddau a dyblygu, cyflogau is a dirywiad mewn amodau gwaith
  - effeithiau tymor hwy ar yr economi a chynaliadwyedd lefelau uwch o ddyled.

Hawliau defnyddwyr a diogelu defnyddwyr i gynnwys deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â dyled a fforddiadwyedd, diogelu sefydliadau defnyddwyr.

- Newid technolegol a phecynnu opsiynau prynu sy'n seiliedig ar ddyled i ddefnyddwyr, gan gynnwys:
  - trafodion heb arian
  - systemau talu seiliedig ar apiau
  - penderfyniadau credyd yn y fan a'r lle i brynu ac opsiynau 'prynu nawr, talu wedyn'
  - gwarantu credyd awtomataidd
  - cyn-gymeradwyo a derbyn ceisiadau am gredyd yn syth.

### A2 Effaith dyled bersonol ar unigolyn

Cylchred bywyd ariannol yr unigolyn, y dewisiadau i'w gwneud ym mhob cyfnod a ffactorau a all gyfyngu ar allu unigolyn i gael benthyg arian.

- Y cyfnodau yng nghylchred bywyd ariannol unigolyn, i gynnwys:
  - plentyndod
  - glaslencyndod
  - oedolyn ifanc
  - canol oed
  - hen oed.
- Manteision dyled bersonol i unigolion, gan gynnwys:
  - prynu asedau a all godi mewn gwerth
  - defnyddio dyled i brynu eitemau drud yn hytrach na thynnu arian o gynilion
  - defnyddio dyled i ddarparu asedau a fyddai, fel arall, yn anfforddiadwy, e.e. tŷ, car.
- Effeithiau corfforol a meddyliol, e.e. straen ac iselder, perthnasoedd – gwrthdaro yn y teulu, colli statws yn y gymuned.
- Mynediad i gredyd a ffactorau cyfyngol, i gynnwys:
  - cymhwystra i gael credyd i gynnwys oedran, incwm, dyfarniadau llys sirol (CCJs), hanes credyd, nifer o gyfrifon credyd.
- Dewisiadau ffordd o fyw:
  - patrymau cyflogaeth
  - defnydd rheolaidd o gredyd
  - cyfyngiadau diwylliannol gan gynnwys credoau crefyddol.

### A3 Dyled bersonol a chymdeithas

Sut mae dewisiadau o ran dyled bersonol unigolion yn cael eu dylanwadu gan y gymdeithas ehangach, ac yn effeithio arni.

- Agweddau newidiol at ddyled mewn cymdeithas a achosir gan newidiadau mewn technoleg, i gynnwys:
  - arferion prynu
  - trafodion pob dydd
  - anghenion, dymuniadau a dylanwadau cylchred bywyd
  - hanes a sgoriau credyd.
- Normaleiddio cael benthyg arian trwy dwf mewn busnesau, gan gynnwys darparwyr benthyciadau diwrnod cyflog, benthyciadau gwarantwr a choflyfrau, gwerthiannau asedau personol.
- Demograffeg i gynnwys oedran, diwylliant, statws cymdeithasol.
- Ffactorau allanol ehangach i gynnwys cyfnodau hir o gyfraddau llog isel, penderfyniadau economaidd a wneir gan y llywodraeth, e.e. Banc Lloegr, rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR).
- Ffactorau a all gyfyngu ar ddyled neu ei hybu, i gynnwys:
  - pryniadau heb eu cynllunio, costau a thaliadau untro, colledion heb eu hyswirio
  - newidiadau cylchred bywyd, e.e. priodas, ymddeoliad, prynu tŷ
  - rhwyddineb cael credyd
  - amgylchiadau annisgwyl, e.e. salwch, colli cyflogaeth, colli budd-daliadau'r wladwriaeth
  - cael benthyg mwy o arian i ddatrys methu talu dyled bresennol
  - ymddygiad a meddylfryd i gynnwys osgoi mynd i ddyled, goddefiad dyled.
- Canlyniadau, gan gynnwys tlodi dyled, perthnasoedd teuluol yn chwalu, datgymhelliad i gael hyd i waith, cyfyngu dewisiadau cyflogaeth i alwedigaethau â gwobr, eithrio ariannol.

### A4 Dyledusrwydd personol

Y buddion a'r risgiau i unigolyn sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o gynnyrch benthyca.

- Cynhyrchion benthyca wedi'u gwarantu, i gynnwys morgeisi, hurbwrcas, benthyciadau i berchnogion tai:
  - buddion, gan gynnwys derbyn sgoriau credyd is, cael benthyg symiau mwy, wedi'u gwarantu, yn erbyn ecwiti, cyfraddau llog cymharol isel, cyfnodau ad-dalu hwy
  - risgiau, gan gynnwys mynd i ôl-ddyledion, troi allan ac ailfeddiannu, achosion cyfreithiol, terfynu cyflogaeth, cyfyngiadau ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- Cynhyrchion benthyca diwarant, yn cynnwys benthyciadau personol, gorddrafftiau, cardiau credyd, benthyciadau 'diwrnod cyflog':
  - buddion, i gynnwys cynyddu cyfalaf gweithio, rheoli llif arian, rhwyddineb mynediad, hyblygrwydd, creu hanes credyd da
  - risgiau, i gynnwys mynd i ôl-ddyledion, trafodion cyfreithiol, terfynu cyflogaeth, cyfyngiadau ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

## Nod dysgu B: Archwilio ffynonellau cyngor ar ddyled a strategaethau rheoli sydd ar gael i unigolion

Rhesymau pam mae unigolyn yn ceisio cyngor ar ddyled a strategaethau rheoli, a'r mathau o gyngor a dulliau datrys sydd ar gael.

### B1 Ffynonellau cyngor ar ddyled

- Darparwyr cyngor ar ddyled, i gynnwys:
  - llywodraeth ganolog, e.e. y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
  - llywodraeth leol
  - elusennau cwnsela ar ddyledion ac asiantaethau cynghori, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth a StepChange

  - darparwyr masnachol, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd
  - gwasanaethau rheoli dyled arbenigol
  - costau cysylltiedig â chwnsela ar ddyled, e.e. taliadau a godir, ffïoedd ymgynghorwyr, ffïoedd gweinyddol.

**B2 Strategaethau rheoli dyled a datrysiadau credyd**

Nodweddion y prif ddulliau ffurfiol ac anffurfiol o leddfu a datrys dyled bersonol.

- Cyfuno dyledion.
- Rhagdaliadau.
- Cynlluniau taliadau cyson.
- Trefniadau gwirfoddol unigol.
- Gorchmynion rhyddhau o ddyled.
- Methdaliad.
- Cynlluniau rheoli dyled.

**B3 Canlyniadau strategaethau rheoli dyled**

Effaith defnyddio strategaethau rheoli dyled cyffredin ar yr unigolyn.

- Canlyniadau ariannol, i gynnwys:
  - gallu cyrchu gwasanaethau ariannol a chredyd yn awr ac yn y dyfodol
  - cyfyngu neu gynyddu gwariant
  - goblygiadau cyfreithiol a chontractiol
  - costau parhaus.
- Canlyniadau i unigolion a theuluoedd, e.e. newidiadau mewn ffordd o fyw, llai o incwm gwario, newidiadau i batrymau defnydd personol.

### Nod dysgu C: Datblygu cynllun cyllideb i wasanaethu a rheoli dyled ar gyfer unigolyn

Pwysigrwydd dewisiadau a wneir ar sail beth sy'n fforddiadwy a'r defnydd o gynllun cyllideb personol i unigolyn.

**C1 Diben cynllunio ariannol effeithiol**

- Cynllunio, monitro a chadw rheolaeth ar gyllid personol.
- Cyllidebu ar gyfer aelwydydd.
- Gallu talu treuliau annisgwyl.
- Gallu cynilo i'r dyfodol.
- Gallu cyflawni rhwymedigaethau a chytundebau ariannol.
- Rhagolwg llif arian personol, i gynnwys blaenoriaethu eitemau cyllideb.

**C2 Cynllunio a chynhyrchu cynllun cyllideb personol**

- Ffynonellau incwm nodweddiadol, i gynnwys enillion o gyflogaeth, buddsoddiadau, llog ar gynilon, rhoddion, etifeddiant, budd-daliadau cyffredinol a disgresiynol, pensiynau, cynhaliaeth plant.
- Eitemau gwariant nodweddiadol, i gynnwys rhent, morgais, ardrethi, cyfleustodau, yswiriant, cludiant, bwyd, dillad, gwyliau, adloniant a hamdden, addysg, tanysgrifiadau, cyfraniadau pensiwn, cynhaliaeth plant.
- Amseriad incwm a gwariant a'i effaith ar lif arian wrth wasanaethu dyled.
- Rhagdaliadau.
- Ôl-daliadau.
- Taliadau rheolaidd ac afreolaidd.
- Dulliau cyllidebu:
  - templedi, i gynnwys offer cynllunio cyllideb bersonol a meddalwedd sydd ar gael o ffynonellau gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, banciau stryd fawr, elusennau dyled
  - y defnydd o gymwysiadau meddalwedd a ddefnyddir gan unigolion i reoli cyllidebau personol.

**C3 Monitro, adolygu a diwygio cynllun cyllideb personol**

- Defnyddio ffynonellau cyngor, e.e. StepChange, Cyngor ar Bopeth.
- Costau a ysgwyddir, i gynnwys rhai hanfodol, heb fod yn hanfodol, mynych.
- Costau annisgwyl, e.e. llety, costau byw, teithio, rhoddion.
- Amserlen fonitro a chynlluniau i gynnwys amlder a chysoni yn erbyn incwm a gwariant.
- Ystyriaethau cylchred bywyd ariannol newidiol, e.e. newidiadau teuluol, ymddeoliad, symud i gartref mwy neu lai o faint, cyfrifoldebau gofal.
- Buddion a chyfyngiadau cynlluniau cyllideb personol i gynnwys:
  - buddion, i gynnwys rheoli arian, gallu i fonitro llif arian, cynllunio ar gyfer treuliau a phryniadau yn y dyfodol, osgoi gorwario, caniatáu cynilo cronfa ariannol wrth gefn, osgoi cosbau, taliadau llog, ffïoedd am daliadau hwyr neu goll
  - cyfyngiadau, i gynnwys gallu i ragweld digwyddiadau yn y dyfodol, data anghywir a rhagdybiaethau anghywir am gostau yn y dyfodol, e.e. cynnydd ym mhrisiau tanwydd neu gostau byw, anhyblygrwydd a gwneud penderfyniadau tymor byr yn unig, gwario yn ôl y gyllideb.

## Meini prawf asesu

<table>
<tr><th>Llwyddo</th><th>Teilyngdod</th><th>Rhagoriaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu A: Deall y defnydd o ddyled bersonol a’i heffaith ar yr unigolyn a’r gymdeithas</td><td rowspan="2">A.Rh1 Gwerthuso effaith twf yn y defnydd o ddyled bersonol ar yr unigolyn a’r gymdeithas ehangach, gan ystyried y ffactorau sy’n dylanwadu ar newid.</td></tr>
<tr><td>A.Ll1 Esbonio effaith twf yn y defnydd o ddyled bersonol ar yr unigolyn.<br>A.Ll2 Esbonio effaith twf yn y defnydd o ddyled bersonol ar gymdeithas, gan ystyried ffactorau sy’n dylanwadu ar newid.</td><td>A.T1 Dadansoddi effaith twf yn y defnydd o ddyled bersonol ar yr unigolyn a’r gymdeithas ehangach, gan ystyried ffactorau sy’n dylanwadu ar newid.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu B: Archwilio ffynonellau cyngor ar ddyled a strategaethau rheoli sydd ar gael i unigolion</td><td rowspan="2">B.Rh2 Gwerthuso rôl ffynonellau cyngor ar ddyled, gan ystyried yn fanwl briodoldeb strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol i unigolyn.</td></tr>
<tr><td>B.Ll3 Esbonio’r ffynonellau cyngor ar ddyled sydd ar gael i unigolyn.<br>B.Ll4 Esbonio’r mathau o strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol sydd ar gael i unigolyn.</td><td>B.T2 Dadansoddi rôl ffynonellau cyngor ar ddyled, gan ystyried priodoldeb strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol i unigolyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu C: Datblygu cynllun cyllideb i wasanaethu a rheoli dyled ar gyfer unigolyn</td><td rowspan="2">C.Rh3 Cynhyrchu cynllun cyllideb personol cynhwysfawr ar gyfer unigolyn, gan fonitro’r gyllideb a gwneud diwygiadau i adlewyrchu newidiadau i amgylchiadau ariannol unigolyn.</td></tr>
<tr><td>C.Ll5 Cynhyrchu cynllun cyllideb personol ar gyfer unigolyn.<br>C.Ll6 Gwneud diwygiadau i adlewyrchu newidiadau i amgylchiadau ariannol unigolyn.</td><td>C.T3 Cynhyrchu cynllun cyllideb personol manwl ar gyfer unigolyn, gan wneud diwygiadau i adlewyrchu newidiadau i amgylchiadau ariannol unigolyn.</td></tr>
</table>

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri chrynodeb crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.Rh1)

Nod dysgu: B (B.Ll3, B.Ll4, B.T2, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.Rh3).



 © Pearson Education Limited 2022

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Gellir cyrchu templedi a chynlluniau cyllideb personol ar gyfer data ystadegol ac economaidd, a’r cyngor a’r strategaethau datrys dyled a allai fod yn ofynnol ar gyfer yr uned hon o wefannau llywodraeth ganolog y Deyrnas Unedig a gwefannau llywodraeth leol. Maent hefyd ar gael am ddim o fanciau stryd fawr, elusennau dyled ac o sefydliadau cynghori defnyddwyr.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu cyfres o erthyglau ar gyfer gwefan sy’n rhoi cyngor ar arian.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i effaith twf yn y defnydd o ddyled bersonol ar gymdeithas. Byddant yn gwneud defnydd trylwyr o ddata economaidd hanesyddol a chyfredol i gefnogi eu casgliadau a llunio barn wedi’i chyfiawnhau ynghylch a yw’r lefelau presennol o ddyled bersonol yn fuddiol i’r economi gyfan. Rhaid i ddyfarniadau’r dysgwyr fod wedi’u seilio ar y ffactorau sydd wedi effeithio ar y newidiadau hyn yn y gymdeithas ac mewn unigolion. Rhaid i’r erthyglau fod wedi’u hysgrifennu’n broffesiynol ac wedi’u strwythuro’n dda, gan ddefnyddio terminoleg economaidd ac ariannol gywir, a rhaid iddynt fod wedi’u cynhyrchu at safon uchel.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i effaith twf yn y defnydd o ddyled bersonol ar gymdeithas. Byddant yn gwneud defnydd da o ddata economaidd hanesyddol a chyfredol i gefnogi eu casgliadau. Dylent ddod i rywfaint o gasgliadau wedi'u cyfiawnhau ynghylch a yw’r lefelau presennol o ddyled personol yn fuddiol i’r economi gyfan ac a ellir eu cynnal. Rhaid i’w dyfarniadau gynnwys peth dadansoddiad o’r ffactorau sydd wedi effeithio ar y newidiadau hyn yn y gymdeithas ac mewn unigolion. Rhaid i’r erthyglau hyn fod wedi’u hysgrifennu’n broffesiynol gan mwyaf a dylent fod wedi’u strwythuro’n dda at ei gilydd, gan ddefnyddio terminoleg economaidd ac ariannol briodol. Rhaid iddynt fod wedi’u cynhyrchu at safon dda.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn esbonio effaith twf yn y defnydd o ddyled personol ar gymdeithas. Rhaid i’w gwaith gynnwys ystyriaeth o’r ffactorau sydd wedi effeithio ar y newidiadau hyn yn y gymdeithas ac mewn unigolion. Rhaid i’r erthyglau fod wedi’u strwythuro, gan ddefnyddio rhywfaint o derminoleg economaidd ac ariannol, a rhaid iddynt fod wedi’u cynhyrchu at safon glir i’r gynulleidfa benodol.

### Nod dysgu B

Bydd y dysgwyr yn gweithio’n annibynnol i lunio canllaw i unigolion y gellir ei phostio ar wefan sy’n rhoi cyngor ar ddyled.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i rôl ffynonellau cyngor ar ddyled a’u gwerthuso, a dylent fedru cyfiawnhau priodoldeb strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol. Mae rhaid iddynt arddangos dealltwriaeth gynhwysfawr o ble byddai strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol yn fwyaf addas i ddiwallu anghenion unigolyn. Mae rhaid i’w gwaith fod wedi’i ysgrifennu’n broffesiynol ac wedi’i strwythuro’n dda, gan ddefnyddio terminoleg ariannol a chyfreithiol hollol gywir a dylai fod wedi’i gynhyrchu at safon uchel.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i rôl ffynonellau cyngor ar ddyled a’u dadansoddi, a dylent fedru asesu priodoldeb strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol. Rhaid iddynt arddangos dealltwriaeth fanwl o ran pryd byddai strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol yn fwyaf addas i ddiwallu anghenion unigolyn. Rhaid i’w gwaith fod wedi’i ysgrifennu’n broffesiynol ac wedi’i strwythuro’n dda gan mwyaf, gan ddefnyddio terminoleg ariannol a chyfreithiol gywir gan amlaf, a rhaid ei fod wedi’i gynhyrchu at safon dda.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i rôl ffynonellau cyngor ar ddyled a'i hesbonio, a byddant yn gallu dangos priodoldeb strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol. Rhaid iddynt arddangos peth dealltwriaeth o ran pryd byddai strategaethau rheoli dyled ffurfiol ac anffurfiol yn fwyaf addas i ddiwallu anghenion unigolyn. Rhaid i'w gwaith fod wedi'i strwythuro, gan ddefnyddio rhywfaint o derminoleg ariannol a chyfreithiol gywir, a bydd wedi'i ysgrifennu mewn iaith safonol.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynllun cyllideb personol cynhwysfawr ar gyfer unigolyn, gan fonitro'r gyllideb a gwneud diwygiadau i adlewyrchu newidiadau yn amgylchiadau ariannol unigolyn. Bydd y cynllun yn rhestru pob math o incwm a gwariant unigol, gan gynnwys rhagolwg llif arian manwl yn rhagamcanu pryd caiff cyllid ei dderbyn a'i dalu allan. Bydd gan y cynllun gronfa wrth gefn ar gyfer treuliau annisgwyl. Pennir amserlen glir yn y cynllun ar gyfer monitro a gwneud diwygiadau mewn ffordd hynod drefnus a diffiniedig.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynllun cyllideb personol ar gyfer unigolyn, gan fonitro'r gyllideb a gwneud diwygiadau i adlewyrchu newidiadau yn amgylchiadau ariannol unigolyn. Bydd y cynllun yn rhestru'r rhan fwyaf o fathau o incwm a gwariant unigol, gan gynnwys rhagolwg llif arian yn rhagamcanu pryd caiff cyllid ei dderbyn a'i dalu allan. Bydd gan y cynllun hefyd gronfa wrth gefn ar gyfer treuliau annisgwyl. Pennir amserlen glir yn y cynllun ar gyfer monitro a gwneud diwygiadau, mewn ffordd drefnus a diffiniedig gan mwyaf.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynllun cyllideb personol syml ar gyfer unigolyn, ac yn gwneud diwygiadau i adlewyrchu newidiadau yn amgylchiadau ariannol unigolyn. Bydd y cynllun yn rhestru rhai mathau o incwm a gwariant unigol. Bydd gan y cynllun hefyd rywfaint o gronfa wrth gefn ar gyfer treuliau annisgwyl. Pennir amserlen yn y cynllun ar gyfer gwneud diwygiadau, mewn ffordd drefnus gan mwyaf.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Uned 3: Cyllid Personol a Busnes
- Unit 7: Business Decision Making
- Uned 14: Ymchwilio i Wasanaeth Cwsmeriaid
- Uned 23: System Gyfreithiol Lloegr
- Unit 26: Aspects of Criminal Law Impacting on Business and Individuals
- Uned 27: Profiad Gwaith ym Myd Busnes
- Unit 30: Legal Principles and Professional Ethics in Financial Services.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Gall canolfannau gynnwys cyflogwyr yn y gwaith o gyflwyno'r uned hon os bydd cyfleoedd i wneud hyn yn lleol. Nid oes unrhyw ganllawiau penodol mewn perthynas â'r uned hon.

# Uned 33: Gweithrediadau'r Gadwyn Gyflenwi

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn archwilio sut a pham y cydlynir prynu, cynhyrchu a dosbarthu er mwyn sicrhau dilyniant gweithgareddau busnes, cost-effeithiol, effeithlon.

## Cyflwyniad i'r uned

Sut mae niferoedd digonol o nwyddau megis llinellau ffasiwn newydd a thabledi cyfrifiadurol wedi'u huwchraddio'n cyrraedd y siopau ar ddyddiadau penodol, i fodloni galw cwsmeriaid? Er gwaetha'r ffaith eu bod wedi'u dylunio fisoedd ymlaen llaw a'u gweithgynhyrchu filoedd o filltiroedd i ffwrdd?

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio elfennau gweithrediadau logisteg, megis rheoli'r stocrestr, storio, trin a chludo. Byddwch yn dysgu sut mae busnesau'n prynu deunyddiau a nwyddau ar gyfer eu gweithgareddau gweithrediadol a sut maent yn trefnu bod eu hallbwn yn cael ei ddanfon a'i ddosbarthu i'r cam nesaf yn y broses gynhyrchu – o bosibl, i'r cwsmer terfynol. Byddwch yn ymchwilio i sut mae busnesau'n symud deunyddiau a nwyddau sydd wedi'u gweithgynhyrchu o'r cyflenwyr i'r cwsmeriaid, fel bod y broses yn un ddi-dor i'r holl bartïon yn y gadwyn gyflenwi a bod y cynnyrch mewn stoc drwy'r amser. Byddwch yn ystyried sut caiff y gadwyn gyflenwi ei rheoli i sicrhau ei bod wedi'i hintegreiddio'n llawn ac yn gweithredu mewn ffordd ddibynadwy. Byddwch yn edrych ar sut mae technegau megis mewn union bryd, rheoli stocrestrau a thechnoleg yn darparu gwybodaeth amser real i gefnogi rheolaeth effeithlon ar weithrediadau busnes.

Bydd yr uned hon yn eich cynorthwyo i fynd ymlaen i astudiaethau pellach ym myd addysg uwch neu i ennill cymwysterau proffesiynol mewn prynu, logisteg a rheoli cadwyni cyflenwi. Hefyd, bydd yr uned hon yn eich helpu i symud ymlaen i gyflogaeth ym maes rheoli cadwyni cyflenwi.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Edrych ar rôl gweithrediadau logisteg wrth sicrhau gweithrediadau cadwyn gyflenwi effeithiol

**B** Ymchwilio i bwysigrwydd trefnu a gweithredu cadwyni cyflenwi i fusnesau

**C** Edrych ar effaith technoleg ar reolaeth effeithlon ar weithrediadau cadwyn gyflenwi.

## Crynodeb o'r uned

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Edrych ar rôl gweithrediadau logisteg wrth sicrhau gweithrediadau cadwyn gyflenwi effeithiol</td><td>A1 Rheoli stocrestrau<br>A2 Storio a thrin<br>A3 Trafnidiaeth</td><td rowspan="2">Adroddiad ar weithrediad dwy gadwyn gyflenwi, un o fusnes cenedlaethol sy'n tyfu ac un o fusnes rhyngwladol sy'n tyfu.<br>Adroddiad yn awgrymu sut gallai gwell integreiddio wella gweithrediadau ymhellach i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi.</td></tr>
<tr><td>B Ymchwilio i bwysigrwydd trefnu a gweithredu cadwyni cyflenwi i fusnesau</td><td>B1 Elfennau'r gadwyn gyflenwi<br>B2 Integreiddio cadwyni cyflenwi<br>B3 Rheoli'r gadwyn gyflenwi<br>B4 Buddion integreiddio'r gadwyn gyflenwi</td></tr>
<tr><td>C Edrych ar effaith technoleg ar reolaeth effeithlon ar weithrediadau cadwyn gyflenwi.</td><td>C1 Technolegau<br>C2 Technoleg ac elfennau'r gadwyn gyflenwi<br>C3 Effaith technoleg</td><td>Cyflwyniad unigol, gyda thaflen ac adroddiad ategol sy'n dadansoddi'r dechnoleg sydd ar gael a sut gellir ei defnyddio i gefnogi a gwella gweithrediad y gadwyn gyflenwi yn achos dau fusnes cyferbyniol.</td></tr>
</table>

.



Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Edrych ar rôl gweithrediadau logisteg wrth sicrhau gweithrediadau cadwyn gyflenwi effeithiol

Bydd angen i'r dysgwyr gael dealltwriaeth gyffredinol o ddulliau logisteg modern a sut mae busnesau'n sicrhau bod gofynion o ran stocrestrau'n cael eu cyfrifo a'u rheoli fel bod gweithgynhyrchwyr, adwerthwyr cenedlaethol a gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu anghenion eu cwsmeriaid.

### A1 Rheoli stocrestrau

- Gweithgareddau logisteg yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys trin deunyddiau, cynhyrchu, pecynnu, rheoli stocrestrau, cadw mewn warws, cludiant a diogelu cyflenwadau.
- Pwrpas stocrestrau o ran darparu parthau clustogi rhwng gwahanol weithgareddau cadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'r gadwyn gyflenwi'n parhau.
- Mathau o stocrestrau, gan gynnwys stoc agoriadol, gwaith ar y gweill, nwyddau gorffenedig a stociau diogelwch.
- Costau cario stocrestrau megis costau caffael a dal.
- Technegau prisio stocrestrau megis yr olaf i mewn, y cyntaf allan (LIFO), y cyntaf i mewn, y cyntaf allan (FIFO), cost gyfartalog, cost safonol.
- Monitro a rheoli'r stocrestr gan ddefnyddio:
  - dadansoddiad Pareto a dosbarthiadau ABC
  - galw dibynnol ac annibynnol
  - cynllunio adnoddau deunyddiau (MRP ac MRP II)
  - systemau cyflenwi mewn union bryd a Kanban
  - stocio llwythi a stocrestrau a reolir gan y gwerthwr.
- Cyfrifo gofynion y stocrestr gan gydnabod ffactorau'n cynnwys:
  - maint archeb economaidd
  - pwynt ailarchebu
  - effaith chwip tarw (*bullwhip*)
  - cynllunio adnoddau deunyddiau
  - lefelau gwasanaeth i stocrestrau wrth weithio gyda gweithgynhyrchu, gwerthu a marchnata
  - dulliau meintiol ac ansoddol o ragamcanu.

### A2 Storio a thrin

- Lleoli warysau i sicrhau gweithrediadau cadwyn gyflenwi effeithlon.
- Dylunio warysau i optimeiddio llif, defnydd o le a hyblygrwydd wrth drin stocrestrau.
- Dulliau trin stocrestrau effeithlon megis pacio a stacio ar baledau ac unedau llwyth.
- Systemau codio cynnyrch, megis codiau bar ac Adnabod Amledd Radio (RFID), i nodi ac olrhain symud cynnyrch.

### A3 Trafnidiaeth

- Dulliau cludo nwyddau, gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr a'r rhesymau dros eu defnyddio.
- Defnydd trafnidiaeth ryngwladol o *incoterms* (telerau masnachol rhyngwladol).
- Technegau i optimeiddio systemau trafnidiaeth a symud nwyddau.
- Logisteg gwrthdro i gipio gwerth yn ôl, gan gynnwys:
  - dychwelyd nwyddau
  - dychwelyd pecynnu
  - adnewyddu
  - gwaredu diogel.

## Nod dysgu B: Ymchwilio i bwysigrwydd trefnu a gweithredu cadwyni cyflenwi i fusnesau

Bydd angen i'r dysgwyr ddeall sut caiff cadwyni cyflenwi effeithlon eu strwythuro a sut mae'r gadwyn gyflenwi integredig yn creu mantais gystadleuol.

### B1 Elfennau'r gadwyn gyflenwi

- Elfennau'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys trin deunyddiau, gweithgynhyrchu, pecynnu, rheoli stocrestrau, cadw mewn warws, cludiant a diogeledd.
- Blaenoriaethu anghenion cwsmeriaid ymhob cam yng ngweithrediadau'r gadwyn gyflewni.
- Ffurfiau'r gadwyn gyflenwi megis llinol ac wedi'u rhwydweithio, hyd cadwyni cyflenwi yn nhermau nifer y busnesau yn y gadwyn gyflenwi, lleoliad y busnesau yn y gadwyn gyflenwi a'r pellter daearyddol rhwng busnesau yn y gadwyn gyflenwi.

### B2 Integreiddio cadwyni cyflenwi

- Cysylltu gweithgareddau'r holl fusnesau yn y gadwyn gyflenwi drwy:
  - nodi strategaeth cadwyn gyflenwi
  - pennu amcanion a pholisïau ategol
  - datblygu strwythurau trefniadol i oresgyn rhwystrau swyddogaethol
  - rhannu gofynion ac anghenion ar gyfer nwyddau a gwasanaethau
  - integreiddio systemau cyfrifiadurol sy'n defnyddio data sy'n gyffredin i bob busnes
  - safonau cyfathrebu cyffredin megis cyfnewidfa data electronig (EDI)
  - cytuno ar safonau ansawdd
  - pennu cyfrifoldebau busnesau unigol a chytuno arnynt
  - pennu lefelau gwasanaeth.

### B3 Rheoli'r gadwyn gyflenwi

- Monitro perfformiad drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), targedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol (CAMPUS), rheoli cyllidebau.
- Ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys rhai mewnol, allanol, adroddiadau ffurfiol, adroddiadau ad hoc, anecdotaidd.
- Risgiau i gadwyni cyflenwi, gan gynnwys siociau allanol (daeargrynfeydd, tswnami), diffyg capasiti gan fusnesau yn y gadwyn gyflenwi, dibyniaeth ar un busnes, methiannau mewn systemau cyfrifiadurol (gwybodaeth, cyllid), un busnes yn dominyddu'r gadwyn gyflenwi, gwasanaeth cwsmeriaid gwael, gwrthdaro rhwng sefydliadau.
- Camau i'w cymryd gan y rheolwyr i adfer a gwella gweithrediadau cadwyn gyflenwi.

### B4 Buddion integreiddio'r gadwyn gyflenwi

- Manteision cadwyni cyflenwi integredig, gan gynnwys:
  - gwell gwasanaeth i fusnesau ymhellach i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi
  - cysoni gweithgareddau rhwng busnesau yn y gadwyn gyflenwi
  - awtomeiddio gweithgareddau
  - gwell dibynadwyedd a llai o wallau megis osgoi diffyg stoc
  - costau personél llai
  - gwell defnydd o adnoddau
  - amserau arwain llai trwy ddefnyddio technegau mewn union bryd
  - gwelliant o ran mantais gystadleuol ac enw da i fusnesau yn y gadwyn gyflenwi.


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Nod dysgu C: Edrych ar effaith technoleg ar reolaeth effeithlon ar weithrediadau cadwyn gyflenwi.

Bydd angen i'r dysgwyr gael dealltwriaeth o dechnoleg fel hwylusydd busnes yng nghyd-destun rheoli'r gadwyn gyflenwi.

### C1 Technolegau

- Cymwysiadau meddalwedd, megis cronfeydd data a thaenlenni, a ddefnyddir i reoli adnoddau a phrosesau mewn gweithrediadau cadwyn gyflenwi.
- Meddalwedd Cynllunio Adnoddau Menter (ERP) i gasglu, storio, rheoli a dehongli data a gwybodaeth mewn ffyrdd integredig ar gyfer gweithrediadau cadwyn gyflenwi.
- Adnabod Amledd Radio (RFID) i nodi ac olrhain cynnydd adnoddau trwy'r gadwyn gyflenwi.
- System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a System Leoli Fyd-eang (GPS) mewn cludiant/logisteg.
- Caffael i Dalu (P2P) i integreiddio gweithrediadau caffael ac anfonebu.
- Systemau cyfathrebu ar gyfer symud data a gwybodaeth ar draws gweithrediadau cadwyn gyflenwi.

### C2 Technoleg ac elfennau'r gadwyn gyflenwi

- Y defnydd o dechnoleg ar gyfer:
  - gweithgareddau cadwyn gyflenwi megis e-hawlio, e-gyrchu, e-archebu, e-gynnig, e-arwerthu, e-anfonebu, e-dalu
  - modelu cyfrifiadurol
  - dadansoddi penderfyniadau
  - rheoli stocrestrau
  - lleoliad cyfleusterau
  - logisteg
  - dosbarthiad.

### C3 Effaith technoleg

- Rheoli gwybodaeth trwy ddefnyddio systemau er mwyn:
  - hysbysu rhanddeiliaid yn y gadwyn gyflenwi'n rheolaidd
  - cydamseru gweithgareddau ar draws y gadwyn gyflenwi
  - llyfnhau amrywiannau rhwng galw a chyflenwad
  - lleihau amserau arwain
  - lleihau costau
  - creu arbedion effeithlonrwydd ar draws y gadwyn gyflenwi.
- Darparu gwybodaeth mewn amser real trwy ddefnyddio cronfeydd data integredig, cysylltiedig a thechnegau ERP i wella gallu busnesau yn y gadwyn gyflenwi i wneud penderfyniadau.
- Systemau tracio ac olrhain i bennu lleoliad eitemau unigol yn y gadwyn gyflenwi ar y pryd ac yn y gorffennol a gwybodaeth arall amdanynt.
- Meddalwedd cynllunio cludiant, modelu a llwybro i sicrhau dosbarthiad cost-effeithiol yn y gadwyn gyflenwi.
- Integreiddio ac awtomeiddio'r broses gaffael o nodi gofynion hyd at gynllunio, cyllidebu, prynu a thalu.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Edrych ar rôl gweithrediadau logisteg wrth sicrhau gweithrediadau cadwyn gyflenwi effeithiol** | | **A.Rh1** Gwerthuso'r defnydd o wahanol dechnegau monitro a rheoli stocrestrau wrth reoli stocrestrau'n effeithlon. |
| **A.Ll1** Esbonio rôl rheoli stocrestrau wrth sicrhau gweithrediad di-dor cadwyn gyflenwi.<br>**A.Ll2** Archwilio cyfraniad ystod o dechnegau trin a dulliau cludo at reoli stocrestrau. | **A.T1** Asesu sut gellir cyfrifo gofynion stocrestr i sicrhau rheolaeth gost-effeithiol ac effeithlon ar stocrestrau. | |
| **Nod dysgu B: Ymchwilio i bwysigrwydd trefnu a gweithredu cadwyni cyflenwi i fusnesau** | | **B.Rh2** Gwerthuso effaith cadwyn gyflenwi integredig ar bob busnes yn y gadwyn gyflenwi. |
| **B.Ll3** Cymharu strwythur cadwyni cyflenwi ar gyfer busnesau sy'n gweithredu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br>**B.Ll4** Esbonio sut mae gweithrediadau effeithlon ar bob cam yn y gadwyn gyflenwi'n sicrhau bod y nwyddau a gwasanaethau a ddarperir yn bodloni anghenion cwsmeriaid. | **B.T2** Dadansoddi effeithiolrwydd y technegau a ddefnyddir i integreiddio gweithrediadau cadwyn gyflenwi. | |
| **Nod dysgu C: Edrych ar effaith technoleg ar reolaeth effeithlon ar weithrediadau cadwyn gyflenwi.** | | **C.Rh3** Gwerthuso rheolaeth busnes llwyddiannus ar weithrediadau cadwyn gyflenwi a'r dechnoleg gysylltiedig. |
| **C.Ll5** Disgrifio'r technolegau a ddefnyddir i gefnogi gweithrediadau cadwyn gyflenwi.<br>**C.Ll6** Esbonio sut gall technoleg wella gweithrediadau cadwyn gyflenwi. | **C.T3** Dadansoddi effaith technoleg ar reoli cadwyni cyflenwi. | |

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.Rh1, B.Ll1, B.Ll2, B.T2, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad at ystod o wybodaeth fusnes gyfredol ar weithrediadau cadwyn gyflenwi o wefannau ac adnoddau printiedig.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nodau dysgu A a B

Dylai'r dysgwyr lunio adroddiad sy'n egluro sut caiff cadwyn gyflenwi ei threfnu a sut mae cadwyni cyflenwi effeithiol yn allweddol i gael mantais gystadleuol. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio diagramau o gadwyni cyflenwi dau fusnes llwyddiannus sy'n masnachu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn cefnogi eu disgrifiadau. Bydd angen i'r dysgwyr gynnwys esboniadau clir ar wahanol weithgareddau sy'n cysylltu'r holl fusnesau yn y cadwyni cyflenwi dan sylw, gan gynnwys sut mae effeithlonrwydd y cadwyni cyflenwi'n bodloni anghenion cwsmeriaid.

Dylai'r dysgwyr archwilio'r ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â chynyddu capasiti warysau gan gynnwys trin a chludiant, a'r dulliau cludo gwahanol, ynghyd ag egwyddorion logisteg gwrthdro.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwerthuso'r defnydd o wahanol ddulliau rheoli stocrestrau mewn dau fusnes cyferbyniol, gan gynnwys ystod o dechnegau monitro a rheoli. Dylid eu cyfiawnhau yn yr adroddiad a rhoi cyfeiriadau perthnasol.

Bydd y dysgwyr yn rhoi gwerthusiad cynhwysfawr o'r gadwyn gyflenwi integredig mewn sefydliad penodol, gan gymharu a chyferbynnu'r buddion trosglwyddadwy i fusnesau.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn asesu sut gellir cyfrifo gofynion stocrestr dau fusnes. Bydd y dysgwyr yn archwilio a dadansoddi gweithgareddau y gellir eu defnyddio i integreiddio'r gadwyn gyflenwi. Ar sail hyn, bydd y dysgwyr yn asesu priodoldeb y gweithgareddau hyn i ddau fusnes dewisedig.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn diffinio logisteg ac yn disgrifio sut mae logisteg yn cyfrannu at weithrediad cadwyn gyflenwi effeithiol, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o fusnesau sy'n gweithredu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd rheoli gweithrediadau cadwyn gyflenwi, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg, ar gyfer busnes llwyddiannus dewisedig. Bydd y dysgwyr yn darparu enghreifftiau clir o arbedion effeithlonrwydd a'r wybodaeth a'r systemau a ddefnyddiwyd.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dadansoddi effaith technoleg ar reoli gweithrediadau cadwyn gyflenwi yn achos dau fusnes cyferbyniol. Bydd y dysgwyr yn asesu enghreifftiau o welliannau technolegol penodol a'u gweithrediad yn y ddau fusnes â'u cysylltu â gwelliannau busnes.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn disgrifio'r ystod o dechnolegau sydd ar gael i ddau fusnes cyferbyniol a pham gwnaeth y busnesau hyn ddefnydd o bob un o'r technolegau i gefnogi gweithrediad eu cadwyn gyflenwi. Bydd y dysgwyr yn egluro sut mae'r technolegau a nodwyd yn cyfrannu at wella gweithrediadau cadwyn gyflenwi'r ddau fusnes.


Diploma Sylfaen Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Busnes – Unedau – Argraffiad 2 – Mai 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 1: Archwilio Byd Busnes
- Uned 15: Ymchwilio i Fyd Busnes Adwerthu
- Uned 27: Profiad Gwaith ym Myd Busnes
- Unit 32: Buying for Business.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- profiad gwaith
- deunyddiau busnes enghreifftiol
- bod yn rhan o gynulleidfa sy'n asesu cyflwyniadau
- cyfleoedd i ymweld â busnesau addas.